This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

+ *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
+ *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
+ *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
+ *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at `http://books.google.com/`

NYPL RESEARCH LIBRARIES
3 3433 08158806 7

Deddf Dyrchafiad

Cymru yn Berthnasol

gan

David T. Jones-Hamilton

8267

THE NEW YORK PUBLIC LIBRARY
ASTOR LENOX & TILDEN
FOUNDATIONS

C-11
179

Llyfrau Eraill gan yr Awdwr.

"Esboniad yr Efrydydd"	Efengyl Matthew, Mewn llian hardd ..	3/6
" "	" " Eto	2/9
" "	Efengyl Marc, Llian	1/0
" "	Efengyl Luc, Mewn llian	2/3
" "	Efengyl Ioan, Gilt edges	4/0
" "	" Llian hardd	3/6
" "	Matthew a Marc, un gyfrol..	4/6
" "	Marc a Luc, un gyfrol, Gilt Edges .	4/-
" "	" Llian hardd	3/6
" "	Luc ac Ioan, un gyfrol	5/6
" "	Hebreaid, Gilt edges	3/6
" "	" Llian hardd	3/-
" "	" "	2/6
Hanes Methodistiaeth Wesleyaidd Gymreig	.. ..	2/6
" "	" " .. Gilt Edges ..	3/6
Cof-adael John Wesley	.. .. Llian	1/6
Rholiadur	.. .. Llian	1/-
Rhagoriaeth Moesoldeb y Beibl	.. .. .. Amlen	6ch
Eglwys Loegr a'r Eglwysi Ymneillduol	.. .. "	3c

D.S.—"Esboniad yr Efrydydd" ar "Rhufeiniaid," "Athroniaeth Foesol y Beibl," a "Damcaniaeth Dadblygiad," allan o argraffiad.

Achebion i'w hanfon am y Llyfrau uchod at yr Awdwr,—

T. JONES-HUMPHREYS.

DEDDF DYRCHAFIAD.

CYFROL O BREGETHAU.

DEDDF DYRCHAFIAD.

CYFROL O BREGETHAU

GAN Y

PARCH. T. JONES-HUMPHREYS
(TY CERRIG),

AWDWR "RHAGORIAETH MOESOLDEB Y BEIBL," "DAMCANIAETH DADBLYGIAD," "ATHRONIAETH FOESOL Y BEIBL," "Y RHEOLIADUR," "ESBONIAD YR EFRYDYDD AR MATTHEW, MARC, LUC AC IOAN," "YR EPISTOL AT Y RHUFEINIAID," YR EPISTOL AT YR HEBREAID," "HANES METHODISTIAETH WESLEYAIDD GYMREIG," &c., &c.

Treffynnon:
ARGRAPHWYD GAN W. WILLIAMS A'I FAB.

1902.

THE NEW YORK
PUBLIC LIBRARY
256836B
ASTOR, LENOX AND TILDEN FOUNDATIONS
R 1943 L

I

Fy Anwyl Wraig,

ar gyfrif

Ei haml rinweddau

Fel Priod, Mam,

a

Christion,

Y Cyflwynir y Gyfrol hon

gydag

Edmygedd a Serch.

43 X 879

RHAGYMADRODD.

NID oes eisiau i Weinidog yr Efengyl ofyn i neb ei esgusodi am ddefnyddio y Wasg i bregethu drwyddi, oblegid mae ganddo bob hawl arni. Fel y gwelir, "Deddf Dyrchafiad" y gelwir y Gyfrol fechan hon. Dyma bwnc y Bregeth Gyntaf,—pwnc amserol yn yr oes aflonydd hon, pan y mae pawb yn ymawyddu am ddyrchafiad, ond miloedd yn esgeuluso yr amodau a'i sicrhant.

Wrth ddethol y Pregethau i'r gwaith hwn, o blith canoedd a gyfansoddwyd genyf yn ystod y deugain mlynedd diweddaf, ceisiais gadw fy ngolwg ar y cyfryw a ddalient berthynas â phwnc y Bregeth gyntaf, a chredaf eu bod oll yn taflu goleuni ar y llwybrau, a arweiniant y rhai a rodiant ynddynt yn nghyfeiriad dyrchafiad moesol ac ysbrydol—tymhorol a thragywyddol. Ar y cyfrif hwn byddai yn dda genyf pe darllenid y Gyfrol gan ein pobl ieuainc a ddeallant Gymraeg yn y wlad hon, yn yr America, &c. Mae yn y Pregethau hyn genadwri atynt, ac ni phetrusaf ddyweyd, os darllenant hwy, ac os dilynant yn ffyddlon y cyfarwyddiadau a gânt ynddynt, y bydd eu dyrchafiad yn sicr a diogel yn yr ystyr oreu ac uchaf.

Diameu y gwel y sawl fu yn eistedd o dan fy ngweinidogaeth, gryn wahaniaeth rhwng y pregethau hyn, fel eu ceir yn argraffedig yn y Gyfrol hon, i'r hyn oeddynt yn y traddodiad ohonynt. Nis gallesid disgwyl iddi fod yn amgen, yn nwyneb y ffaith na thraddodais erioed Bregeth fel ag yr oedd yn ysgrifenedig. Ni chefais y ddawn i ddysgu fy Mhregethau allan air yn air ar dafod-leferydd. Pe buasai raid i mi wneyd hyn mewn trefn i bregethu, buasai raid i fy mywyd fod yn llai cynyrchiol i gyfeiriadau eraill, nag y bu.

RHAGYMADRODD.

Rhoddwyd i mewn ddwy Bregeth, nid yn gymaint o fy newisiad fy hun, ond yn hytrach ar gais eraill, sef "Troellau y Crochenydd," a "Gogoniant mwy Ardderchog." Gwelir fod y ddwy i fesur yn anghyflawn, oblegid ar ol eu traddodi y cefais hamdden i'w hysgrifenu. Nid wyf yn meddwl y clyw neb yn y Gyfrol fechan hon acenion *shibboleth* Enwadol, ond yn hytrach acenion dysgeidiaeth yr Efengyl am drefn Duw i ddyrchafu dyn o ddyfnder ei ddirywiad i uchder ei adferiad trwy y Gras sydd yn Nghrist Iesu. Rhoddi mynegiad i ddysgeidiaeth ysbrydoliaeth oedd fy amcan, a gadael i'r gwirionedd ddisgleirio yn ei oleuni ei hun.

Mae argraffwaith y Gyfrol yn ol yr arddull ddiweddaraf, gan y ceir teitl y Bregeth ar wyneb, a barddoniaeth ar gefn y ddalen sydd yn ei blaenori. Canfyddir yr un peth mewn cyfrolau eraill, ond gyd â'r gwahaniaeth fod yr holl farddoniaeth yn hon yn gynyrch awen yr Awdwr ei hun. Cefais i bleser, a pheth budd, wrth gyfansoddi y darnau bychain hyn, ac efallai y caiff rhai o'r darllenwyr fwy o flas arnynt nag ar y Pregethau. Cyd-rêd y Pregethau a hwythau ar hyd llwybrau yr un testynau, a gwasanaethant i gynyrchu amrywiaeth dymunol yn y gwaith.

Hyderaf y bydd darlleniad o'r Gyfrol fechan hon yn foddion, o dan arddeliad Ysbryd Duw, i gael llawer i rodio ar hyd llwybrau dyrchafiad, nes clywed ohonynt seiniau melysion y ganmoliaeth ddwyfol yn disgyn ar eu clyw, yn dywedyd, "Da, was da a ffyddlon: buost ffyddlon ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer; dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd." Bendith yr Arglwydd a ddilyno hyn o waith i ba gylch bynag yr elo, er lles ei ddarllenwyr.

T. JONES-HUMPHREYS.

CONWY,
Rhagfyr, 1902.

CYNWYSIAD.

TUDAL.

CYFLWYNIAD - - - - - - - - - - - 7

RHAGYMADRODD - - - - - - - - - . - 9

CYNWYSIAD - - - - - - - - - - - - 11

PREGETH.

I.—DEDDF DYRCHAFIAD (Luc xvi. 9—12) - - - 13

II.—CYFADDASDER DUWIOLDEB I SYLWEDDOLI EI HAMCAN (1 Tim. iv. 7, 8) - - - - - - - 27

III.—SYLFAEN GWYBODAETH MEWN CREFYDD (Daniel xi. 32) 41

IV.—CRAIG YR OESOEDD (Esaiah xxvi. 4) - - - - - 53

V.—YR IACHAWDWRIAETH YN DESTYN EFRYDIAETH (1 Petr i. 9—12) - - - - - - - - - - - 65

VI.—Y CYFAMOD HEDD (Esaiah liv. 9, 10) - - - 79

VII.—TROELLAU Y CROCHENYDD (Jeremiah xviii. 3) - - 89

VIII.—YR YMARWEDDIAD CRISTIONOGAETH (Ephesiaid iv. 20, 21) - - - - - - - - - - - 97

IX.—GOGONIANT MWY ARDDERCHOG (Job xxxvii. 22) - - 111

X.—GWIRIONEDDAU CREFYDD MEWN DATGUDDIAD A PHROFIAD (Phil. iii. 7—14) - - - - - - 121

XI.—CYNYDD A DIRYWIAD Y BYWYD CREFYDDOL (2 Petr i. 8, 9) - - - - - - - - - - - - 133

XII.—EDRYCH AR Y PETHAU NI WELIR (2 Corinthiaid iv. 16—18) - - - - - - - - - - - 141

XIII.—DYFODIAD MAB Y DYN (Luc xxi. 36) - - - - - 149

XIV.—DINASYDDIAETH Y SAINT (Philippiaid iii. 20, 21) - 161

CYWIRIADAU.

DIANGODD ychydig o wallau heb eu cywiro, megys *ei* yn lle *eu*, *yw* yn lle *yn*, &c. Diolchwn os gwna y darllenydd sylwi ar y cywiriadau canlynol—Tudalen 28, yr ail linell yn y penill olaf, yn lle *fy* darllener *dy*. Tudalen 42, yr ail benill yn lle

"Safai llanciau 'n wrol draw
A phan welwai 'r miloedd—Daniel."

Darllener:—

"Safai 'r llanciau 'n wrol draw:—
Daniel, pan oedd mil yn welw," &c.

Tudalen 122, Darllener y llinell gyntaf yn y penill cyntaf fel y canlyn:—

"Cyfrifais gynt wag bethau 'r llawr."

Cyferfydd y darllenydd âg ychydig wallau eraill, megys *afradon*, *Ddwfol*, &c., yn lle *afradlon*, *Ddwyfol*, &c. Ond nid ydynt yn bwysig, a gellir yn hawdd eu cywiro.

I.

Deddf Dyrchafiad.

"Buost ffyddlawn ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer; dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd."—IESU GRIST.

A'R 'chydig 'nawr a roed i ti,
  Bydd yn ffyddlon was;
Yn y cylch 'rwyt yn gwas'naethu
  Ceisia gymorth grâs:
Felly ti gei nerth i esgyn,
Dros anhygyrch fryn a chlogwyn,
I gymdeithas engyl claerwyn,
  Hwnt i'r asur lâs.

Trwy y bychan cei'th dysgyblu,
  Tra yma yn byw;
A'th gymhwyso 'lywodraethu,
  Yn y deyrnas wiw;
Ti was gonest, da, a ffyddlon,
Cei bob peth wrth fodd dy galon,
Yn llawenydd Gwynfa wiwlon,
  Gyd â Christ a Duw.

T. J. H.

Deddf Dyrchafiad.

"Ac yr wyf yn dywedyd i chwi, Gwnewch i chwi gyfeillion o'r mammon anghyfiawn: fel, pan fo eisieu arnoch, y'ch derbyniont i'r tragywyddol bebyll. Y neb sydd ffyddlawn yn y lleiaf, sydd ffyddlawn hefyd mewn llawer; a'r neb sydd anghyfiawn yn y lleiaf, sydd anghyfiawn hefyd mewn llawer. Am hyny, oni buoch ffyddlawn yn y mammon anghyfiawn, pwy a ymddiried i chwi am y gwir olud? Ac oni buoch ffyddlawn yn yr eiddo arall, pwy a rydd i chwi yr eiddoch eich hun?"—LUC XVI. 9—12.

YR addysg a dynodd yr Arglwydd Iesu oddiwrth ddameg y goruchwyliwr anghyfiawn ydyw cynwys geiriau ein testyn. Yma defnyddir ei ymddygiad er symbylu y dysgyblion i'w efelychu yn ei gallineb. Er ei fod yn feïus, eto dangosodd fedr neillduol i wneyd y defnydd goreu o'r amgylchiadau er ei fantais ei hun. Yr oedd yn oruchwyliwr ar etifeddiaeth gŵr goludog, yr hwn a osododd ei ymddiriedaeth ynddo. Ond yn mhen amser dygwyd cwyn yn ei erbyn, ei fod yn afradloni da ei arglwydd. Galwyd arno i roddi cyfrif o'i oruchwyliaeth, a rhoddwyd rhybudd iddo nas gallasai fod mwy yn oruchwyliwr. Ar hyn cyfododd cwestiwn yn ei feddwl,—Pa beth a wnai i sicrhau bywioliaeth yn y dyfodol? Meddyliodd i ddechreu am ei henill trwy ffordd onest ac annibynol, sef trwy gloddio. Ond wedi ystyried, teimlai nad oedd hono yn ymarferol—"Cloddio nis gallaf." Meddyliodd drachefn am ei cheisio trwy ffordd arall, ond dibynol, sef trwy gardotta. Ond wedi ail feddwl, yr oedd ei falchder yn rhwystr i hyny—"A chardotta sydd gywilyddus genyf." Ac efe eto yn myfyrio pa beth a wnai, ymgynygiodd cynllun arall i'w feddwl, sef galw dyledwyr ei arglwydd ato, a thynu swm dyled

pob un i lawr, a thrwy hyny sicrhau iddo ei hun groesawiad i'w tai, wedi iddo golli yr oruchwyliaeth. "A'r arglwydd a ganmolodd y goruchwyliwr anghyfiawn am iddo wneuthur yn gall"—nid am iddo wneuthur yn dda. Arglwydd y goruchwyliwr a'i canmolodd, ac nid yr Arglwydd Iesu; ond yr olaf a ddywedodd,—"Oblegid y mae plant y byd hwn yn gallach yn eu cenhedlaeth na phlant y goleuni," hyny yw, gwnant well defnydd o'u cyfleusderau daearol er eu diogelwch presenol, nag a wna plant y goleuni o'u cyfleusderau ysbrydol er eu diogelwch tragywyddol. Egluro y pwynt hwn ydyw amcan y ddameg, ac yn ein testyn ceir addysg yr Athraw mawr oddiwrthi: "Ac yr wyf yn dywedyd i chwi, Gwnewch i chwi gyfeillion o'r mammon anghyfiawn," &c. Y gwirionedd y gelwir ein sylw ato yn ein testyn ydyw—

DEDDF DYRCHAFIAD.

Nid oes yr un ddeddf yn bwysicach fel testyn efrydiaeth na hon. YMDDIRIEDAETH yw y peth cyntaf a ganfyddwn yma—arglwydd y goruchwyliwr anghyfiawn wedi gosod meddianau dan ei ofal, a Duw wedi ymddiried gofalaeth i ninau. Yn awr, Deddf fawr dyrchafiad ydyw *ffyddlondeb i'r ymddiriedaeth a roddwyd i ni.* Ni waeth pa nifer o ragoriaethau a fydd mewn dyn, os yn ddiffygiol mewn ffyddlondeb, ni bydd yn deilwng o ymddiriedaeth, nac mewn canlyniad o ddyrchafiad. Nodwn yn

I. FOD DYN TRWY YCHYDIG O BETHAU BYCHAIN YN CAEL EI DDYSGYBLU AR GYFER LLAWER O BETHAU MAWRION.

Sefyllfa prawf ydyw ein hoes yn y byd hwn, ac y mae un cyfnod o honi yn barotoad ar gyfer cyfnod arall, a bywyd mewn un cylch yn ddysgyblaeth ar gyfer bywyd mewn cylch arall—bywyd y plentyn yn yr ysgol yn barotoad ar gyfer bywyd y bachgen mewn egwyddor-wasanaeth, a'r naill a'r llall yn ddysgybl-

aeth ar gyfer yr alwedigaeth yr ymsefydla ynddi mewn bywyd. Dyma y ddeddf hefyd yn y byd ysbrydol. Nid ydyw bywyd yn y byd hwn, ond dysgyblaeth ar gyfer bywyd mewn byd arall, a'r hyn a'n cymhwysa i gylch o ymddiriedaeth yn y byd a ddaw, ydyw ffyddlondeb i'r ymddiriedaeth a roddwyd i ni yn y byd hwn. Sylwer yn

1.—*Fod dyn yn sefyll mewn perthynas â dau ddosbarth o wrthrychau.* Gwneir i fyny y naill o ychydig bethau bychain, a'r llall o lawer o bethau mawrion, ac y mae yn deilwng o'n sylw mai trwy y naill ei dysgyblir ar gyfer y lleill. Creadur mawr ac ardderchog ydyw dyn, a phrofir hyn gan y ffaith fod holl synwyrau y corph a chyneddfau yr enaid yn alluog o ddiwylliant diderfyn ar y naill law, ac o ddirywiad tragywyddol ar y llaw arall. Ni ddyrchefir dyn byth mor uchel, na bydd yn ngallu Duw i'w ddyrchafu yn uwch, ac ni ddarostyngir byth mohono mor isel, fel na bydd yn ngallu Duw i'w ddarostwng yn îs. Nid ä dyn byth mor gyfoethog fel nad ellir ychwanegu at yr hyn fydd ganddo, ac nid ä byth mor dylawd fel nad ellir cymeryd oddiwrtho ryw beth fydd ganddo. Yn nghyfnod cyntaf bodolaeth ychydig o bethau bychain sydd wedi eu gosod o dan ofal dyn; ond trwy ddefnyddiad ffyddlon o honynt, caiff dan ei ofal lawer o bethau mawrion. Mae ffyddlondeb i ymddiriedaeth yn ychwanegu ymddiriedaeth; ac y mae pob ychwanegiad at ymddiriedaeth yn ddyrchafiad.

2.—*Fod y ddau ddosbarth o wrthrychau y saif dyn mewn perthynas â hwy yn ddibynol ar eu gilydd, ac nas gellir sicrhau y naill os esgeuluser y llall.* Fel rheol, gwneir i fyny ein bywyd o bethau bychain a chyffredin. Eithriadau ydynt y digwyddiadau mawrion a chyffrous. Edrycher ar y byd naturiol—cyd-lyniad o fân ronynau ydyw y mynydd uchel, a chyd-crynhoad o ddefnynau bychain ydyw y môr dwfn. Ar wahan i ddeddf cyd-lyniad y mymrynau ni cheid y cyfangyrph hyn o gwbl. Ysblenydd yn wir yw gogoniant goleuni y dydd, ond pwy fedr ddyweyd

o ba nifer o fân belydrau ei cyfansoddir. Bendithiol yn ddiau ydyw y gawod a ymleda dros y wlad wedi sychder hâf; ond pwy fedr gyfrif nifer y mân ddiferion a'i gwna i fyny. Pe cymerem wibdaith i Fôr y Dê a'r Tawel Fôr eang, canfyddem ynysoedd lawer a elwir "Yr Ynysoedd Cwrel" (*Coral Islands*) wedi cyfodi i fyny o'r dyfroedd dyfnion. Saif yr rhai hyn yn mhlith yr engreifftiau penaf o allu y bychan i gynyrchu y mawr. Pa gyfrif sydd i'w roddi am danynt? Ai nerth ysgwydd y ddaeargryn a'u cyfododd i fyny, fel ag y cyfodwyd yr Ynysoedd Brydeinig? Na, eu hadeiladu a gawsant. Creaduriaid bychain, a elwir llysfilod, a fu yn llafurio am filoedd o flynyddoedd i'w hadeiladu fesur ychydig ac ychydig—gorchwyl nad yw llafurwaith penaf dyn fel adeiladydd ond dinod yn ei ymyl. Ac fel na cheir y mawr heb y bychan yn y byd naturiol ni cheir ef ychwaith yn y byd moesol ac ysbrydol.

Efallai y cydsyniwn oll yn y gosodiad, mai adeiladwaith penaf dyn ydyw cymeriad. Furfio hwn ydyw neges ei fywyd ar y ddaear. Ond eglur yw, mai nid ciconia un-ddydd, na chaban un-nos mohono; ond llafurwaith cyson blynyddoedd. Gall y marsiandwr ar yr *Exchange* dan rai amgylchiadau wneyd ei *fortune* ar un *stroke;* ond ni ellir ffurfio cymeriad felly. Ar egwyddor tyfiant a chynydd y ffurfir hwn. Trwy wreiddio yn îs a thyfu yn uwch yr ymddadblyga mewn prydferthwch a pherffeithrwydd. Byw i Dduw mewn pethau bychain yn y dirgel, ydyw y llwybr i'w rodio er cael ein talu yn yr amlwg. Y rhai oll a ofalant am gario allan egwyddor yn ei manylion yn eu bywyd anghyhoedd, a anrhydeddir gan Grist ar g'oedd cynulleidfa fawr y farn, a cher bron ei Dad a'i angelion sanctaidd.

3.—*Ein bod wrth ofalu am yr ychydig, a'r lleiaf yn ogystal, ag am y llawer a'r mwyaf yn dilyn yr engreifftiau uchaf o esiamplau sydd yn bod.* Mae yn nhrefn natur ddarpariaeth i ofalu am y lleiaf yn ogystal ag am y mwyaf—am y gwlithyn fel am y

cefnfôr, ac am y glaswelltyn tyner ac egwan yn ogystal ag am y gedrwydden gadarn a thalgryf. A dyma hefyd a wna y cymeriadau goreu. Ac o'r ffaith hon cyfyd cymelliad i ninau hefyd i wneyd, ac ynddi cawn gynllun o'r modd i weithredu. Yn Nuw, yn Nghrist, yn yr angelion, ac yn nynion perffeithiaf y ddynoliaeth, cawn esiamplau di-rif o ofal am y lleiaf yn ogystal ag am y mwyaf.

Dyma y ddeddf a nodwedda waith Duw yn mhob man. Gofala efe am yr aderyn bach a chwery gerllaw gofer lân y ffynnon loyw, yn ogystal ag am yr angel mawr a ymddifyra yn sibrydion ffrydiau pur afon y bywyd. Tra y gofala am y Cerub adeiniog a weinydda gerbron ei orsedd, gofala hefyd am y gloyn byw amryliw a ferchyg yr awelon, gan ei ddi-sychedu a melyswin y blodau. Yr hwn a ŷr y ffynnonau i'r dyffrynoedd i ddiodi holl anifeiliaid y maes a'r bwystfilod gwylltion, a enfyn hefyd ei aneirif lu o fân-wlith y nef i ddisychedu yr egin grawn a'r llysiau gwyw, i'w gwneyd yn dirfion ac iraidd i gyfarfod â gwres diwrnod arall. Fel ag y pâr i afon y bywyd darddu o dan orsedd y nef, ac i ymddolenu mewn prydferthwch tawel ar hyd ei dyffrynoedd teg; felly hefyd y pâr i'r ffynnon risialaidd darddu dan aêl y bryn, i'w dyfroedd fod at wasanaeth y wraig dlawd sy'n byw yn y bwthyn llwyd gerllaw. Ai onid yw gwallt ein penau ni yn gyfrifedig, gan yr Hwn sydd yn rhifo rhifedi y ser? Efe a daena'r nefoedd fel llen, ac a'i lledai fel pabell i drigo ynddi, ac Efe hefyd a babella gyd â dyn ar y ddaear. Preswylia Dragywyddoldeb, y Goruchelder, a'r Cysegr, a chyd â'r truan a'r cystuddiedig o ysbryd. Er ei fod yn gweithio ar raddfa anfeidroldeb, eto ymddisgleiria yn mhelydrau yr haul, anadla yn awelon y gwynt, a rodia ar frigau'r tònau, i weinyddu cymwynasau fychain a mawrion. Mae Efe mor ofalus am y trychfilyn bychan a chwareua ymaith ei oes tèr ar finion diddymdra, ag am y seraph mawr ac ardderchog sydd yn cymeryd rhan mor bwysig yn nghariad allan y planiau dwyfol. Yr hwn sydd yn addurno y nefoedd,

sydd hefyd yn prydferthu y lili. Mae ei ofal mor gyffredinol, fel nad oes greadur anamlwg yn ei olwg ef. Nid yw ein llygaid ni yn ddigon craff i weled ond ychydig o greaduriaid Duw; ond Efe a'u gwel oll. Ac y mae yn rhaid cael y bychan yn ogystal a'r mawr i ddatguddio ei ogoniant, oblegid y mae yn perthyn iddo ef y prydferth yn ogystal a'r arddunol.

Dyma a welwn hefyd yn mywyd yr Iesu—gofal am y bychan yn ogystal ag am y mawr. Yr oedd ei fywyd Ef yn llawnach o fanylion cyffredin nag o ddigwyddiadau mawrion ac arbenig. Bu am ddeng mlynedd a'r hugain yn ffurfio cymeriad dan ddylanwad egwyddorion cymeriad ei Dad, yn nghanol golygfeydd gwerinol Nazareth, tra na bu tymor ei weithredoedd nerthol ond ychydig gyd â thair blynedd. Ond yn ystod tymor ei weinidogaeth gyhoeddus, talodd sylw i'r bychan yn ogystal ag i'r mawr. Pregethodd mor effeithiol i Nicodemus yn nhawelwch y nos ac i'r wraig o Samaria gerllaw ffynnon Jacob, ag a wnaeth i'r torfeydd o filoedd a ymdyrent i wrandaw arno. Talai sylw i blant bychain yn ogystal ag i urddasolion cymdeithas. Ni ddiangodd y lili wyl ei sylw Ef mwy na'r haul hyf. Pan ar Galfaria yn rhoddi ei enaid yn aberth dros bechod a'i hunan yn Iawn dros feiau'r byd, talodd sylw i weddi y pechadur edifeiriol, ac addawodd iddo,—"Heddyw y byddi gyda mi yn Mharadwys." Nid esgeulusodd Ef erioed y pethau bychain, ac ni wna byth. Gofala am i'r hwn a rydd gwpanaid o ddwfr oer i ddysgybl, yn enw dysgybl, i gael ei wobrwyo.

Ceisia rhai fyned i fyny ar hyd llwybr llwgr-wobrwyaeth fel y goruchwyliwr anghyfiawn, ond nis gellir esgyn i fryniau y byd ysbrydol ar hyd y llwybr hwn. Ceisia eraill fyned i fyny trwy bleidgeisio, ond nid yw hwn ychwaith yn llwybr anrhydeddus, a chondemniwyd ef yn derfynol gan Iesu Grist ei hun. Aeth Ioan ac Iago at yr Iesu i'w bleidgeisio, a chawsant gynorthwy eu mham i wneyd y gwaith. Dymunent y lleoedd goreu yn ei deyrnas, a gofynent am danynt fel *ffafr*. Ond nid oes neb i fyned i fyny trwy *ffafr* yn y

byd ysbrydol—"Eithr eistedd ar fy llaw ddehau ac ar fy llaw aswy, nid eiddo fi ei roddi; ond i'r sawl y darparwyd gan fy Nhad" (Matt. xx. 23). Y rhai sydd deilwng a ddyrchefir gan y Tad. Y rhai a fuont ffyddlawn ar ychydig, a osoda Ete ar lawer. Ffyddlondeb i ymddiriedaeth yw deddf fawr a diogel gwir ddyrchafiad Os ydym am fyned i fyny, gofalwn ddysgyblu ein hunain mewn ffyddlondeb.

II. FOD YR HWN A DDEIL BRAWF Y DDYSGYBLAETH YN Y LLEIAF YN DEILWNG O YMDDIRIEDAETH FWY, AC YN SICR O GAEL EI DDYRCHAFU IDDI. "Yr hwn sydd ffyddlawn yn y lleiaf, sydd ffyddlawn hefyd mewn llawer."

Dysgir yn eglur yn adnod gyntaf ein testyn, fod iawn ddefnydd o feddianau daearol i gael ei wobrwyo yn y byd a ddaw. Er mai dibwys ydyw golud o'i gymharu â chymeriad, eto y mae yn dalent werthfawr, ac yn fantais i'r dyn da i ennill dylanwad mwy er daioni. Felly, ddarllenydd, gwna dy oreu yn mhob modd cyfreithlawn, i ennill cyfoeth, ond gochel rhag iddo fyned â'th fryd. Yr ydym o'r ychydig gynilwn o'r hyn a ennillwn i gyfranu er hyrwyddo daioni uchaf dynoliaeth, trwy leddfu dioddefiadau a symud trueni. Mae y dyn bydol yn caru cyfoeth, ac am hyny yn elyn i Dduw. "Oni wyddoch chwi fod cyfeillach y byd yn elyniaeth i Dduw? pwy bynag, gan hyny, a ewyllysio fod yn gyfaill i'r byd, y mae yn elyn i Dduw" (Iago iv. 4). Goruchwylwyr ydym ni ar gyfoeth, ac os na ddefnyddiwn ef i amcan yr oruchwyliaeth a ymddiriedwyd i ni, bydd y canlyniadau yn ddifrifol yn y farn a ddaw. "Eich cyfoeth a bydrodd, a'ch gwisgoedd a fwyttawyd gan bryfaid. Eich aur a'ch arian a rydodd; a'u rhwd hwynt a fydd yn dystiolaeth yn eich erbyn chwi, ac a fwytty eich cnawd chwi fel tân. Chwi a gasglasoch drysor yn y dyddiau diweddaf" (Iago v. 2, 3).

Felly, y modd i iawn-ddefnyddio golud ydyw ei droi yn foddion i wneyd cyfeillion trwyddo. "Gwnewch i chwi gyfeillion o'r (neu trwy y)

mammon anghyfiawn." Yr hwn a chwiliodd allan y gŵyn ni wyddai, a ddefnyddiodd ei feddianau mewn elusenau, a gyfranodd i gynal achos Duw yn y byd er dyrchafu dynoliaeth, a gaiff gyfeillion lawer. Caiff le yn serch y rhai a gynorthwyodd, a bendith y rhai ar ddarfod am danynt a ddaw arno. Caiff angelion, a Christ, a Duw yn gyfeillion, ac ymunant oll i'w groesawu mewn llawenydd i'r tragywyddol bebyll—i'r nefoedd.

Yn ein sylwadau dan y pen o'r blaen dangoswyd fod dyn trwy y lleiaf yn cael ei ddysgyblu ar gyfer y mwyaf. Ond yn awr ceisiwn ddangos fod y sawl a ddaliant brawf y ddysgyblaeth yn deilwng i gael eu dyrchafu o ymddiriedaeth îs i ymddiriedaeth uwch.

Cymer ein testyn i fewn ddau fyd, sef byd y mammon anghyfiawn, a byd y tragywyddol bebyll, a gwelwn fod deddf dyrchafiad yr un yn y ddau. Mae un yn fyd y *pethau bychain*, a'r llall yn fyd y *pethau mawrion;* un yn fyd y *golud twyllodrus*, a'r llall yn fyd y *gwir olud;* un yn fyd y *pethau benthyg*, a'r llall yn fyd y *meddianau personol.* Felly, canfyddwn yn y gyferbyniaeth rhwng pethau y ddau fyd wahaniaeth hynod o darawgar. Pethau y byd hwn yn fychain, ansicr, ac oll yn bethau benthyg. Ond am bethau y byd a ddaw, maent yn fawrion, sylweddol, ac yn feddianau personol. Yn rhinwedd yr un ddeddf yr ymddiriedir pethau y ddau fyd i ni, a ffyddlondeb yw y cymhwyster mawr i'r ymddiriedaeth.

1.—*Fod y sawl a brofant eu hunain yn ffyddlawn mewn ychydig o bethau bychain yn y byd hwn, i gael eu dyrchafu i ofalaeth am lawer o bethau mawrion yn y byd a ddaw.* Mewn un ystyr, byd y pethau bychain ydyw hwn. Yr hyn a esyd bwysigrwydd arnynt ydyw eu perthynas â phethau mawrion tragywyddoldeb. Meddylier am yr hyn sydd genym, nid ydynt ond pethau bychain iawn. Ac eto y maent mor fawr, fel nas gallwn ni wneyd defnydd o bethau mwy yn bresenol. Amser, awyr, dillad, ymborth, golud, cyfleusterau, &c. —dyma rai o bethau y byd hwn. Nid ydynt ond

megys diddim o'u cymharu â dyheuadau yr enaid. Nis gallant ein boddloni. Ac er nad ydynt ond bychain yn eu cyfanswm, eto rhaid eu tori yn ddarnau mân i ni allu eu defnyddio. Wrth yr eiliad y rhoddir amser i ni, wrth yr anadliad y cawn yr awyr, bob yn damaid y cawn ein hymborth, bob yn ddilledyn y cawn ein gwisgoedd, a phob yn ychydig y cawn olud. Ond er eu bod yn ychydig ac yn fychain, rhoddir hwy i ni i'w defnyddio, ac os byddwn yn ffyddlon i'r ymddiriedaeth ohonynt, cawn ein dyrchafu i ymddiriedaeth fwy—cawn lawer o dan ein gofal.

Yr ydym ni yn perthyn i fyd yr ysbrydoedd, a draw yn ardaloedd pell hwnw mae ein trigfan dragywyddol. Byd ofnadwy ddieithr i ni ydyw yr hyn sydd o'r tu draw i'r llen. Mae ei holl bethau yn fawrion, ac hefyd yn aneirif. Lleinw y syniad am dano ein henaid yn aml a dychrynfeydd, ac eto nis gallwn ymatal rhag crwydro mewn dychymyg ar ddolydd a dyffrynoedd ei gyfandiroedd eang a diderfyn. Ond er mor ddieithr ac ofnadwy yw, eto, y mae y ddeddf i ddyrchafiad ac anrhydedd ynddo wedi ei ddatguddio i ni yn y byd hwn—"Buost ffyddlawn ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer." Yn lle cael punt i ofalu am dani, cael gofal dinas.

2.—*Fod y sawl a brofasant eu hunain yn ffyddlon yn ngweinyddiad golud diflanol i gael eu dyrchafu i feddiant o olud ysbrydol.* "Am hyny, oni buoch ffyddlawn yn y mammon anghyfiawn, pwy a ymddiried i chwi am y gwir olud?" Ond y mae ochr arall—Am hyny, os buoch ffyddlawn yn y mammon anghyfiawn, fe ymddiriedir i chwi am y gwir olud. Wrth y *mammon anghyfiawn* y golygir, *golud daearol.* Nid ydyw yn anghyfiawn ynddo ei hun, oblegid yn nameg y punoedd a'r talentau fe ddysgir ei fod yn rhodd Duw. Y rheswm dros ei alw yn *fammon anghyfiawn* yw, fod cymaint o ddefnyddio moddion anghyfiawn i'w gasglu, yn ogystal a'r defnydd anghyfiawn a wneir o hono. Yn awr, pan mae Duw yn ein gosod ni yn oruchwylwyr ar dda y byd hwn, ein dyledswydd yw gweinyddu

yr oruchwyliaeth yn ofalus. Nid yw golud bydol, er yr holl bris a roddir arno, ond diflanol. Nis gellir dibynu arno oblegid anwadal yw, ac yn aml lleda ei edyn ac eheda ymaith. Ond os na byddwn ni yn ffyddlon yn hwn, ar ba dir y disgwyliwn gael y gwir olud? Y dyn a waria ei arian gydag oferwyr, ac a wasgar ei dda gan fyw yn afradlon, nid ymddiriedir iddo byth hattling o'r gwir olud. Cymerir yr oruchwyliaeth oddiarno, ac nis gall byth mwyach fod yn oruchwyliwr. Troseddodd ddeddf fawr ymddiriedaeth, ac ni faddeuir iddo yn y byd hwn nac yn y byd a ddaw. Ond caiff y ffyddlawn ei ddyrchafu, ac ymddiriedir y gwir olud i'w ofal. Ymadrodd prydferth yw hwn—*gwir olud*—"golud gwell yn y nefoedd, ac un parhaus." Golud ysbrydol ydyw, a'i drysorau yn sylweddau digyfnewid. Cynwysa etifeddiaeth, a hono yn un anllygredig, dihalogedig, a diddiflanedig; a choron gogoniant. Bydd yr holl feddianau ysbrydol a ymddirieda Duw i'w weision ffyddlawn yn *wir olud.*

3.—*Fod y sawl a brofasant eu hunain yn ffyddlon yn yr eiddo arall, i gael eu dyrchafu i ymddiriedaeth o feddianau personol.* "Ac oni buoch ffyddlawn yn yr eiddo arall, pwy a rŷdd i chwi yr eiddoch eich hun?" Nid yw yr oll sydd genym yn y byd hwn ond eiddo benthyg—eiddo arall yw y cwbl. Bywyd benthyg, iechyd benthyg—benthyg rhieni, anwyliaid, a chyfeillion a gawsom; a gelwir arnom ryw ddydd i'w dychwelyd yn ol i gyd, ac os byddwn wedi ymddwyn yn anheilwng o'r ymddiriedaeth, cospir ni fel goruchwylwyr anghyfiawn. Ond os defnyddiwn y benthyg yn onest, cawn dan ein gofal yn y man olud fydd yn eiddo i ni ein hunain. Dyma y ddeddf yn y byd ysbrydol yn ogystal ag yn y byd naturiol. Y dyn ieuanc sydd yn ffyddlawn i eiddo y *Firm*, a roddwyd dan ei ofal, a ddyrchefir rhyw ddydd i fod yn *bartner* ynddi. Talodd Joseph ufudd-dod i'r ddeddf, a dyrchafwyd ef o'r carchar i fod yn Llywydd ar wlad yr Aipht. Parchodd Dafydd ddeddf ymddiriedaeth pan yn fugail ar ddefaid ei dad, a dyrchafwyd ef i orseddfainc Israel. Ond

rhywbeth mwy sydd yn aros y ffyddlawn—meddianau iddo ei hun yn myd y "tragywyddol bebyll." Pa ffurfiau fydd ar gylchoedd gwasanaeth yn y nef, nis gwyddom; ond gwyddom mai y cymhwyster iddynt, ydyw ffyddlondeb i'r hyn a ymddiriedir i ni. Ond bod yn ffyddlon, cawn deyrnas i ni ein hunain, ac y mae cael teyrnas yn cynwys cael pob peth arall. Dyna a ddywed Crist wrth yr holl oruchwylwyr ffyddlon yn y dydd diweddaf,—"Meddienwch y deyrnas."

Flynyddoedd yn ol, mewn tref fawr yn Lloegr, yr oedd un o'r *newsboys* bychain yn rhedeg i lawr yr heol gan lefain, *Evening News*. Yr ochr arall i'r heol yr oedd *merchant* ar ei ffordd adref. Gwnaeth arwydd ar y *newsboy* i ddyfod ato, a daeth ar unwaith. Estynodd i'r boneddwr y newyddiadur, ac estynodd yntau iddo geiniog i dalu am dano. Ond nid oedd gan y bachgen newid, a dywedodd, "Os arhoswch eiliad syr, mi redaf i chwilio am newid." "Na," ebe'r boneddwr, "fe fyddaf fi yn dyfod y ffordd yma eto fory neu drenydd, cewch roddi y newid i mi y pryd hwnw." Dranoeth a ddaeth, a phan wedi cyrhaedd i'r lle yr oedd y dydd o'r blaen, dyma yn *newsboy* bychan yn ei gyfarfod, ac yn dywedyd wrtho, "Dyma'r newid, Syr." Synodd y boneddwr. Nid oedd wedi disgwyl gweled ei newid byth. "Cedwch y newid, fy machgen," meddai, "a dyma i chwi chwe'cheiniog am fod yn fachgen bach gonest." Ar hyn gwelai y deigryn yn nghornel llygad y bachgen, a gofynodd iddo, "A fuasech chwi yn hoffi dyfod yn *office boy* ataf fi?" "Mae yn ymddibynu, Syr, pa faint o gyflog a ro'wch," ebe'r bachgen. "Cyfarfyddwch fi yn yr *office* bore fory am naw o'r gloch, ac fe gawn weled a allwn gytuno," ebe'r boneddwr. Bore dranoeth a ddaeth, ac yr oedd y bachgen yn yr *office* yn brydlon. Gofynodd y boneddwr iddo, faint o gyflog oedd arno eisieu. "Wel," meddai, "rhaid i mi gael o leiaf pum' swllt yn yr wythnos." "Pa'm, pum' swllt?" gofynai y marsiandwr. "O," meddai'r bachgen, "dwy flynedd yn ol bu farw fy nhad, a phythefnos yn ol bu farw fy

mam, a'r peth olaf a ofynodd i mi cyn marw oedd, a fuaswn i yn gofalu am fy chwaer fach tair blwydd oed, ac fe addewais y gwnawn, ac y mae pum' swllt ar eu goreu yn ein cadw ein dau, Syr. A dywedodd fy mam y byddai bendith Duw yn sicr o fy nilyn os gwnawn yn ol ei chais." "O," ebe'r boneddwr, "fe roddaf i chwi ddeg swllt yn yr wythnos, ac fe ofalaf am eich chwaer fach hefyd." "Diolch i chwi, Syr, ebe'r bachgen; "yr wyf fi at eich gwasanaeth pan fynwch." Cymerwyd ef i'r *office*, a buan y profodd ei fod yn deilwng o bob ymddiried, ac erbyn hyn mae wedi ei ddyrchafu yn uchel yn y *Firm*, ac ar y ffordd i ddyfod yn *partner* ynddi. Paham ei dyrchafwyd? Gofalu am y ddimeu a wnaeth. Bu yn ffyddlon ar ychydig, ac yna cafodd ei osod ar lawer. Gwnawn ninau yr un modd.

Cofiwn, na chadwa Duw yr un o honom mewn cylch îs o wasanaeth, pan ddeuwn i feddiant o gymhwyster ar gyfer cylch uwch. Nid anghofia efe ein gwaith a'n llafurus gariad, yr hwn a ddangosasom tuag at ei enw Ef; ond gwobrwya ni yn sicr ac yn gyflawn. Os am ymuno yn addoliad cymanfa a chynulleidfa y rhai cyntaf-anedig yn y byd ysbrydol, byddwn ffyddlawn i'r moddion crefyddol sydd yn awr yn ein cyrhaedd. Gwyr glewion, grymusach na chedyrn Dafydd ydynt y sawl a gymerant fantais ar ychydig bethau bychain, diflanol a benthycol, i'w troi yn gyfryngau i wneyd cyfeillion o honynt, y rhai a agorant iddynt byrth y byd ysbrydol, ac a'u harweiniant i mewn i'r tragywyddol bebyll. Cofiwn mai yr hwn sydd ffyddlawn ar ychydig, gaiff ei osod ar lawer. Hon ydyw deddf fawr dyrchafiad yn mhob *department* a berthyn i lywodraeth fawr Duw. Pan eilw yr Arglwydd arnom i roddi cyfrif o'n goruchwyliaeth, caffer pob un ohonom yn was da a ffyddlawn, fel y trefnir i ni helaeth fynedfa i mewn i'w lawenydd pur a didranc.

II.

Cyfaddasder Duwioldeb i Sylweddoli ei Hamcan.

"Ymarfer dy hun i Dduwioldeb."—Yr Apostol Paul.

Pan oeddwn flin,
A'm calon friw heb neb i'w thrin;
Mewn gofid mawr
Yn holi am oleuni 'r wawr;
Ond t'w'llwch du,
Fantellai dros fy enaid cu.

Doethineb byd;
Pa le y deuaf fi o hyd,
I'r llwybrau cudd
Sy'n arwain i oleuni dydd?
Nis gwn pa le,
Nid wyf yn Athraw Teymas Ne.'

Cyfoeth bydol;
Trwydded rho i'r gwynfyd bythol:
Agor y clo,
A gollwng fi i'r hyfryd fro:
Ni feddaf fi,
Allweddau y trigfanau fry.

Duwioldeb ddaeth
Fel angel gwŷn dros dywyll draeth:
O allu pur,
A fedri di ddim gwella 'm cur:
A'm hadfer 'nawr
O waeau fy nhrueni mawr?

Ymarfer fi,
A bywyd draidd fy enaid cu—
Y bywyd sydd,
A'r bywyd hwnw byth a fydd;
Y ddau yn un
Gaiff pawb a gred yn Mab y Dyn.

T. J. H.

Cyfaddasder Duwioldeb i Sylweddoli ei Hamcan.

"Eithr gâd heibio halogedig a gwrachïaidd chwedlau, ac ymarfer dy hun i dduwioldeb. Canys i ychydig y mae ymarfer corphorol yn fuddiol: eithr duwioldeb sydd fuddiol i bob peth, a chanddi addewid o'r bywyd y sydd yr awrhon, ac o'r hwn a fydd."—1 Tim. iv. 7, 8.

YSGRIFENODD yr Apostol Paul yr Epistol hwn at Timotheus, i'w gyfarwyddo yn nghyflawniad ei waith fel gweinidog yr Efengyl. Rhŷdd bwys neillduol ar iddo fod yn fanwl mewn dysgyblaeth, yn ofalus yn y fugeiliaeth, ac yn uniongred yn y gair a'r athrawiaeth. Cyngorai ef i ymgyfaddasu yn mhob modd ar gyfer ei waith, fel y gallai ei gyflawni yn effeithiol. Anogai ef i ddarllen ac i fyfyrio, ond uwchlaw pob peth i ymwneyd yn gyson â moddion meithriniad y bywyd ysbrydol.

Yr oedd yn Ephesus ar y pryd, ac hefyd yn Eglwysi eraill Asia, ddosbarth o ddynion a gymerent safle fel athrawon crefyddol. Efallai nad oedd iddynt enw fel plaid y pryd hwnw, ond yn ddiweddarach adwaenid hwy fel Sect yr Esseniaid. Nis gallwn ddarllen yr Epistol hwn heb ganfod yn eglur fod heresi mewn ffurf neillduol wedi ymddangos ac yn ffynu yn yr Eglwysi. Rhŷdd yr Apostol y gweinidog ieuanc ar ei wyliadwriaeth rhag y cyfryw, a chyfarwydda ef i ymwneyd â moddion a safai yn wrthgyferbyniol i'r hwn a gymellid gan y gau-athrawon, fel gweithredydd yn ngwir ddyrchafiad dyn yn ngrasusau a rhinweddau y bywyd dwyfol. Yr oedd y gau-athrawon eisoes yn

gweithio, a'r Ysbryd Glân yn rhagfynegu yn eglur, y dylanwadai eu dysgeidiaeth ar rai o'r Cristionogion, er eu hudo i ymadael âg athrawiaeth y Ffydd Apostolaidd, mewn amseroedd diweddarach, gan roddi coel i ysbrydion cyfeiliornus, sef i nerthoedd ac egwyddorion anwiredd, trwy y rhai y gweithiai Satan yn nghalonau y rhai a hudid gan y gau-athrawon. Gwaharddent ddynion i gyfranogi o'r hyn oedd yn ddarpariaeth ddwyfol ar eu cyfer, fel moddion meithriniad ysbrydol. Yr oedd eu hathrawiaeth yn gythreulig, eu hegwyddorion yn gyfeiliornus, a'u holl ddysgeidiaeth yn rhagrith, ac felly dysgent yn groes i'w cydwybod. Anogai yr Apostol, Timotheus i ddinoethi eu dysgeidiaeth, trwy ddangos fod eu hathrawiaethau yn achos dirywiad ysbrydol, ac nid yn foddion adferiad a dyrchafiad. "Os gosodi y pethau hyn o flaen y brodyr, ti a fyddi weinidog da i Iesu Grist, wedi dy fagu yn ngeiriau y ffydd ac athrawiaeth dda, yr hon a ddilynaist" (ad. 6). "Eithr gâd heibio halogedig a gwrachïaidd chwedlau," &c. Y gwirionedd ymdrechwn ei egluro ydyw—

CYFADDASDER DUWIOLDEB I SYLWEDDOLI EI HAMCAN.

Ein cwestiwn cyntaf ydyw—Beth yw amcan duwioldeb? Ei hamcan mawr yw adfer natur ddirywiedig dyn, a chyflenwi ei hangenion a'i dyheuadau. Cyfarfyddwn weithiau â dynion o amcanion mawrion, ond nis gallant byth eu sylweddoli am eu bod ar un llaw yn amddifad o athrylith dyfais, ac ar y llaw arall o adnoddau cyfoeth. Heb athrylith dyfais ac adnoddau golud nis gall neb sylweddoli amcan mawr. Daeth cael pont dros y Fenai yn amcan meddwl llawer o ddynion, ond nid oedd medr dyfais yn gyfartal i'r amcan yn yr un ohonynt, hyd nes y daeth yn amcan meddwl Telford. Yr oedd medr ei ddyfais ef yn ddigon mawr i sylweddoli yr amcan, ond iddo gael adnoddau digonol i gario allan ei gynlluniau. Yr oedd digon o adnoddau yn meddiant y Llywodraeth. Ac felly pan ddygwyd medr dyfais Telford ac

adnoddau cyfoeth Llywodraeth y wlad at ei gilydd, sylweddolwyd yr amcan o gael pont dros y Fenai. Yn awr, i sylweddoli yr amcan mawr o adfer a chyflenwi anghenion a dyheuadau dynoliaeth, rhaid cael medr dyfais ac adnoddau cyfoeth wedi cyd-gyfarfod yn un gallu mawr. Sylweddoliad o hyn ydyw duwioldeb. O ran medr dyfais mae yn gyfartal i holl anhawsterau adferiad y ddynoliaeth, oblegid y mae yn fuddiol i bob peth, ac o ran adnoddau y mae yn gyfartal i'r holl ofynion trymion. Mae yn *medru* pob peth, ac yn *feddianol* ar bob peth. Ac am ei bod yn fuddiol i bob peth, medr ddadblygu holl alluoedd y natur ddynol i bwynt uchaf adferiad; ac am ei bod yn feddianol ar bob peth, medr gyfarfod â holl anghenion a dyheuadau y natur ddynol â holl gyflawnder Duw. Yn

I. CYFADDASDER DUWIOLDEB AR GYFRIF MEDR I SYLWEDDOLI EI HAMCAN. "Eithr duwioldeb sydd fuddiol i bob peth."

Cyn y gall fod yn fuddiol i bob peth, rhaid ei bod yn gyfaddas i bob peth; oblegid ar ei chyfaddasder y dibyna ei buddioldeb. Cynwysa ein testyn rai ymadroddion, y dylem feddu syniadau lled glir am eu hystyr mewn trefn i'w deall. Yn gyntaf oll, dyma yr ymadrodd *pob peth*—"duwioldeb sydd fuddiol i *bob peth*." Nid ydym i olygu *pob peth* a berthyn i bob cylchfyd o weithrediadau. Cylchfyd ei gweithrediad hi, mor bellag y mae dyn syrthiedig yn y cwestiwn, ydyw ei adferiad i'w safle a'i berthynasau priodol yn nghreadigaeth anianyddol, foesol, ac ysbrydol Duw. Cyfyngir yr ymadrodd *pob peth* i'r cylch hwn—medda duwioldeb gyfaddaster i gyflawni *pob peth* er adfer dyn o ddyfnder ei ddirywiad, i'w buro o aflendid ei bechod, ei ddadblygu yn llawn, a'i gyflenwi â holl adnoddau gwynfyd a mwynhad.

Ymadrodd arall yn ein testyn yw, *ymarfer*. Gair yr Apostol ydyw *Gumnasia*, ac o hwn y tardda y gair *Gymnasium*. Nid yw *ymarfer* y Gymraeg nac *exercise* y Saesoneg yn ddigon cryf i osod allan ei feddwl.

Golyga ddysgybliaeth rag-barotoawl er cyfaddasu dyn i fyned trwy brawf y gorchest-gampau yn llwyddianus a buddugol. Gwelir fod yr Apostol yma yn defnyddio y gair mewn dau gysylltiad gwahanol, sef ymarfer *corphorol* ac ymarfer *crefyddol*. Nis gall dyn byth ragori yn ngorchest-gyflawniadau y naill na'r llall heb ymarfer.

1. *Cymerir yn ganiataol yn ein testyn fod yn natur dyn ddichoniadau* (POSSIBILITIES) *mawrion*. Mae y cymelliad i ymarfer yn seiliedig ar y syniad o ddichoniadau. Heb hyn ni buasai synwyr iddo, na rheswm drosto. Ond y ffaith yw fod yn natur dyn ddichoniadau mawrion a gogoneddus, a chwestiwn yr oesoedd yw, pa fodd y gellir tyny allan y cyfryw, a'u harddangos mewn bywyd a chymeriad fydd yn ddadblygiad perffaith o'r holl alluoedd yn eu llawn faint—goreu pob gallu wedi ei ddwyn i'r goleuni. Dyma y gwaith sydd eisiau ei wneyd ynom ni—ein hadfer, a thrwy hyny cael ein gosod ar y ffordd i holl ddichoniadau ein natur gael eu sylweddoli yn eu holl ogoniant, "fel y byddo dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio i bob gweithred dda."

2. *Moddion adferiad y natur ddynol a sylweddoliad ei dichoniadau*. "Ymarfer dy hun i dduwioldeb."

Mae daioni ein natur i ddyfod i'r golwg trwy ddadblygiad graddol, ac nis gellir ymddadblygu ond trwy ymarfer. Un o'r nerthoedd cryfaf a berthyn i ddadblygiad ydyw ymarferiad. Dyma ei ddeddf sefydlog yn mhob tiriogaeth yn y byd anianyddol ac ysbrydol. Edrycher ar y dderwen urddasol, brenhines y coedwigoedd. Pa fodd y dadblyga hon? Trwy i'r awelon a'r gwyntoedd ddyfod heibio, a chyffwrdd y *springs* sydd yn ei changenau nes peri iddynt godi ac ymgrymu, i guro yr amser i gôr y tymhestloedd i ganu ei awelon cwynfanus. A thrwy yr ymarferiad hwn, fe leda ei gwraidd eu gwelyau yn y dyfnder i gael lle i dyfu, a bwriant eu rheffynau meinion am nerthoedd y graig, a thrwy yr ymarferiad hwn dadblyga yn y goreu a berthyn iddi. Felly, hefyd, gyda'r plentyn—ni ddaw ef byth

yn gerddwr nac yn rhedwr os erys yn ddiymadferth. Rhaid iddo gael hyd i *centre* deddf disgyrchiant, onide hi a'i codyma yn barhaus, a'r unig ffordd i gael hyd i'w *centre* ydyw trwy ymarfer. Felly gyda golwg ar y bywyd ysbrydol—trwy ymarfer y dadblygir y dichoniadau a berthyn i hwn, ac y gwelir pob cyneddf foesol ac ysbrydol a berthyn i'n natur yn dyfod i'r golwg yn eu goreu a'u gogoniant penaf.

Yr oedd y byd yn ddigon dysgedig i ganfod nad yw dyn yr hyn a all ac a ddylai fod; ac hefyd ei fod yn greadur â rhyw ddichoniadau rhyfedd yn perthyn iddo. Ac yn yr ystyriaeth o hyn bu meddyliau mwyaf yr oesau mewn ymchwil aflonydd am foddion i'w ddwyn allan yn ei holl fawreddau. Dyma y ffynnon o'r hon y tarddodd yr holl ddamcaniaethau athronyddol a'r cyfundrefnau crefyddol a gynygir gan ddysgawdwyr fel moddion adferiad dynoliaeth. Cyfeiria yr Apostol yn y testyn at yr hyn a gymellid gan y gau-athrawon fel moddion adferiad.

1. *Moddion y chwedlau halogedig a gwrachïaidd.* "Eithr gâd heibio halogedig a gwrachïaidd chwedlau." Cyflwynai y gau-athrawon gyfundrefn o ddysgeidiaeth i sylw y byd gyd â golwg ar y moddion i'w godi a'i adfer, ond dywed yr Apostol nad oedd y gyfryw ddim amgen na chwedlau. Ond nid yw bosibl adfer dyn heb iddo gael Gwirionedd yn graig ei ymddiriedaeth. Rhaid iddo gael sylfaen safadwy i adeiladu arni fywyd a chymeriad. Ond ni feddai y gau-athrawon ddim â sicrwydd yn perthyn iddynt, oblegid chwedlau oedd eu dysgeidiaeth.

a. *Chwedlau halogedig.* Y chwedlau hyn oedd eu dysgeidiaeth am Dduw, am y greadigaeth, ac am fodolaeth drwg. Nid oedd eu holl ddysgeidiaeth am berthynas Duw â'r greadigaeth ond rhyw fath o gywreinrwydd damcaniaethol o gynyrchiad dychymyg gyfriniol. Dysgent fod drwg yn bodoli o angenrheidrwydd tragywyddol mewn *mater*, ac felly nid ystyrient ddrwg yn bechod, oblegid nis gall yr hyn a fodola o angenrheidrwydd fod yn bechod.

b. *Chwedlau gwrachïaidd.* Cyfeiria y "chwedlau halogedig" at yr hyn a ddysgai y gau-athrawon fel athrawiaethau i'w credu a'u derbyn; a'r "chwedlau gwrachïaidd" at y defodau Iuddewig a Phaganaidd cyd-ymgymysgedig a gymellent i'w harfer yn nefosiynau eu haddoliad. Nid oedd yr oll ond ofergoelion gwag, a phethau i'w diystyru fel chwedlau gwrachïaidd, sef chwedlau hen wrachïod ofergoelus, parod i gredu pob peth. Terfynai eu holl ddysgeidiaeth mewn ansicrwydd athronyddol a chrefyddol, ac, o ganlyniad, yr oedd eu hathrawiaethau i'w gwrthod a'u gadael heibio yn gyfangwbl.

Yr ydym ninau yn byw mewn oes y ceisir arfer dyn trwy ddamcaniaethau athronyddol a defodau crefyddol. Ond rhwystrau ac nid cynorthwyon i'r gwaith ydyw y naill a'r llall. Pa gynorthwy sydd mewn ymdumiau, a gwisgoedd, a chanwyllau, i wneyd gwaith ysbrydol ar enaid dyn? Pa angen am wisgoedd clerigol i bregethu yr Efengyl ac i fugeilio y saint? Yn ngwisgoedd y werin y pregethodd Crist a'i Apostolion. Pa raid wrth ganwyllau yn awr, a Christ yn oleuni y byd? Pa eisiau ystumiau wrth addoli, a Christ yn dysgu mai mewn ysbryd a gwirionedd y mae yn rhaid gwneyd? Halogedig a gwrachïaidd chwedlau ydyw y cwbl. Nid oes ynddynt ddim cyfaddasder i ateb y dyben a broffesant, ac felly pethau i'w gadael heibio ydynt.

2. *Moddion yr ymarferiad corphorol.* "Canys i ychydig y mae ymarfer corphorol yn fuddiol." Argymellai y gau-athrawon ympryd, sef ymataliad oddiwrth fwydydd fel moddion meithriniad crefydd. Ond nid at unrhyw oruchwyliaeth ymprydiol a phenidiol y cyfeiria yr Apostol, eithr yn hytrach at ddysgyblaeth ragbarotoawl y corph ar gyfer gorchestgampau y chwareuon cenedlaethol. Cydnebydd gyfaddaster yr ymarferiad hwn i gyrhaedd ychydig ddibenion. Gall yr ymarferiad ar gyfer campauchwareuon yr oes fod yn gyfaddas i effeithio rhyw ddyrchafiad cyfreithlawn. Yn wir, o'u hiawn-arfer,

gall y chwareuon fod o fantis i nerth ac iechyd, ac yn neillduol i ddysgyblu dynion ieuainc uchel-geisiol a hunanol i ddioddef gorchfygiad gydag ymostyngiad tawel a mawrfrydig. Ond nis gellir trwy ddysgyblaeth gorphorol ddadblygu galluoedd ysbrydol. Perthyna y corph i fyd y synwyrau materol, ond yr enaid i fyd y delfrydau ysbrydol; ac felly rhaid wrth ymarferiad gwahanol ac o ansawdd uwch nag un corphorol i ddadblygu a dyrchafu galluoedd uchaf natur dyn.

3. *Moddion y Trefniant Dwyfol.* "Ymarfer dy hun i dduwioldeb." Duwioldeb ydyw yr unig foddion cyfaddas i ddyn i'w ymarfer, er dwyn oddiamgylch adferiad ei natur. Nis gall holl athrawiaethau athronyddol na chyfundrefnau crefyddol y byd adfer dynoliaeth, a hyny am y rheswm eu bod yn amddifad o allu i cyfnewid ei natur. Ni chymerant rym pechod i'r cyfrif, ac felly ceisiant ei hadfer trwy ei dwyn trwy gwrsweithrediad dadblygiad a'i harwain ar hyd llwybrau diwylliant. Addefwn yn rhwydd y gellir gwella llawer ar ddyn trwy gyfrwng addysgiant, ond nis gellir ei achub felly. Perthyn i dduwioldeb yn unig mae y gallu fedr effeithio cyfnewidiad yn mherthynas allanol a mewnol dyn â Duw. Effeithir y naill trwy faddeuant, a'r llall trwy ail-enedigaeth. Ac y mae duwioldeb nid yn unig yn cyfnewid dyn, ond hefyd trwy ei gyfnewid, yn ei ddadblygu yn llawn yn ei holl alluoedd.

Pa beth yw duwioldeb? Mewn ystyr gyffredin gellir dywedyd ei bod yn gyfystyr â *chrefydd*, hyny yw, fel y mae yn gyfundrefn o foddion dwyfol i adfer dyn. Ond yn fwy manwl a phriodol golyga y gallu gweithredol a effeithia hyny. Yn yr ystyr yma dyna yw—yr egwyddor o gariad Duw yn nghalon dyn, yr hon a ysbrydola ei weithrediadau, oddiar ddiolchgarwch am yr hyn a wnaeth efe iddo. Cyfeirir ati fel egwyddor yn yr adnod hono—"Yr ydym ni yn ei garu ef, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni" (1 Ioan iv. 19). Felly cariad wedi cymeryd ei safle yn ysbryd dyn fel egwyddor darddiol ei weithrediadau ydyw duwioldeb. Ac fel y cyfryw y mae yn allu a fedr ddwyn allan

hyd i berffeithrwydd llawn holl ogoniant dichonadwy dynoliaeth. Mae yn natur dyn alluoedd a orweddant yn dorchau diymadferth, y rhai nad oes dim ond duwioldeb fedr gyffwrdd eu *springs*, a'u gosod oll ar lawn waith er ei symud yn nghyfeiriad y gwrthrychau a roddant foddlonrwydd i'w ddymuniadau a sylweddoliad i'w ddyheuadau.

Un o gwestiynau mawr yr oes hon yw—"Pa beth a ateba y dyben oreu?" Mae hwn yn gwestiwn yn mhob cylch. Pa beth a ateba oreu i oleuo tai, adeiladau, a heolydd? Atebiad yr hen oesau oedd mai canwyl frwyn a llusern. Ond nid oedd y byd yn foddlon i'r cyfryw, ac felly daeth y *mould candles* yn lle y canwyllau brwyn, a'r nwy-oleuni yn lle y llusernau. Ond nid da lle gellir gwell, ac atebiad yr oes hon i'r cwestiwn yw, mai y goleuni trydanol a ateba y dyben goreu i oleuo. Cenfydd y byd rywbeth amgenach i ateb dyben gwell yn mhob cylch naturiol. Ond ni chaed, ac ni cheir dim i ateb y dyben yn well na duwioldeb. Pan ganfyddodd un o'r prif-feistriaid yn y gelf arluniol Eglwys newydd yn Rhufain, ac iddi barwydydd llyfnion oddifewn, dywedodd—"Pe cawn i ond yn unig fyned i mewn i hon, myfi a wnawn ddarlun." Felly yr edrycha duwioldeb i mewn i natur dyn, a hi a ddywed—"Pe cawn i ond yn unig fyned i mewn i'r creadur mawr ac ardderchog hwn, myfi a wnawn ddyn ohono, dadblygwn ef i'w berffeithrwydd, a gwnawn iddo godi i fyny a thynu allan yn ngoreu ei holl alluoedd a'i gynheddfau anianyddol, deallol, ac ysbrydol.

a. *Dadblyga duwioldeb alluoedd y corph.* Ymadrodd campwrol ydyw *ymarfer*, a chymhwysa yr Apostol ef at dduwioldeb. "Ymarfer dy hun i dduwioldeb"—*dy hun*,—yn yr oll ag ydwyt. Mae gan dduwioldeb ryw ymarferiad (*Gumnasia*) trwy yr hwn y dadblygir ac y perffeithir galluoedd y corph. Hi a roddodd destynau ymarferiad i ddysgyblu y llaw, y glust, a'r llygad berffeithiaf. Dysgyblwyd y llaw mewn arluniaeth a cherfiadwaith, ond yn nhestynau Cristionog-

aeth y canfyddwn hi yn ei gogoniant penaf. Ei cherddoriaeth hi a roddodd y *training* goreu i'r llais dynol, gan ei dynu allan yn ei nodau dyfnaf ac uchaf, nes rhoddi i'r byd fynegiant i ryw syniadau ydynt anrhaethadwy i eiriau ac iaith. Hi hefyd a roddodd y *training* goreu i'r glust a'r llygad trwy ëu dyrchafu a'u perffeithio mewn chwaeth yn sŵn ei leferydd ef ac yn mhresenoldeb dysgleirdeb ei ogoniant. Rhŷdd duwioldeb rhyw brydferthwch ac urddas ar gorph dyn, na fedr yr un moddion arall ei gynyrchu. Terfyna dylanwad pob gallu arall ar y corph yn angau—ei gladdu yw y gymwynas olaf fedr y byd ei gweinyddu iddo Ond medr duwioldeb wneyd cymwynas arall—ei adgyfodi yn y dydd diweddaf, a'i gyfnewid i fod yr un ffurf a'i gorph gogoneddus Ef, ac felly ei ryddhau byth o gadwynau llygredigaeth a marwolaeth.

b. *Dadblyga alluoedd y deall.* Cyneddf ryfedd yw hon, a dichonadwy o ddadblygiad anhygoel a diderfyn. Gall chwilio allan ffyrdd Duw yn y greadigaeth fawr hyd i berffeithrwydd. Gwelir y deall yn y man wedi *explorio* bydoedd, a chlywir ef yn dywedyd—"Yr ydwyf yn gweled diwedd ar bob perffeithrwydd" anianyddol a gwyddonol. Ond nid yw ymchwiliadau y deall yn nhiriogaeth natur yn foddion digonol i'w ddadblygu yn ei lawn faint. Mae iddo bosiblrwydd mwy na dim a ddarganfyddwyd yn narganfyddiadau natur. Rhaid cael testynau efrydiaeth i'r deall sydd anhysbyddadwy, cyn ei gwelir yn ei ogoniant. I ddeall, fedr fyned yn ei flaen am dragywyddoldeb i gyfrinle dirgelwch ar ol dirgelwch, rhaid cael testynau efrydiaeth iddo ag iddynt lwybrau a mynedfeydd tragywyddol. Yn awr, y mae gan dduwioldeb *gumnasia* i'r deall a'i dadblyga i'w lawn faint. "Mawr yw dirgelwch duwioldeb, Duw a ymddangosodd yn y cnawd."

"Mynediad helaeth mwy i bara,
O fewn trigfanau TRI YN UN;
Dwfr i nofio heb fyn'd trwyddo,
Dyn yn Dduw, a Duw yn ddyn."

Duwioldeb gynyrchodd feddyliau goreu yr oesau, a pherthyna iddi hi gyfaddasrwydd fel moddion i roddi i ddyn y diwylliant deallol uchaf yn bod.

c. *Dadblyga y bywyd ysbrydol.* Rhaid i'r bywyd hwn gael ei lywodraethu gan ddeddfau cyfaddas i'w natur—rhaid cael rhyw oleuni y medr y deall yn ei bresenoldeb adnabod gwirioneddau fel eu hadwaenir—rhaid cael y serch i ymhyfrydu yn y gwrthrych y cyferfydd pob hawddgarwch ynddo, a'r ewyllys i ddewis yr hyn sydd dda ynddo ei hun. Medda dduwioldeb *Gumnasia* i'r ysbryd yn yr holl bethau hyn, nes y diflana ei lygredd fel cwmwl, ac y dysgleiria ei sancteiddrwydd fel yr haul yn ei nerth. Cael duwioldeb yn egwyddor lywodraethol yn nharddle gweithrediad, ac yna fe welir llanw purdeb a sancteiddrwydd yn codi i fyny ac yn llifo i mewn i holl gilfachau yr enaid gan olchi allan bob pechod a llygredd, a'i gyflenwi â holl rinweddau Duw.

Fel hyn, canfyddwn fod duwioldeb yn foddion cyfaddas i effeithio cwbl-adferiad pawb a'i hymarferant. Ymarfer i dduwioldeb a gododd i fyny bersonau o ddyfnder dinodedd i fod yn gymwynaswyr penaf y byd. Hi gyfododd Abraham o fod yn eilunaddolwr, i fod yn gyfaill Duw ac yn dad y ffyddloniaid. Hi gyfododd Joseph o'r carchar, i fod yn llywydd ar wlad yr Aipht. Hi ddyrchafodd Moses o fod yn fugail defaid, i fod yn brif ddeddf-roddwr yr oesau. Hi gyfododd Oliver Cromwell o fod yn amaethwr bychan i fod yn frenin brenhinoedd Prydain Fawr, wedi ei goroni gan Dduw, ac nid gan ddynion. Hi hefyd a gyfododd lu o fechgyn o blith gwerin gwlad, i rodio y llwybrau a gerddir gan wŷr enwog, arglwyddi a thywysogion. Yr hyn a wnaeth i eraill, hi a'i gwna hefyd i ninau, os ymarferwn hi.

II. CYFADDASDER DUWIOLDEB AR GYFRIF ADNODDAU I SYLWEDDOLI EI HAMCAN. "A chanddi addewid o'r bywyd y sydd yr awrhon, ac o'r hwn a fydd"

Cynwysa duwioldeb nid yn unig foddion cyfaddas i adfer natur dyn, ond hefyd ddarpariaeth ar ei gyfer yn ei gyflwr adferedig. Un o gwestiynau mawr yr oes hon yw—"Beth sydd yn talu—yn mha le y ceir mwyaf o *dividend*—pa le y bydd y *capital* yn ddiogel a'r llôg yn uchel?" Anfonir allan yn ddyddiol *prospectuses* yn ddirif i gymell *shares* mewn gwahanol gwmnïau, ac y maent oll yn addaw yn dda, ond yn y rhan fwyaf o engreifftiau ni chyflawnant eu haddewidion byth, ac yn fynych collir y *capital*. Mae pawb ar ymchwil am Klondyke yn rhywle, ond llawer a fethant gael hyd iddo. Ond y mae gan dduwioldeb gyfoeth diderfyn—

"Mae gan dduwioldeb elw gwell
Na holl drysorau 'r India bell."

"Elw mawr yw duwioldeb." Gellir darllen, "a chanddi addewid bywyd, yr hwn sydd yn awr a'r un sydd yn dyfod." Y syniad yw, fod bywyd, pa un bynag ai yn y byd hwn, ynte yn yr hwn a fydd yn eiddo iddi mewn addewid, fel ag yr oedd Canaan mewn addewid yn eiddo i Abraham.

1. *Y bywyd y sydd yr awrhon*—yr hwn yr ydym yn ei fyw yn y sefyllfa bresenol. Duwioldeb yn unig fedr alluogi dyn i *wir fwynhau* bywyd. Mae miloedd yn byw, ond nid ydynt yn mwynhau. Ond pwy bynag sydd yn byw duwioldeb fel egwyddor fawr bywyd, medda addewid bywyd yn ei holl gyflenwadau anhysbyddadwy nes ei wneyd yn fwynhad anrhaethadwy. Bywyd ydyw yr addewid fwyaf ellir ei gwneyd, ac nid oes dim ond duwioldeb yn ei addaw—eithaf pob peth arall ydyw addaw ychydig o fwynhad mewn bywyd.

2. *Ac o'r hwn a fydd.* Bywyd tragywyddol a olygir yma. Mae addewidion pob peth arall yn gyfyngedig i'r bywyd presenol yn y byd hwn. "A hwn yw yr addewid a addawodd Efe i ni, sef bywyd tragywyddol" (1 Ioan ii. 25). Nid tragywyddol yn yr ystyr o barhad yn unig nac yn benaf, ond yn yr ystyr o ansawdd, sef bywyd yn ei berffeithrwydd yn y byd a ddaw. Dyma addewid Iesu Grist i'r hwn a gred,—"Ond caffael ohono fywyd tragywyddol" (Ioan iii. 16). Cynwysa yr

addewid o fywyd addewid o bob peth angenrheidiol i'w gyflenwni â holl adnoddau dadblygiad a mwynhad.

Bellach canfyddwn, fod duwioldeb yn gyfaddas i sylweddoli ei hamcan ar gyfrif medr ac adnoddau. Mae ei medr hi yn fedr dyfais anfeidrol, a'i hadnoddau ydynt oludoedd dihysbydd yr Holl-gyfoethog Dduw. Hi yn unig trwy ei medr a'i moddion fedr godi dyn i'w lefel, ïe, yn gydradd âg angelion Duw. Wedi ei chael hi yn egwyddor oddifewn, tawelir ein hystormydd, goleuir ein gobeithion, cryfheir ein hymddiriedaeth, prydferthir ein hymostyngiad, a gwelir ni wedi ein trawsnewid nes bod yr un ffurf a delw ei Fab Ef.

Amser yn ol bu hen foneddwr farw yn ddiberthynas, ac fel y tybid yn ddiewyllys. Yn fuan daeth y Llywodraeth i mewn i gymeryd meddiant o'i eiddo. Diwrnod yr arwerthiad a ddaeth, ac yn mhlith pethau eraill, rhoddwyd darlun yr hen foneddwr ar werth. Ond ni chynygiai neb ddim am dano oddieithr ei hen was, a tharawyd ef iddo. Wrth dynu y darlun oddiar y mur, canfyddwyd papyr ar ffurf *document* y tu cefn iddo, ac erbyn ei chwilio canfyddwyd mai ewyllys yr hen foneddwr oedd. A dyma ei chynwys—"Pwy bynag a bryn fy narlun, yr wyf yn rhoddi i hwnw fy holl feddianau; mae'r cwbl i fyned gyd â'r darlun." Beth yw duwioldeb? Darlun Duw yn ngogoniant ei natur a'i gymeriad. Os ceisiwn dduwioldeb, nyni a gawn bob peth i'w chanlyn hi. Dyma'r addewid—"Canys y neb a'm caffo i, a gaiff fywyd, ac a feddiana ewyllys da gan yr Arglwydd" (Diar. viii. 35). "A chanddi addewid o'r bywyd y sydd yr awrhon, ac o'r hwn a fydd."

III.

Sylfaen Gwybodaeth mewn Crefydd.

"A fyddant gryfion ac a wnant orchestion."

—DANIEL.

RHAID cael cryfder cyn gwneir gorchest;
  Cryfder dardd o 'nabod Duw;
Ni wneir gorchest, heb gael concwest
  Ar elynion o bob rhyw;
Os am enill enwog frwydrau
Rhaid cael nerth trwy fyfyrdodau
  O'i gyfriniol nerthoedd Ef;
A thrwy 'r cyfryw nerth gwnawn ninau
  Enill gorchest-gampau 'r nef.

'R oedd TRI llanc ar ddyffryn Dura,
  Ac UN Daniel yn y llŷs;
Yn alluog i orchestion,
  Pan y porthai pawb eu blŷs;
Pan y plygai 'r dorf i'r ddelw,
Rhag ofn cael eu llosgi 'n ulw,
  Safai llanciau 'n wrol draw;
A phan welwai 'r miloedd—Daniel
  A eglurai 'r ysgrif-law.

Dos yn mlaen, fy mrawd, heb bryder,
  Mŷn adnabod Duw a'i nerth;
Hyn a fydd i ti yn gryfder,
  Gwnei orchestion mawr eu gwerth;
Y gorchestion dwyfol gloywon
O drugaredd i'r afradon,
  Trwy y nerth sy 'n ngras dy Dduw;
Try 'r gorchestion yn wobrwyon,
  A mwynhad o nefol ryw.

T. J. H.

Sylfaen Gwybodaeth mewn Crefydd.

"A throseddwyr y cyfamod a lygra efe trwy wenïaeth: eithr y bobl a adwaenant eu Duw, a fyddant gryfion, ac a ffynant."—DANIEL XI. 32.

UN o eiriau mawr yr Hen Destament ydyw, Cyfamod; ac mewn ystyr grefyddol golyga—Ymrwymiad Duw i roddi i ddynion fendithion tymhorol ac ysbrydol ar amodau neillduol. Gwnaeth Duw gyfamod felly âg Abraham a'i hâd, ac ar dir hwnw yr oedd y genedl Israel yn bobl gyfamodol Duw. Yr oeddynt oll yn etifeddion addewidion y Cyfamod, a sicrheid y cedwid hwy byth yn ei rwymau, os cadwent hwy ei amodau. Ond dysgid hwy fod yn bosibl iddynt trwy bechu golli eu hawl i freintiau y Cyfamod, a gosod eu hunain tu allan i gylch ei rwymau.

Dysgir yn ein testyn fod dynion yn agored i droseddu Cyfamod Duw, ac felly i fyned yn estroniaid oddiwrth amodau yr addewid. "A throseddwyr y cyfamod"—cyfeirir yma at y rhai a fyddent anffyddlawn i Gyfamod Duw—y rhai a gymerent eu hudo oddiwrth wir grefydd at grefydd gau. Yn amser yr ymosodiad ar Jerusalem gan y Rhufeiniaid, anfonwyd amryw wŷr galluog o Rufain i'r ddinas sanctaidd, i geisio hudo arweinwyr y bobl oddiwrth y grefydd Iuddewig, a'u cael i gofleidio Paganiaeth. Llwyddasant gyda llawer. Ond pob un a gofleidiodd grefydd Rhufain; troseddasant Gyfamod Duw. A phwy bynag sydd yn ceisio ein hudo ninau oddiwrth wir grefydd, cofiwn mai ein llygru trwy wenïaeth ydyw eu hamcan—nid ein lles ni sydd ganddynt mewn golwg, ond eu

mantais eu hunain. Trwy aros yn nghyfamod Duw yn unig y gallwn ni fod yn bur; os troseddwn ef, gweithia llygredd pechod ynom, fel gwahanglwyf anfeddyginiaethol. Byddwn ar ein gwyliadwriaeth rhag gweniaethwyr o bob math—fflatrant i ni er ceisio cyrhaedd eu hamcanion trwyddom, ac wedi eu sicrhau gwnant gyff gwawd o honom. Felly y bu gyd â'r rhai a droseddasant y Cyfamod yn Jerusalem—llygrwyd hwy trwy weniaeth.

Ond yn wrthgyferbyniol i'r rhai a droseddant y cyfamod, roddant ffordd i weniaeth, ac a lygrir, y mae y bobl a adwaenant eu Duw, y rhai a fyddant gryfion, ac a ffynant, neu, a wnant orchestion. Ceir y ddau ddosbarth gwrthgyferbyniol hyn yn mhlith crefyddwyr pob oes—pobl wan a hawdd eu hudo ar y naill law, a'r bobl gryfion, a ddaliant eu tir yn ngwyneb pob ymosodiad, ïe, y bobl ag y treulia pob gweniaeth ei nerth yn ofer arnynt, ar y llaw arall. At y dosbarth hwn y galwn sylw benaf.

Yn ol y Cyfieithiad Diwygiedig darllena ein testyn fel y canlyn:—"A'r rhai a bechant yn erbyn y cyfamod a wyrdroa Efe trwy weniaeth; ond y bobl a adwaenant eu Duw a fyddant gryfion, ac a wnant orchestion." Cyfieithiad Dr. W. Morgan yw—"Ac Efe a wna i droseddwyr y cyfamod bechu trwy weniaith; eithr y bobl a adwaenant eu Duw a orchfygant, ac a ffynant." Arweinir ein meddwl gan eiriau y testyn at y gosodiadau canlynol:—1. Sylfaen gwybodaeth mewn crefydd. 2. Sylfaen cryfder mewn cymeriad. 3. Sylfaen llwyddiant mewn bywyd. Ond yn

I. SYLFAEN GWYBODAETH MEWN CREFYDD. "Eithr y bobl a *adwaenant* eu Duw. *Adnabod* Duw yw sylfaen gwybodaeth mewn crefydd.

Cynwysa y syniad o Gyfamod Duw â dyn y syniad o grefydd, ac y mae Plant y Cyfamod yn cael eu hystyried yn bobl grefyddol; ac yn ein testyn fe osodir allan "y bobl a adwaenant eu Duw," yn wrthgyferbyniol i "droseddwyr y cyfamod."

Efallai fod yn haws gofyn y cwestiwn—Pa beth yw crefydd? na'i ateb, a hyny am fod i'r ymadrodd wahanol ystyron. Gelwir y trefniant dwyfol i achub y byd yn "Grefydd Ddatguddiedig." Yn yr ystyr yma cyfundrefn o wirioneddau ac egwyddorion i'w credu a'u derbyn ydyw. Ond y mae ystyr ddyfnach na hon iddi, sef—Profiad mewnol o berthynas newydd â Duw, sydd yn effaith ymorphwysiad yr enaid ar Grist. Felly crefydd ydyw—Profiad yr enaid credinlol o gymundeb personol â Duw, yr hwn a effeithia i roi cyfeiriad iawn i'w fywyd ac i sancteiddio ei natur yn y gwirionedd.

Yn awr, os mai ymwybyddiaeth o berthynas sanctaidd â Duw ydyw crefydd, a bod dyn trwy y gyfryw berthynas yn sylweddoli ynddo ei hun fodolaeth Duw, yna rhaid ei fod yn adnabyddadwy iddo. Er cymaint a ddywedir i'r gwrthwyneb, credwn y gall dyn adnabod Duw. Nid ydyw y ffaith nas gallwn ei amgyffred, yn un prawf nas gallwn ei adnabod, oblegid a'i onid yw yn ffaith ein bod ni yn adnabod pethau er nas gallwn eu hamgyffred? Ac, yn mhellach, os yw amgyffrediad o beth yn amod hanfodol adnabyddiaeth ohono, yna nis gallwn ni feddu adnabyddiaeth o ddim, oblegid beth sydd, heb fod ynddo ddirgelwch i ni? Am hyny, gallwn ddywedyd mai fel yr adwaenom bethau eraill heb eu hamgyffred, mai felly hefyd yr adwaenom Dduw.

Perthyna i'r meddwl *gyngreddfau* a *galluoedd*. Y gwahaniaeth rhyngddynt yw, fod y meddwl yn rhinwedd ei gynreddfau, yn adnabod gwirioneddau cyntaf yn ddigyfrwng ac uniongyrchol, a'i fod trwy y galluoedd yn adnabod gwirioneddau arddangosol (*demonstrative*) yn ngoleuni profion. Dyma ddau fodd y meddwl o adnabod gwirioneddau.

Nid oes angen am i ni brofi bodolaeth Duw, oblegid yr ydym yn credu ei fod, ac hefyd ei fod yn obrwywr i'r rhai a'i ceisiant; ond y mae arnom angen deall pa fodd i'w adnabod. Yn awr, y mae yn y meddwl wirioneddau cyngreddfol, y rhai nas gellir eu profi am eu bod yn hunan-eglur. Mae gwirioneddau cyntaf natur,

moesoldeb, a chrefydd yn gyngreddfol. Gwirionedd cyntaf natur ydyw y syniad fod i bob effaith achos, gwirionedd cyntaf moesoldeb ydyw y syniad o fodolaeth da a drwg, a gwirionedd cyntaf crefydd ydyw y syniad o fodolaeth Duw. Ac yn awr, fel y mae gwybodaeth anianyddol yn seiliedig ar y syniad fod i bob effaith achos, ac fel y mae gwybodaeth foesol yn seiliedig ar y syniad o fodolaeth da a drwg, felly hefyd y mae gwybodaeth grefyddol yn seiliedig ar y syniad o fodolaeth Duw. Nid ydyw y syniad cyngreddfol yn cynwys syniad cywir ohono, mwy nag y mae y syniad o dda a drwg yn cynwys adnabyddiaeth o'r hyn sydd dda a'r hyn sydd ddrwg—gwaith rheswm yw chwilio allan y pethau hyn.

Sylfaen gwybodaeth mewn crefydd ydyw adnabyddiaeth o Dduw. Ond y cwestiwn ydyw—Pa fodd yr ydym i'w adnabod? Ar yr un egwyddor ag yr ydym i adnabod pob bod arall, sef trwy edrych arno yn ngoleuni ein bodolaeth ein hunain. Gan ein bod ni wedi ein creu ar ei lun a'i ddelw, yna rhaid fod ynom ni rhyw bethau, sydd yn cyfateb i bethau ynddo Ef. Os nad oes ynom ni alluoedd sydd yn cyfateb i alluoedd ynddo Ef, yna nis gallwn byth ei adnabod—yr anwybodadwy hollol ydyw Efe i ni. Ond gan ein bod ni wedi ein cynysgaeddu â galluoedd o'r un natur a galluoedd y meddwl dwyfol, megys deall, teimlad, ac ewyllys, yna yr ydym yn ngoleuni ein bodolaeth ein hunain, yn gallu adnabod Duw, ac felly ei adnabod ar yr un llinellau ag yr ydym yn adnabod pob bôd arall.

Hefyd, y mae perthynas o'r un natur rhwng Duw a'i bobl ag sydd rhwng tad a'i blant, ac felly y mae tadolaeth ddynol yn gyfrwng adnabyddiaeth tadolaeth ddwyfol. Gweithreda Duw tuag at y rhai a'i hofnant Ef, fel y gweithreda tad tuag at ei blant. "Fel y tosturia tad wrth ei blant, felly y tosturia yr Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant Ef" (Psalm ciii. 13). A gallwn ychwanegu, fod y cwbl a berthyn yn hanfodol i'n natur a'n perthynasau ni, yn gyfryngau adnabyddiaeth o Dduw, a thrwy y cyfryw gallwn ei adnabod. Efallai fod perygl i ni dybio fod rhyw ffordd wahanol i ni

adnabod Duw, i'r ffordd yr adnabyddwn eraill drwyddi. Ond y ffaith yw, mai trwy gyfrwng yr un galluoedd, a thrwy ddilyn yr un cwrs o ymarferiad meddyliol yr ydym i ddyfod i adnabyddiaeth ohono Ef, ac o eraill. Nid yw y ffaith fod gwahaniaeth yn yr addysg yn peru o gwbl fod gwahaniaeth yn yr ymarferiad meddyliol. Trwy gymdeithasu âg Ef y datguddia Efe ei hun i ni, fel y datguddia gŵr ei hun i'w gyfaill. Trwy rodio gydag Ef, yr adnabu Enoch Ef. Trwy gymdeithasu âg Ef yr adnabu Abraham Ef. A thrwy ymddiddan âg Ef wyneb yn wyneb yr adnabu Moses Ef. Dengys hyn yn eglur iddynt adnabod Duw, megys ag yr ydym ni yn adnabod ein gilydd.

Bôd ysbrydol yw, a Goruwchlywydd y byd; ac y mae yn ffaith nas gallwn ni ei adnabod yn Dduw iachawdwriaeth, heb y datguddiad a roddodd o hono ei hun yn Nghrist. Gallwn ofyn yn mhellach,—Yn mha beth yr oedd y rhai y cvfeirir atynt yma yn adnabod eu Duw? Adwaenent Ef mewn tri pheth, sef yn ei allu, ei ddoethineb, a'i gariad.

1. *Cynwysa adnabod Duw, i ni feddu syniad clir am ei allu.* Yn ei allu y datguddiodd Efe ei hun gyntaf, ac nid oes dim a wna fwy o argraff ar y meddwl yn nghamrau cyntaf diwylliant na gallu a nerth. Fel Duw Hollalluog y datguddiodd Efe ei hun benaf i Abraham,—"Myfi yw Duw Hollalluog, rhodia ger fy mron i a bydd berffaith" (Gen. xvii. 1). Dysg hyn fod perthynas agos yn bodoli rhwng adnabyddiaeth o Dduw fel Bôd Hollalluog a bywyd sanctaidd ac ymarweddiad perffaith. "Rhodia ger fy mron i a bydd berffaith;" a'r cymhelliad i, a'r rheswm dros hyny yw—"Myfi yw Duw Hollalluog." Trwy rodio ger bron Duw a bod yn berffaith yn unig y gallwn ni ddyfod i fyny â rhwymedigaethau crefydd. Ac ni raid i ni ofni rhoddi ufudd-dod, oblegid y mae genym Dduw Hollalluog i'n nerthu a'n hamddiffyn. I sylweddoli gwerth addewidion crefydd, rhaid i ni sylweddoli fod yr hwn a'u rhoddodd yn Hollalluog; ac felly nas gall yr un anhawster naturiol byth gyfodi

i'w attal i'w cyflawni. Meddyliwn, er engraifft, am yr addewidion o adgyfodiad y corph a bodolaeth mewn setyllfa ddyfodol; nis gallwn dderbyn y rhai hyn heb adnabod Duw yn Hollalluog. Diffyg yr adnabyddiaeth hon o hono ydyw un rheswm am anffyddiaeth pob oes, fel y dywedodd Crist wrth y Saduceaid—"Yr ydych yn cyfeiliorni am nad ydych yn gwybod yr Ysgrythyrau na GALLU Duw" (Marc xii. 24). Felly, rhaid i ni adnabod yr Arglwydd fel Duw Hollalluog, cyn y gallwn yn rhesymol ddisgwyl cyflawniad o'i addewidion. Mae yr adnabyddiaeth hon gan bob gwir gredadyn. "Fy *nerth* a'm cân yw yr Arglwydd" (Exodus xv. 2). "Duw sydd noddfa a NERTH i ni" (Psalm xlvi. 1). "*Canys pob peth sydd bosibl* gyda Duw" (Marc x. 27). "Yr ydym yn diolch i Ti, O Arglwydd Dduw Hollalluog, yr hwn wyt, a'r hwn oeddit, a'r hwn wyt yn dyfod; oblegid Ti a gymeraist dy allu mawr, ac a deyrnesaist" (Dat. xi. 17). Paham mae y credadyn yn gallu dywedyd fel hyn? Am ei fod yn adnabod Duw yn Hollalluog yn ngoleuni y gwaith a gyflawnodd ynddo Ef. "Canys ei waith Ef ydym, wedi ein CREU yn Nghrist Iesu" (Ephes. ii. 10). Mae y gwaith sydd wedi ei wneyd ynddo yn *greu*, yr hyn nas gall neb ei wneyd ond Duw Hollalluog. Yn y goleu hwn y mae pob un sydd wedi ei achub yn adnabod yr Arglwydd fel Duw Hollalluog.

2. *Cynwysa ei adnabod hefyd i ni feddu syniad clir ei fod yn gweithredu yn ddeallus.* Nid gallu Hollalluog yn gweithredu yn ddamweiniol a dall ydyw. Na, mae yn ei ddealldwriaeth Ef wybodaeth anffaeledig o holl ddeddfau nerth, fel y cyflawna ei holl weithredoedd yn y modd goreu i gyrhaedd yr amcanion mewn golwg. Yr ydym ni yn ei adnabod Ef fel "Duw Gwybodaeth," yn ogystal ag fel "Duw Hollalluog." Dywedir ei fod yn trigo yn y goleuni, ac mai "Goleuni yw Duw." Medda ar wybodaeth berffaith o bob peth, ac felly y mae yn anmhosibl iddo byth gyfeiliorni. Ond pa fodd y gallwn ni ei adnabod Ef fel Duw gwybodaeth? Yn ngoleuni ein profiad ohono. Ai onid oes ynom anghen-

ion, na fedr neb ond Duw eu diwallu; ac onid yw y cyflenwadau a dderbyniwn yn brawf sicr Ei fod yn deall ein heisieu? Mae ynom rywbeth mwy nag ymsyniad ei fod yn deall ein meddwl o bell, ac yn hysbys o'n holl ffyrdd. Dysg ni yn ei Air pa fodd i gael maddeuant, cyfiawnhad, &c., ac y mae pawb a wnaethant yn ol y cyfarwyddiadau wedi cael y bendithion, ac felly oddiar brofiad yn adnabod yr Arglwydd fel "Duw Gwybodaeth" yn deall ein hamgylchiadau a'n hangenion.

3. *Cynwysa ei adnabod, yn mhellach, ein bod yn meddu syniad cywir am ei gariad.* Fel y nodwyd, y mae syniad am ei allu a'i wybodaeth yn angenrheidiol er ei adnabod, ond os arhoswn gyd â'r rhai hyn ni bydd genym ond gwybodaeth anmherffaith iawn ohono. Nid yw gallu na goleuni yn ddigonol i gynyrchu bywyd naturiol na moesol. Pe ceid yr holl allu sydd yn neddfau y greadigaeth mewn gweithrediad cyson, a hyny mewn cyfuniad â'r holl oleuni sydd ynddi, eto, ni byddai bywyd heb wres. Gallu heb oleuni, dall ydyw; a goleuni heb wres, marwolaeth yw. Ond dysgir ni fod y "Duw Hollalluog" hefyd, yn "Dduw Gwybodaeth"—yn oleuni, ac at hyny ei fod yn gariad—"Duw cariad yw." Y fath beroriaeth a geir yn y frawddeg hon! Clywir ei seiniau swynol trwy yr oesau. Mae y profion a rŷdd Duw i ni ohono ei hun, yn cyd-dystiolaethu mai cariad yw, ac yn eu goleu gallwn ei adnabod fel y cyfryw. Ac wrth ei adnabod yn ei gariad, nyni a'i hadwaenwn Ef yn holl weinyddiadau ei lywodraeth fawr tuag atom. Gwybod fod Duw yn ein caru a'n cynhyrfa i ddywedyd—"Yr ydym ni yn ei garu Ef, am iddo Ef yn gyntaf ein caru ni" (1 Ioan iv. 19). Yr adnabyddiaeth hon o Dduw ydyw sylfaen gwybodaeth mewn crefydd.

II. SYLFAEN CRYFDER MEWN CYMERIAD. "Eithr y bobl a adwaenant eu Duw a fyddant *gryfion.*"

Nid oes dim ag y dylem ymofyn am dano gyda mwy o ddiwydrwydd ac ymroddiad na chryfder yn ein

cymeriad. Heb hyn ni byddwn ond eiddilod; ac ysgafnach nag ûs o flaen y gwyntoedd ymosodol. Lleferir am y cryfion yn ein testyn o ddau gyfeiriad. Yn

1. *Maent yn gryfion mewn gwrthgyferbyniad i eraill sydd yn weiniaid.* Yma dygir yn mlaen y rhai a adwaenant eu Duw, mewn gwrthgyferbyniad i'r rhai a droseddant ei Gyfamod Ef. Wedi i'r Iuddewon unwaith droseddu y Cyfamod, llwyddodd eu gelynion i'w llygru trwy weniaeth. Y foment y peidiwn ninau a dilyn adnabod yr Arglwydd, daw pechod i mewn i'n bywyd fel afon, ac ysguba ymaith ein holl nerth moesol. Collwn ein gwroldeb. Nid yw hyfdra rhyfyg byth yn nerth. Yn ei ryfyg yr oedd Belsassar yn ddigon hŷf i ddyfod â llestri y deml i ystafell y wledd; ond yn mhresenoldeb y darn llaw gwelwodd ei wedd, a churodd ei liniau yn nghyd. Gwnaeth pechod lwfrddyn ohono. Syrthiodd Dafydd o flaen Prophwyd yr Arglwydd, pan ddywedodd—"Tydi yw y gŵr." Ond "y rhai a adwaenant eu Duw," trwy fyw mewn cymundeb gwastadol âg Ef, fel Daniel, a fyddant gryfion i wrthsefyll holl hudoliaethau pechod. Os ydym ni am nerth a'n galluoga i sefyll, rhaid i ni adnabod ein Duw. Pan oedd Belsassar a'r mil tywysogion yn rhy wan gan ofn i symud yn mhresenoldeb y darn llaw a ysgrifenai ar galchiad y pared, yr oedd Daniel yn ddigon cryf i sefyll i fyny yn hunanfeddianol i ddarllen ag egluro yr ysgrifen.

2. *Yn gryfion ar gyfrif y goleuni a gawsant ar egwyddorion moesoldeb, yn rhinwedd eu hadnabyddiaeth o Dduw.* Yn ngoleuni eu hadnabyddiaeth o Dduw gwel y credinwyr berthynasau eu bywyd yn eglur a chywir, ac nas gallant byth ddyfod i fyny â hawliau y cyfryw, ond trwy fyw yn gyfiawn, sanctaidd a da. Ychydig o nerth sydd yn nghymeriad y dyn di-dduw, ac nad ydyw o gwbl wedi sylweddoli yr Ysbrydol mawr, nac wedi synio yn iawn am egwyddorion bywyd yn ngoleuni byd tragywyddol. Ond pan y sylweddola dyn y Dwyfol a'r Ysbrydol ac y gwel i dragywyddoldeb, a bod ei gyflwr yno i gyfateb i'w fywyd yma,

oenfydd bwysigrwydd ei fodolaeth, a ffurfia ei gymeriad dan ddylanwad y byd mawr tragywyddol ac anweledig. Felly, canfyddwn mai sylfaen cryfder mewn cymeriad ydyw adnabyddiaeth o Dduw. Yr oedd cymeriad Abraham yn ddigon cryf i ddal profedigaeth danllyd pen Moriah, ond y ffaith ei fod yn adnabod Duw a'i gwnaeth yn ddiegwan o ffydd. Pan fygythwyd llosgi y llanciau dewrion yn Babilon am wrthod addoli y ddelw aur, yr oedd nerth eu cymeriad yn cyfodi o'u hadnabyddiaeth o Dduw. Gofynai y brenin —"A pha Dduw yw Efe a'ch achub chwi o'm llaw i?" Atebai y llanciau—"Wele, y mae ein Duw ni, yr hwn yr ydym ni yn ei addoli, yn abl i'n gwared ni allan o'r ffwrn danllyd boeth, ac Efe a'n gwared ni o'th law di, O frenin" (Daniel iii. 17). Dynion yn adnabod eu Duw yn unig ydynt y cymeriadau gwir gryfion.

III. SYLFAEN LLWYDDIANT MEWN BYWYD. "A ffynnant," neu "a wnant orchestion."

1. *Gorchestion mewn cyflawni gweithredoedd arwrol a mawrion.* "A wnant orchestion." Y dynion a adwaenant eu Duw a wnaethpwyd yn gryfion mewn rhyfel, ac a yrasant fyddinoedd yr estroniaid i gilio. Gwnaeth Daniel *orchest* pan y galwodd ar ei Dduw, er gwaharddiad ac ysgrifen y Brenin. Gwnaeth y tri llanc *orchest* pan wrthodasant addoli y ddelw aur, yn ol gorchymyn Nebuchodonosor. Anfarwolodd y gorchestion hyn hwynt. Ond ni buasai y naill na'r llall wedi eu cyflawni, oni b'ai eu bod yn adnabod eu Duw. Ac os na allwn ni wneyd gorchestion mor enwog, eto os ydym yn adnabod ein Duw, nyni a wnawn orchestion yn y cylchoedd o ddefnyddioldeb a agorant o'n blaen. Os cawn fod yn offerynau i achub eneidiau rhag angau, bydd hyny yn fwy o orchest na phe yr achubem fydoedd y greadigaeth rhag eu llosgi yn ulw gan dân y farn.

2. *Gorchestion mewn dwyn dioddefiadau dyfnion a dirdynol.* Meddwn ar hanes miloedd o'r rhai a adwaenant eu Duw a gyflawnasant orchestion anrhaethadwy mewn dioddefiadau. Ac efallai fod cyfeiriad

mwyaf uniongyrchol ein testyn at orchestion mewn dioddef. Prophwydoliaeth ydynt o'r hyn a gofnodir fel ffeithiau yn hanes y Macabeaid yn Llyfr yr Apocrypha. Yr oedd y rhai a droseddent y Cyfamod yn ysgoi y dioddefiadau hyn; ond y rhai a adwaenant eu Duw a'u gwynebent yn wrol, a thrwy hyny cyflawnent orchestion. Ai onid gorchest ydoedd i Eleazar yr ysgrifenydd sanctaidd ddioddef marwolaeth yn hytrach na throseddu Cyfamod ei Dduw? Cawn hefyd yn Llyfr y Macabeaid hanes am wraig dduwiol ac iddi saith o feibion, y rhai yr ymdrechwyd eu hudo trwy weniaeth i droseddu y Cyfamod, ond a wynebasant angau yn ei ffurf erchyllaf yn hytrach na hyny. Gorchymynodd y brenin dori tafod y brawd hynaf, wedi hyny tori ymaith ei freichiau a'i draed, yna ei flingo yn fyw; a chan na wadai Gyfraith ei Dduw, rhoddwyd ef mewn padell a ffrïwyd ef ar dân araf i farwolaeth. (II. Macabeaid vi. vii.). Ai onid oedd hyn yn wrolder—pa orchest fwy a allwn feddwl am dani? Do, gwnaeth miloedd o'r rhai a adwaenent eu Duw orchestion *(exploits)* anfarwol, trwy y gwroldeb a ddangosasant yn y dioddefiadau dyfnaf, ac yn eu plith holl ardderchog lu y merthyron. Darllener Hebreaid xi. 36—40. Yr oedd gwaith y tri llanc yn Babilon yn gwynebu angerdd y tân, a Daniel yn cymeryd ei fwrw i ffâu y llewod yn orchestion yn wir. Pa un bynag ai trwy weithredoedd arwrol, ai ynte trwy ddioddefiadau dyfnion, y llwyddwn i gyrhaedd amcan bywyd, bydd hyny yn orchest anfarwol.

Bellach, fy narllenwyr, a gaf fi ofyn—A ydym ni wedi sylweddoli y gwirionedd hwn—sef, nad yw yn bosibl i ni fod yn gryfion, ac nas gallwn gyflawni gorchestion heb adnabod Duw. Ar hyn y dibyna cryfder ein cymeriad a llwyddiant ein bywyd. Efe o bawb, yw yr hawddaf ei adnabod, oblegid gyd âg Ef nid oes gyfnewidiad na chysgod troedigaeth—yr Un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd yw Efe.

IV.

Craig yr Oesoedd.

"Nid oes Graig megys ein Duw ni."—HANNAH.

CRAIG, CRAIG,
A ddeil holl ruthroedd tònau 'r aig,
Gynhyrfir gan uffernol ddraig
  Yw "Hâd y Wraig" i'm henaid drud;
Ar hon mi seiniaf nefol gân,
  Pan doddo 'r tân holl greigiau 'r byd.

Ni ddaw,
I holltau 'r Graig na gwynt na g'law—
Mae 'n ddiddos le, a phell uwchlaw
  I neb roi braw, i'r rhai sy 'n byw
O fewn ei lloches gadarn, glyd,
  O dwrw 'r byd, yn mynwes Duw.

T. J. H.

Craig yr Oesoedd.

"Ymddiriedwch yn yr Arglwydd byth; oherwydd yn yr Arglwydd Dduw y mae cadernid tragywyddol."—ESAIAH XXVI. 4.

AR bob llyfr a ysgrifenwyd erioed, ceir delw y wlad a fagodd ei awdwr yn amlwg arno. Ac er fod y Beibl yn Llyfr Dwyfol, eto y mae delw y wlad yr ysgrifenwyd ef ynddi, i'w chanfod arno yntau hefyd. Gellir dywedyd mewn modd arbenig, am yr Hen Destament, mai "Llyfr Dwyreiniol" yw—Dwyreinwyr a'i hysgrifenodd, Dwyreiniol yw ei arddull, ac arferion, defodau, a golygfeydd Dwyreiniol ydynt y cyffelybiaethau a ddefnyddir ynddo i egluro y gwirioneddau dwyfol a ddatguddia. Felly, i'w ddeall, y mae yn ofynol i ni ei ddarllen a'i efrydu yn ngoleuni gwareiddiad Dwyreiniol yr oesau yr ysgrifenwyd ef ynddynt. Palestina a gynyrchodd, bron yr oll o ysgrifenwyr yr Hen Destament, ac yr oedd nid yn unig arferion, ond hefyd olygfeydd y wlad, wedi gwneyd argraff ddofn ar eu meddyliau, ac am hyny gwelir delw y cyfryw ar eu hysgrifeniadau.

Un o ysgrifenwyr enwocaf yr Hen Destament oedd y prophwyd awenyddol Esaiah, ac efe a ysgrifenodd ein testyn. Efallai mai yr hyn sydd angenrheidiol i ddechreu, er deall y geiriau, ydyw cael allan y darlleniad cywiraf a ffyddlonaf ohonynt. Darlleniad y LXX. yw—"O herwydd ynot Ti, O Arglwydd, yr ymddiriedant gyda hyder yn dragywydd, y Duw mawr a thragywyddol." Y VULGATE—"Gobeithiwch yn yr Arglwydd bob amser, yn yr Arglwydd Dduw galluog yn oesoesoedd." Dr. W. Morgan—"Ymddiriedwch

yn yr Arglwydd byth, oherwydd yn yr Arglwydd Dduw y mae cadernid yn dragywydd." Dr. Young—"Ymddiriedwch chwi yn Jehofah, oherwydd yn Jah Jehofah y mae Craig yr Oesoedd." Y Cyfieithiad Diwygiedig—"Ymddiriedwch chwi yn yr Arglwydd byth, oherwydd yn yr Arglwydd Jehofah y mae Craig dragywyddol."

Cymellai y Prophwyd y genedl ar ei dychweliad o Babilon i ymddiried yn yr Arglwydd—i barhau i ymddiried ynddo Ef o oes i oes, a cheir y rheswm am hyny yn y rhan olaf o'n testyn—"Oherwydd yn yr Arglwydd Jehofah y mae Craig yr Oesoedd." Rhaid i ddyn gael Person Dwyfol yn Graig ei ymddiriedaeth, ac yn Jehofah yn unig y caiff y cyfryw. Dysgir yn ein testyn fod

DUW YN GADERNID I'W BOBL.

Dylid cofio mai nid rhyw beth yn Nuw yn unig ydyw "Craig yr Oesoedd," ond mai Efe ei Hun ydyw. Yr oedd Ef yn Graig yr Oesoedd i Israel, ac y mae felly hefyd i ninau. Naturiol yw gofyn y cwestiwn—"O ba le y cyfododd y syniad o Dduw fel Craig?" Rhed trwy y Beibl, ac y mae yn llawn prydferthwch a barddoniaeth. Ymddengys mai Jacob wrth fendithio Joseph a'i mynegodd gyntaf. Dywedai am Joseph—"Er hyny arhodd ei fŵa ef yn gryf, a breichiau ei ddwylaw a gryfhasant, trwy ddwylaw grymus DDUW Jacob: oddiyno y mae y bugail, MAEN ISRAEL (Gen. xlix. 24). Ond yn ei fabandod yr oedd y syniad y pryd hwnw—MAEN ISRAEL oedd *germ* y syniad o Dduw fel Craig. *Maen* yn nyddiau Jacob, ond erbyn dyddiau Moses yr oedd y *maen* wedi ymddadblygu yn *Graig*—"Rhoddwch fawredd i'n Duw ni, Efe yw y Graig" (Deut. xxxii. 3, 4). "Canys nid fel ein Craig ni y mae eu craig hwynt, a bydded ein gelynion yn farnwyr" (Deut. xxxii. 31). Ceir y syniad hefyd yn nghân Hannah—"Ac nid oes Graig megys ein Duw ni" (1 Sam. ii. 2). Rhŷdd Dafydd fynegiad beunydd i'r syniad yn y Psalmau prydferth a gyfansoddodd—"O Arglwydd, fy Nghraig a'm Prynwr" (Psal. xix.

14), "Bydd i mi yn graig gadarn (gyfanedd), yn dŷ amddiffyn i'm cadw, canys fy nghraig a'm castell ydwyt" (Psal. xxxi. 2, 3). "Pallodd fy nghnawd a'm calon; ond nerth (craig) fy nghalon a'm rhan yw Duw yn dragywydd" (Psal. lxxiii. 26). Ceir y syniad hefyd gan yr Apostol Paul yn y Testament Newydd—"A'r Graig oedd Crist" (1 Cor. x. 4). Ond efallai nad oes yr un ran o'r Ysgrythyr yn cynwys y syniad yn gyflawnach na geiriau ein testyn. Mor brydferth, mor farddonol, ac eto mor wirioneddol yw—"Ymddiriedwch yn yr Arglwydd byth, oherwydd yn yr Arglwydd Dduw y mae Craig yr Oesoedd."

I gael eglurhad ar y syniad o Dduw fel Craig, yr hwn oedd mor gyffredin yn mhlith Saint yr Hen Destament, rhaid i ni ymofyn â golygfeydd y wlad y preswylient ynddi. Yr oedd Palestina yn wlad gyfoethog ei hadnoddau, a'r creigiau megys yn furiau o amgylch ei gwastadeddau, ac yn gwylio ei dyffryn-oedd. O greigiau'r mynyddoedd y dylifai y ffrydiau ddiodent ei hanifeiliaid ac a ddyfrhaent ei meusydd. Y creigiau oedd sylfeini cedyrn ei hamddiffynfeydd, ei dinasoedd, a'i themi ogoneddus, yr hon oedd yn degwch bro ac yn llawenydd yr holl ddaear. Pan ymosodai y gelynion ar ei phreswylwyr, y pryd hwnw "Cestyll y Creigiau" fyddai eu hamddiffynfa. Ac fel hyn yr oedd y creiglau wedi gwneyd argraffiadau dyfnion ar feddyliau Beirdd a Llenorion y genedl, ac wedi dylanwadu ar eu syniadau am Dduw a phethau dwyfol. Felly cynwysa ein testyn y syniad cyffredinol o gadernid diroi ac ansymudol—Craig, a hono yn un a erys trwy holl dreigliadau oesoedd dirifedi tragywyddoldeb. Yr hyn oedd Duw i Israel ydyw hefyd i ninau, a dyna a fydd i'r credinwyr yn mhob oes a ddel.

Hefyd, y mae y syniad o Dduw fel Craig yn un amlwg yn Emynyddiaeth y Cymry a'r Saeson. Pwy sydd heb wybod am Emyn anfarwol Toplady—

"Rock of Ages cleft for me,
Let me hide myself in Thee," &c.

Ac hefyd Emyn Dafydd William, Llandeilo Fach, yr hwn sydd yn rhagori ar eiddo y Sais enwog—

"O Graig, nas gall gelynion,
Pe bae'nt o rif y dail,
I ddringo dros ei muriau,
Na chloddio dan ei sail," &c.

I gael allan werth y syniad, rhaid i ni edrych arno fel y cynwysa ddarpariaeth a gyferfydd â'r teimladau o angen y llafuria y credinwyr danynt yn eu cystadleuaeth âg anhawsder bywyd crefyddol. Ai onid ydym yn llafurio o dan ddylanwad rhyw deimladau fel hyn —Teimlad o wendid yn ngwyneb galluoedd mor gryfion; teimlad o ofn yn ngwyneb peryglon mor enbyd, a theimlad o ansicrwydd yn ngwyneb cyfnewidiadau parhaus? Dyma y teimladau sydd yn ein poeni beunydd, ac yn ein tueddu i lwfrhau. Ond y mae syniad neu wirionedd mawr ein testyn yn feddyginiaeth anffaeledig i'r teimladau hyn. I. Cadernid yn Nuw yn ngwyneb gwendid ynom ni. II. Diogelwch yn Nuw yn ngwyneb y peryglon a barant i ni ofni. III. Sefydlogrwydd yn Nuw yn ngwyneb yr ansicrwydd a bâr i ni ameu. "Oblegid yn yr Arglwydd Dduw y mae cadernid yn oesoesoedd."

I. CAWN YN NUW GADERNID I BERFFEITHIO NERTH YN EIN GWENDID. "Oherwydd yn yr Arglwydd Dduw y mae Craig yr Oesoedd."

Nis gall dyn ystyriol amgen na theimlo ei wendid, ac nid oes neb hebddo, pa mor bur bynag ei gymeriad a dyrchafedig ei amcanion. Ai onid dyna oedd teimlad Moses, pan anfonai Duw ef i waredu y genedl o'r Aipht? Ei wendid oedd ei ddadl fawr yn erbyn myned. Felly hefyd Elias—yn yr ymdeimlad o'i wendid, efe a eisteddodd o dan ferwydden yn yr anialwch, wedi digaloni. Digalonodd yr Apostol Paul hefyd, a gweddïodd ar Dduw am iddo symud y swmbwl o'i gnawd. Yn nwyneb nerth Pharaoh a'i awdurdod, teimlai Moses ei wendid; yn ngwyneb nerthoedd cryfion y rhai oedd yn ceisio ei einioes,

teimlodd Elias y Thesbiad ei wendid; ac yn ngwyneb y galluoedd cryfion a ymosodent arno—swmbwl yn y cnawd a chenad Satan i'w gernodio, teimlodd Apostol mawr y cenhedloedd ei wendid. Ai onid dyma ein hanes ninau? Pan ofynir gwaith mawr oddiwrthym, ai oni theimlwn ein gwendid yn ngwyneb y galluoedd cryfion sydd genym i'w gwrthwynebu a'u goresgyn? Ar ein ffordd i gyflawni ein dyledswyddau y mae anhawsderau mawrion, a chyfarfyddant ni o bob cyfeiriad—galluoedd cryfion ar ein ffordd i lwyddiant mewn masnach, i ragoriaeth mewn dysg, ac i burdeb mewn cariad; a'r rheswm fod cynifer yn methu cyrhaedd y nôd ydyw, eu bod yn digaloni ac yn llwfrhau yn ngwyneb rhwystrau.

Ond y mae genym ni i sylweddoli, nid yn unig ein gwendid, ond hefyd gadernid yr Arglwydd, a bod Duw yn nerth i ni, ac yn barod i ymladd ein brwydrau. Mae gwendid Duw yn gryfach na dynion, a dim ond i ni ymnerthu yn nghadernid ei allu Ef, gorchfygwn yr oll. Y dyn a ymgura yn erbyn y graig a ddryllir, ond yr hwn a esgyn iddi a waredir, ac felly gwae a ymgura yn erbyn Duw, ond gwyn eu byd pawb a ymddiriedant ynddo Ef.

Defnyddir yn ein testyn y gymhariaeth gryfaf yn bod i osod allan gadernid Duw, sef CRAIG. Y graig ydyw y nerth sydd yn rhoddi cadernid yn mhob peth. Y graig ithfaen (*granite*) sydd yn cadw y ddaear yn ei ffurf—hi yw sylfaen y mynyddoedd, a'r cadernid sy'n cynal y moroedd. Pe tynid y graig o'r ddaear, ni byddai ond tryblith afluniaidd a gwag. Yn awr, fel y mae y graig yn gadernid y ddaear, felly y mae Duw yn gadernid ei bobl. Yn wir, Efe yw cadernid—Craig pob peth yn y greadigaeth. Y Graig sydd ynddo Ef ydyw sylfaen y greadigaeth anianyddol a moesol. Ar egwyddorion tragywyddol sydd yn ei natur Ef ei hun, y mae llywodraeth foesol yn sylfaenedig, ac Efe yn ei ras a'i gariad ydyw sylfaen fawr a chadarn crefydd. Felly, y graig sydd yn sylfaen creadigaeth, llywodraeth, a chrefydd, ydyw nerth a chadernid y credadyn. Gallwn ni gael y graig sydd

yn dal y cwbl yn sylfaen danom; ac onid yw hon yn ddigon cadarn i'n cynal? Ac unwaith y sylweddolwn yn ein profiad "gadernid yr Arglwydd Dduw," ni phoenir ni mwyach gan ein gwendid, ond yn hytrach ymffrostiwn ynddo, fel y preswylia nerth Duw ynom ni.

II. DIOGELWCH YN NUW YN NGWYNEB Y PERYGLON A GYNYRCHANT OFNAU YNOM NI. "Yn yr Arglwydd Dduw y mae Craig."

Cynwysa y syniad o Dduw fel Craig, nid yn unig y syniad o gadernid, ond hefyd ei fod yn gadernid sydd noddfa i ddiogelu y credinwyr yn ngwyneb peryglon mawrion eu bywyd. Yn ngwyneb peryglon mawrion cyfyd y teimlad o ofn. Mae peryglon bywyd crefyddol yn fawrion a lïosog. Cyfodant o lochesfeydd ein nwydau anianol i ymosod arnom, ac ymguddiant o amgylch ein llwybrau yn llawn dichellion am ein difetha. Ond y feddyginiaeth anffaeledig i symud ymaith y teimlad o ofn yn ngwyneb y peryglon hyn ydyw y syniad o ddiogelwch sydd yn Nuw fel Craig.

Yn Ngwlad Canaan, y creigiau oeddynt yr amddiffynfeydd cadarnaf. Pan yr ymosodai y gelynion ar ei phreswylwyr, ffoent i'r creigiau am ddiogelwch. Yn nghopa craig Etam y cafodd Samson ddiogelwch rhag y Philistiaid. Yn nghraig Rimon, y gafodd gweddill Benjamin ymguddfa rhag cynddaredd eu brodyr. Ac yn nghreigiau y geifr gwylltion, yn anialwch Engedi, y cafodd Dafydd noddfa rhag ei elynion. Am fod creigiau Canaan yn Noddfa i'w phreswylwyr rhag eu gelynion, defnyddir hwy fel cymhariaeth i osod allan yr Arglwydd fel noddfa i'w bobl. Nodwn ychydig o adnodau sydd yn cynwys y syniad—"Yr Arglwydd yw fy nghraig a'm hamddiffynfa" (Psal. xviii. 2). "Bydd i mi yn graig gadarn, yn dŷ amddiffyn i'm cadw. Canys fy nghraig a'm castell ydwyt" (Psal. xxxi. 2, 3). Dyma adnodau i ddarostwng ofnau y saint. Paham y rhaid iddynt ofni, a'r Arglwydd yn graig gadarn, yn dŷ amddiffyn,

ac yn gastell iddynt?" "O eithaf y ddaear y llefaf atat, pan lesmeiria fy nghalon; arwain fi i graig a fyddo uwch na mi" (Psal. lxi 2). A dyma adnod arall werthfawr iawn, i ddarostwng ofnau, ond i ni gymeryd y darlleniad ymyl-ddalenol ohoni—"Bydd i mi yn graig gyfanedd, i ddyfod iddi bob amser" (Psal. lxxi. 3). Y syniad yw cael craig i gyfaneddu ynddi—cael byw yn nghadernid yr Arglwydd Dduw. "Cysgod craig fawr mewn tir sychedig" (Esaiah xxxii. 2). Y fath ddiogelwch a feddwn pan sylweddolwn y ffaith fod Duw yn graig i ni—Duw yn ardderchowgrwydd ei nerth yn gysgod i ni rhag pob peth a ddichon ymosod arnom. Sylweddoli y diogelwch hwn sydd yn Nuw a symuda ein holl ofnau—"Duw sydd noddfa a nerth i ni, cymhorth hawdd ei gael mewn cyfyngder. Am hyny nid ofnwn pe symudai y ddaear, a phe treiglid y mynyddoedd i ganol y môr. Er rhuo a therfysgu o'i ddyfroedd, er crynu o'r mynyddoedd gan ei ymchwydd ef. Y mae afon a'i ffrydiau a llawenhant ddinas Dduw; cyssegr preswylfeydd y Goruchaf; Duw sydd yn ei chanol; nid ysgog hi: Duw a'i cynorthwya yn fore iawn" (Psal. xlvi. 1—5). Y syniad uchaf o ddiogelwch yn amser Dafydd ac Esaiah oedd "Yr Uchelderau" a "Chestyll y Creigiau," ac felly pan ddefnyddid cymhariaeth i osod allan ddiogelwch y cyfiawn, dywedid—"Efe a breswylia yr uchelderau; cestyll y creigiau fydd ei amddiffynfa ef" (Esaiah xxxiii. 16). Y syniad yw, y bydd ei breswylfa mor uchel fel nas gall neb o'i elynion ei gyrhaedd ef yno, ac hefyd mor ddiogel fel nas gall neb ohonynt ei niweidio. Paham yr ofni, gredadyn gwan, a Duw tragywyddoldeb yn graig i ti?

III. SEFYDLOGRWYDD YN NUW YN NGWYNEB YR ANSICRWYDD A GYNYRCHA AMHEUAETH YNOM NI. "Oherwydd yn yr Arglwydd Dduw mae Craig yr OESOEDD."

Wrth edrych o'n hamgylch ar y pethau a welir, yr hyn a'n tery yw, ansefydlogrwydd pob peth, ac o ganlyniad yr ansicrwydd a berthyn iddynt. A phob

amser, yn mhresenoldeb yr ansicr, cyfyd amheuon yn y meddwl. Wrth weled pob peth yn cyfnewid yn barhaus, tueddir ni i ameu a oes rhywbeth sicr a sefydlog yn bod. Yn mhlith holl wrthrychau y greadigaeth weledig, beth sydd yn aros i ddywedyd hanes yr oesau a fu, ac a erys i wylio chwildroadau yr amser a ddaw? Mae'r byd yn myned heibio, yn ogystal a'r cwbl sydd ynddo, a hyny heb groniclydd i gofnodi yr holl hanes. Os edrychwn i'r nefoedd, derfydd hon fel mŵg, ac wele'r dydd yn d'od yn yr hwn yr ä heibio gyd â thwrf. Heneiddia y ddaer fel dilledyn, ac ymddengys yn wahanol iawn heddyw i'r hyn oedd ar y cyntaf. A un genhedlaeth heibio, a chenhedlaeth arall a ddaw; hen deyrnasoedd a syrthiant, a rhai newyddion a gyfodant. Y creigiau ydynt y pethau cadarnaf ar y ddaear. Llifa yr afonydd heibio, ond erys y creigiau. Trengodd y genedl fu wrth odreu Sinai yn derbyn tanllyd gyfraith o ddwylaw angelion, er ys miloedd o flynyddoedd, ond erys creigiau y mynydd hwnw hyd heddyw. Lle Dafydd sydd wag er ys oesoedd lawer, ond erys creigiau y geifr gwylltion yn anialwch Engedi, lle y bu yn ymguddio rhag ei elynion, mor gadarn ag erioed. Mae lleisiau Petr, Ioan, a Paul, fu yn cyhoeddi yr Efengyl yn Asia, wedi distewi er ys llawer oes, ond y mae hen greigiau y wlad fu yn adseinio eu geiriau yn aros o hyd. Ai onid yw hen Efengylwyr Cymru, fu fel udgyrn arian yn cyhoeddi'r iachawdwriaeth, dô ar ol tô wedi distewi? Ond y mae hen greigiau yr Eryri, a chreigiau eraill cymoedd dyfnion Gwalia, fu yn adlais eu lleferydd yn aros cyn gadarned ag erioed. Ond symuda y creigiau. Bu y penteulu yn graig i'w briod a'i blant, ond erbyn heddyw y mae wedi ei symud. Mae craig iechyd a bywyd yn rhoi ffordd, a symudir hwy yn llwyr yn y man. A fe welaf y dydd yn d'od, pan rwygir yr awyr gan ryferthwy ofnadwy y farn, yr ymollynga y nefoedd gan wres, ac y bydd afonydd tanllyd y cyd-losgiad diweddaf yn ysgubo y cwbl ymaith. O flaen rhuthr ffrochwyllt y llifeiriant ofnadwy hwnw, ni bydd y creigiau cadarnaf ond fel

tywod llac—ymollyngant i ganlyn y llu. "Ac yn wir, y mynydd a syrthio, a ddifiana; a'r graig a symudir o'i lle. Dyfroedd a dreuliant y cerrig; yr wyt yn golchi ymaith y pethau sydd yn tyfu o bridd y ddaear, ac yn gwneuthur i obaith dyn golli" (Job xiv. 18, 19). Ond er rhwygo y creigiau cedyrn a'u symud oll o'u lle gan y dymhestl a ysguba y nefoedd o'i blaen, eto deil un Graig—Craig yr Oesoedd.

"Pan y tawdd elfenau natur,
Ac y dua 'r haul uwchben,
Pan y cwymp yr holl blanedau
Ac y gwrida 'r lleuad wèn,
Craig yr Oesoedd—
Saif yn gadarn ddydd y farn."

Ac O! mor werthfawr y pryd hwnw fydd cael "Craig a ddeil yn merw'r lli'."

Mae llawer o greigiau y ddaear, yn greigiau oesoedd. Ond nid oes yr un ohonynt yn Graig *yr* Oesoedd. Pan yr archwiliwn y Cambrian, Sulurian, Devonian Rocks, &c., cawn yn mhob un ohonynt ffosylau creaduriaid oes ar ol oes—y maent oll yn greigiau oesoedd. Eto, er hyny, nid oes yr un o honynt yn cynwys yr holl oesoedd—yr un ohonynt yn Graig *yr* Oesoedd. Craig ein testyn yn unig sydd felly. Daw hyd yn nod oes creigiau oesol y ddaear i ben, ond erys Craig "yr Oesoedd," oblegid y mae hi yn graig dragywyddol. Wrth edrych ar greigiau'r ddaear heddyw, gwelwn fod amser yn dyweyd arnynt. Hacrwyd a rhychwyd eu gwynebau gan ei ewinedd llymion. Ydyw, y mae amser yn dyrnu y mynyddoedd i lawr, ac yn malu y creigiau. Dysga hyn nad oes dim yn y byd hwn y gellir ymddiried ynddo byth. "Y mynyddoedd a giliant, a'r bryniau a symudant." Ond ni chilia ac ni symuda "Craig yr Oesoedd" yn dragywydd. Pwy erioed a siomwyd, a ymddiriedasant ynddi hi? Hon oedd craig ymddiriedaeth y Patriarchiaid. Ar hon y pwysodd Jacob. Hi oedd craig hyder Moses. Am hon y canodd Hannah. Dyma graig gyfanedd Dafydd, a chysgod Esaiah, a hi yw y graig yr ymddiriedodd oesoedd o bobl dduwiol ynddi, a daliodd hwy oll i'r làn.

Ymddiriedwn yn yr Arglwydd, ac nid ynom ein hunain. Nid oes ynom ni graig y gallwn ymddibynu arni byth. Ymddiriedwn yn yr Arglwydd, ac nid mewn dynion. Pa werth ymddiried mewn un y disgyn cysgod marwolaeth ar ei amrantau, y newidir ei wedd, ac a anfonir i ffordd. Ymddiriedwch yn yr Arglwydd, ac nid mewn pethau. Nid oes gadernid tragywyddol mewn dim gweledig. Felly, ymddiriedwch yn yr Arglwydd o oes i oes, yn oes oesoedd. Dyma y feddyginiaeth rhag amheuon—dyma a'u gŷr oll ar ffo. "Ymddiriedwch yn yr Arglwydd byth"—yn y Graig sefydlog a thragywyddol. Gwŷn eu byd y rhai a ymddiriedant ynddo Ef.

"Bydd melus yn yr afon,
Gael craig a'm deil i'r làn," &c.

Darllenasom am wraig ieuanc grefyddol iawn, oedd yn ngafael galluoedd angau mawr, a deimlai awydd cryf am adferiad, er bod yn gysur i'w phriod ac yn gefn i'w baban bach; ond a ofnai fod amser ei hymddatodiad yn agoshau. Un diwrnod galwodd y meddyg i'w gweled fel arfer, a gofynodd iddo—"Wel, Doctor, sut yr ydych yn ty ngweled heddyw—gwanach onide? "Ië, yn wanach," meddai yntau. "Dywedwch yn onest, Doctor, a oes genyf lawer o amser i fyw eto," gofynai. "Nac oes, yr wyf yn ofni eich bod yn dechreu sincio i'r afon yn barod," atebai y meddyg. "Sincio, Doctor," atebai hithau, "na wnaf byth, yr wyf fi ar y graig er pan yn eneth fechan ddeuddeg mlwydd oed, ac yr wyf ar y graig heddyw,—sincio, na wnaf byth, oblegid cyn y gwnawn hyny, byddai raid i Graig yr Oesoedd roi ffordd danaf." Mynwn ddiogelwch y Graig ddwyfol hon yn noddfa, ac yna fe ddifiana ein gwendid, fe ffoa ein hofnau, ac fe gilia ein amheuon yn oes oesoedd.

V.

Yr Iachawdwriaeth yn Destyn Efrydiaeth.

"Am yr hon Iachawdwriaeth yr ymofynodd ac y manwl chwiliodd y Prophwydi."—PETR.

IACHAWDWRIAETH, byd colledig,
  Dyfais fawr doethineb Duw;
Engyl nef yn hon efrydant—
  Moroedd o ddirgelion yw;
Rhyfeddodau gras a chariad,
  Tostur a chyfiawnder gwyn,
Welant yn yr Iawn anfeidrol
  Gafwyd ar Galfaria fryn.

Iachawdwriaeth dynodd sylw
  Y prophwydi mawr eu dawn,
Rhagwelasant ras y nefoedd,
  Mewn cyflawnder byth yn llawn;
Ysbryd Crist yr hwn oedd ynddynt,
  Dystiai i'w ddioddefaint Ef,
A'r gogoniant ar ol hyny
  Llanwai uchelderau 'r nef.

Iachawdwriaeth, hon bregethai,
  Apostolion Iesu Grist;
Yn ddigonol ras ar gyfer,
  Pechaduriaid truain, trist;
'R Ysbryd Glân o'r nef ddisgynai
  Arnynt hwy yn ddwyfol ddawn,
Ac a'u nerthai i gyhoeddi
  Holl haeddianau mawr yr Iawn.

Iachawdwriaeth, hon gorona,
  Ymdrech ffydd y Cristion gwiw;
Ynddi ca' faddeuant pechod,
  Meddyginiaeth i bob briw;
Llwyr adferiad corph ac enaid,
  Delw Duw, Paradwys lon;
Daw yr oll yn ddiau iddo
  Trwy yr Iachawdwriaeth hon.

T. J. H.

Yr Iachawdwriaeth yn Destyn Efrydiaeth.

"Gan dderbyn diwedd eich ffydd, sef iachawdwriaeth eich eneidiau. Am yr hon iachawdwriaeth yr ymofynodd, ac y manwl-chwiliodd y prophwydi, y rhai a brophwydasant am y gras a ddeuai i chwi. Gan chwilio pa bryd, neu pa ryw amser, yr oedd Ysbryd Crist, yr hwn oedd ynddynt, yn ei hysbysu, pan oedd efe yn rhag-dystiolaethu dioddefaint Crist, a'r gogoniant ar ol hyny. I'r rhai y datguddiwyd, nad iddynt hwy eu hunain, ond i ni, yr oeddynt yn gweini yn y pethau a fynegwyd yn awr i chwi, gan y rhai a efengylasant i chwi trwy yr Ysbryd Glân, yr hwn a ddanfonwyd o'r nef; ar yr hyn bethau y mae angelion yn chwenychu edrych."—1 PETR I. 9—12.

GAIR mwyaf yr adran hon yw iachawdwriaeth, ac efe hefyd yw gair mwyaf y Beibl. Perthyna iddo ddau ystyr, a chynwysir hwy yn ein testyn. Yn 1af,—Y drefn adferol i waredu dyn o drueni ei gyflwr dirywiol. Dyma feddwl y gair yn y 10fed adnod. Yn 2il,—Y waredigaeth a effeithia y drefn. Dyma feddwl y gair yn y 9fed adnod. Felly canfyddwn fod *trefn* y waredigaeth, a *gwaredigaeth* y drefn,—y naill yn ogystal a'r llall yn cael eu galw yn iachawdwriaeth. Yn ngoleuni y testyn, sylwn yn

I. AR YR IACHAWDWRIAETH FEL TESTYN YMCHWILIAD YR OESOEDD. "Am yr hon iachawdwriaeth yr ymofynodd, ac y manwl-chwiliodd y prophwydi," &c.

Yr oedd rhyw *un* iachawdwriaeth o flaen eu meddwl, a hono mor fawr fel nad oedd hyd yn nod y waredigaeth o'r Aipht na'r dychweliad o Babilon ond cysgodau ohoni. Iachawdwriaeth ysbrydol yr ymofynent hwy am dani. Gallwn edrych yma ar y Prophwydi

a'r Apostolion fel cynrychiolwyr ymofynwyr yr oesoedd am yr iachawdwriaeth. Teimlodd dynion mwyaf y byd ddyfnder eu trueni, dyheuasant am waredigaeth, ac aethant i bob cyfeiriad i ymofyn am dani. Os darllenwn lenyddiaeth yr oesoedd yn ein cyfroddion gwerinol a chlasurol, clywn yn yr oll adlais ymofyniad am waredigaeth. Cwestiwn mawr pob dyn goleuedig am ei gyflwr yw—"Pwy a'm gwared i?" Ymgais i ateb hwn ydyw holl grefyddau dynol y byd heddyw. Ond atebiad siomedig ydynt oll. Nid oes yr un o honynt yn boddloni yr ymofynwyr. Ni cheir yr atebiad yn nyfais dyn; mae i'w gael yn unig yn "nyfais fawr tragywyddol gariad."

Canfyddwn yn ein testyn, ddullwedd yr ymofyniad. *Yn gyntaf, yr oedd yn ymchwiliad pryderus.* "Yr ymofynodd y prophwydi." Llenwid eu meddyliau â phryder, fel yr arwydda y gair a gyfieithir yn *ymofyn.* Pryderent am ddeall natur a chynwys yr iachawdwriaeth nes gosod eu meddwl ar ei lawn ŷni i'w ceisio allan. Ymofynant am hyn, fel y ceisiai Esau etifeddu y fendith. Cyfodai cwestiynau pwysig yn nglŷn â'r drefn yn eu meddyliau, megys pa fodd i ddyn pechadurus i ddynesu at Dduw? pa fodd ei cyfiawnheid? a pha fodd ei glanheid? "A pha beth y deuaf ger bron yr Arglwydd, ac yr ymgrymaf ger bron yr uchel Dduw? A ddeuaf fi ger ei fron Ef â phoeth-offrymau ac â dyniewaid? A foddlonir yr Arglwydd â miloedd o feheryn, neu â myrddiwn o ffrydiau olew? A roddaf fi fy nghyntaf-anedig dros fy anwiredd, ffrwyth fy nghroth dros bechod fy enaid?" (Mic. vi. 7—8). "Pa fodd y cyfiawnheir dyn gyda Duw? neu pa fodd y bydd yr hwn a aned o wraig yn lân?" (Job xxv. 4). *Yn ail, yr oedd yn ymchwiliad trwyadl.* "Y manwl chwiliodd y prophwydi." Golyga yr ymadrodd *chwilio* yma, chwilio neu olrhain peth allan,—chwilio fel y chwilia y mwnwr am drysorau cuddiedig, neu fel y chwilia yr ysbïwr ansawdd y wlad yr ymwêl â hi. Yr oeddynt yn argyhoeddedig fod yn y datguddiad a gawsant, wirioneddau nad amgyffredent yn llawn, ac am hyny chwilient yn fanwl am eu hystyr a'u cyn-

wys. Nid oedd y ffaith eu bod wedi eu hysbrydoli yn gwneyd ymchwiliad diwyd a dyfal yn ddianghenrhaid. Yr oedd efrydiaeth a gweddi yn eu cymhwyso i ddatguddio i ddynion y datguddiad a gawsant hwy gan Dduw.

Wrth efrydu yr Iachawdwriaeth, canfyddent ei bod i gael ei chario allan trwy Iachawdwr. Felly aethant i ymofyn a manwl-chwilio pa fath un fyddai y Person mawr trwy yr hwn y deuai y waredigaeth. "Gan chwilio pa bryd, neu pa ryw amser." Yn ol y cyfieithiad cywiraf,—"Gan chwilio pa Berson, neu pa ryw amser, yr oedd Ysbryd Crist, yr hwn oedd ynddynt yn cyfeirio ato, pan oedd efe yn rhag-dystiolaethu diodd-efaint Crist a'r gogoniantau fyddent i'w canlyn hwynt." Yr oedd yr Iachawdwr ac amser ei ymddangosiad yn destynau eu hymchwiliad—pa fath un fyddai yr Iachawdwr, a pha fath ryw amser fyddai cyfnod ei ymddangosiad,—nid yn unig y dyddiad, ond ansawdd yr amser. Ymneillduai y prophwydi o dwrf y byd, ac esgynent i unigrwydd a thawelwch y mynyddoedd i fyfyrio ar y Person mawr. Ond rhyfedd mor wahanol yr ymddangosai iddynt. Heddyw yn "Fachgen a aned," yfory yn "Hen Ddihenydd;" heddyw "Y diystyraf o'r gwŷr," yfory yn "Ddymuniant yr holl genhedloedd." Gwelai Daniel ef yn cael ei roddi i farwolaeth gan ei elynion, ond gwelai Esaiah ef yn dyfod i fyny o Edom yn goch ei ddillad o Bosrah, yn sathru ei holl elynion dan ei draed. Canfyddasant yn lled eglur beth fyddai cyflwr yr oes neu sefyllfa ysbrydol y byd yn y cyfnod y gwnai ei ymddangosiad. "Tir cysgod angau" oedd y byd y pryd hwnw, ac amser o dywyllwch du. "Y bobl a rodiasant mewn tywyllwch, a welsant oleuni mawr: y rhai sydd yn aros yn nhir cysgod angau, y llewyrchodd goleuni arnynt" (Es. ix. 2). Yn awr yn ngoleuni y gweledigaethau a gawsant mewn canlyniad i'w manwl ymchwiliad, canfyddasant yn

1. *Fod yr Iachawdwriaeth o Ras.* "Y rhai a brophwydasant am y *gras* a ddeuai i chwi." Gorchest-

gamp gras ydyw yr iachawdwriaeth, ac yma, fel yn mhob man arall, hi sydd i benderfynu ei therfynau, oblegid nid oes gan neb oddiallan hawl arni. Gras ydyw pob peth y drefn fawr hon—ei ffynnon darddiol a'i holl fendithion. Gras a ddeuai ydoedd fel testyn prophwydoliaeth, ac i *chwi*, meddai yr Apostol. Gellir dywedyd am y gras dwyfol hwn ei fod i bawb ag y pregethwyd yr Efengyl iddynt, "Canys ymddangosodd gras Duw, yr hwn sydd yn dwyn iachawdwriaeth i bob dyn" (Titus ii. 11).

2. *Ei bod yn Iachawdwriaeth trwy ddioddefaint.* "Yn ei hysbysu, pan oedd efe yn rhag-dystiolaethu dioddefaint Crist." Rhaid i bob Gwaredwr fod yn barod i ddioddef pan yn ymgymeryd â bod yn offeryn gwaredigaeth wladol neu gymdeithasol fawr. Yn wir, yn mhob gwaredigaeth o bwys sydd genym hanes am dani, y Gwaredwr ddioddefodd fwyaf. Dioddefodd miloedd Israel fel gwaredigion, ond Moses y gwaredwr ddioddefodd fwyaf. Bydd yn rhaid i waredigion iachawdwriaeth gras ddioddef, ond dioddefaint Iesu y Gwaredwr fydd y mwyaf angherddol. Cafodd Ef ei berffeithio yn awdwr iachawdwriaeth trwy ddioddefiadau. Ffaith ag y dylai dynion gywilyddio o'i herwydd yw, eu bod yn ymddwyn tuag at eu cymwynaswyr goreu yn waeth na thuag at eu gelynion casaf. Y plant, y gwna y rhïeni fwyaf iddynt: oddiwrth y rhai hyny fel rheol y dioddefant fwyaf. Oddiwrth y rhai y gwneir y cymwynasau mwyaf iddynt yn fynych iawn y derbynir y troion gwaelaf. Felly, pwy bynag a ymgymera â bod yn gymwynaswr dynoliaeth, rhaid iddynt gyfrif ar ddioddefaint. Yr oedd y dioddefaint i lawr yn nghyfrif yr Iesu pan yr ymgymerodd â bod yn Waredwr. "Yr Hwn, yn lle y llawenydd a osodwyd iddo, a ddioddefodd y Groes, gan ddiystyru gwaradwydd." Ond heblaw y dioddefaint oedd gyffredin i bob gwaredwr o nôd, perthynai i'r Iesu ddioddefiadau neillduol, priodol iddo Ef yn unig—dioddefiadau aberthol ac iawnol. Rhagwelai y prophwydi yn glir y byddai i'r Messïah ddioddef, ac mai

trwy ei ddioddefaint y caffai eneidiau iachawdwriaeth. Ond perthynai llawer o bethau i'w ddioddefiadau ag y carasent gael goleuni arnynt, ac am hyny manwl-chwilient iddynt.

3. *Ei bod yn Iachawdwriaeth a goronid â llwyddiant.* "A'r gogoniant ar ol hyny." Rhagwelent mai canlyniad y *dioddefaint* fyddai *gogoniant.* Ar ol dioddefaint drygair dynion, gogoniant cymeradwyaeth Duw; ar ol dioddefaint dirmyg y gorsen, gogoniant y deyrnwïalen; ar ol dioddefaint y goron ddrain, gogoniant y goron gyfryngol; ar ol dioddefaint y groes, gogoniant deheulaw y mawredd yn y goruwchleoedd, ac ar ol y dioddefaint o gael ei wrthod gan y ddaear, y gogoniant o gael ei dderbyn gan y nef, yn sŵn bloeddiadau tyrfa fawr o seintiau ac engyl, yn dywedyd—"Teilwng yw yr Oen a laddwyd." Aeth yr Iesu trwy yr oll ddioddefiadau i'r Orsedd. Caiff yr Hwn a ddioddefodd weled o lafur ei enaid a'i ddiwallu; a chaiff yr Hwn a ddrylliwyd am ein camweddau ni, fuddugoliaeth ar y cedyrn, ac efe a rana eu hysbail,—y dioddefiadau yn gyntaf, "a'r gogoniant ar ol hyny." Rhoddai y Nefoedd i fyny yn ewyllysgar ei ser i wneuthur coronau lawer i Brynwr y Byd.

4. *Yr Iachawdwriaeth oedd testyn cenadwri yr Apostolion.* "Y pethau a fynegwyd yn awr i chwi, gan y rhai a efengylasant i chwi." Y Crist a ragfynegwyd gan y prophwydi, hwnw a bregethwyd gan yr Apostolion.

5. *Fod cyfranogiad o ysbryd yr Iachawdwriaeth yn hanfodol i wneyd ymchwiliad llwyddianus i'w dirgeledigaethau.* "Nad iddynt hwy eu hunain, ond i ni, yr oeddynt yn gweini." Hunan-ymwadiad yw egwyddor yr Iachawdwriaeth, ac hebddi nis gallwn byth ei ddeall. Y modd i gael gwybod beth sydd yn yr Iachawdwriaeth i ni, ydyw chwilio beth sydd ynddi i eraill. Mor amlwg y canfyddwn yr ysbryd hwn yn y prophwydi a'r Apostolion. Ni feddylient am eu lleshad eu hunain, ond yn hytrach am leshad y llaweroedd.

Dyma ysbryd yr Efengyl, a'r dynion gyfranogant helaethaf ohono a dderbyniant y datguddiad llawnaf o'i dirgeledigaethau.

II. YN DESTYN DATGUDDIAD YR YSBRYD. "Yr oedd Ysbryd Crist, yr hwn oedd ynddynt, yn ei hysbysu," &c. :—

1. *Datguddiad yr Ysbryd i'r Prophwydi.* "Yr oedd Ysbryd Crist, yr hwn oedd ynddynt, yn ei hysbysu." Rhagwelodd y prophwydi y gras a ddeuai i ddynion. Yn awr nis gall dyn weled i'r dyfodol, nac, o ganlyniad, fynegu yn mlaen llaw yr hyn a ddigwydd yn y byd moesol ac ysbrydol. Gallant ragfynegu digwyddiadau naturiol, megys diffygiadau ar yr haul a'r lleuad, cyfodiad a machludiad yr haul, a llanw a thrai y môr; ond nid ydyw hyn yn ddim ond rhagfynegu y pethau a fydd yn ngoleuni y pethau a fu. Pethau i'w cael trwy *calculations* ydynt i gyd. Ond nid mater o *calculations* oedd y prophwydoliaethau, oblegid nid oedd gan y prophwydi ddim yn y mynedol i gyfrif arno. Pethau oeddynt nas gallasent byth eu gwybod ond trwy ddatguddiad, ac nis gallasai neb ond Ysbryd Crist eu datguddio.

2. *Datguddiad yr Ysbryd i'r Apostolion.* "Y pethau a fynegwyd yn awr i chwi trwy yr Ysbryd Glân, yr hwn a ddanfonwyd o'r nef." Yn hytrach na "thrwy" gellir darllen "*yn* yr Ysbryd Glân." Dengys hyn y gwahaniaeth rhwng datguddiad yr Ysbryd i'r Apostolion, a'i ddatguddiad i'r prophwydi—yr Ysbryd *yn* y prophwydi; ond yr Apostolion yn yr Ysbryd. Yr Ysbryd Glân oedd y nerth o'r uchelder â'r hwn y gwisgwyd yr Apostolion. Dylanwad yn gweithio oddifewn yn benaf oedd yr Ysbryd i'r prophwydi; ond dylanwad yn gweithio oddiallan yn benaf oedd Efe i'r Apostolion. Dylanwad yn datguddio y gwirionedd oedd yr Ysbryd i'r prophwydi; ond dylanwad yn arddel y gwirionedd oedd Efe i'r Apostolion, ac fel nas gellir cyfrif am y gwirioneddau a ragfynegodd y prophwydi, ond ar y tir eu bod wedi eu datguddio iddynt gan yr Ysbryd Glân; felly, hefyd, nis gellir

byth gyfrif am lwyddiant gweinidogaeth yr Apostolion, ond ar y tir fod yr Ysbryd Glân yn eu harddel. Cymerodd yr Ysbryd o eiddo Crist, ac a'i hysbysodd i'r Apostolion; a phan bregethent y cyfryw yr oedd Ef trwy ei ddylanwadau yn eu cario adref, yn argyhoeddiad i feddyliau y gwrandawyr. Os ceuir yr Ysbryd Glân allan, yna nis gellir cael cyfrif o gwbl am ragfynegiadau y prophwydi nac am lwyddiant gweinidogaeth yr Apostolion.

III. YN DESTYN DYDDORDEB ANGELION. "Ar yr hyn bethau y mae angelion yn chwenychu edrych."

Diameu fod yma gyfeiriad at y cerubiaid aur a gysgodent y drugareddfa yn y cysegr sancteiddiolaf. Dywedodd Duw wrth Moses, "A gwna drugareddfa o aur coeth, o ddau gufydd a haner ei hŷd, a chufydd a haner ei lled. A gwna ddau gerub o aur; o gyfanwaith morthwyl y gwnai hwynt, yn nau gwrr y drugareddfa. . . . . a bydded y Cerubiaid yn lledu eu hesgyll i fyny, gan orchuddio y drugareddfa â'u hesgyll, a'u hwynebau bob un at eu gilydd; tu a'r drugareddfa y bydd wynebau y cerubiaid. A dod y drugareddfa i fyny ar yr arch, ac yn yr arch dod y dystiolaeth a roddaf i ti. A mi a gyfarfyddaf â thi yno, ac a lefaraf wrthyt oddi ar y drugareddfa oddi, rhwng y ddau gerub y rhai a fyddant ar arch y dystiolaeth" (Ex. xxv. 17—22). Yn y Cysegr Sancteiddiolaf y ceid eglurhad ar gysondeb gras a deddf, yn ngwaith Duw yn cymodi y pechadur edifeiriol âg Ef ei hun, yn haeddiant yr Iawn, a hyny trwy faddeuant. Ai onid yw y ffaith ddarfod i Dduw orchymyn gosod cerubiaid ar y drugareddfa yn awgrymu ei fod yn galw sylw angelion at drefn yr iachawdwriaeth? Dywedir "tu a'r drugareddfa y bydd wynebau y cerubiaid," felly yr hyn a gymerai le yno oedd i gael eu sylw, a gosodwyd hwy yn y lle mwyaf manteisiol i weled yr olygfa. Naturiol gofyn—Paham y mae trefn yr Iachawdwriaeth yn destyn dyddordeb i angelion?

1. *Ar gyfrif ei mawredd a'i gogoniant.* Rhaid cael rhywbeth mawr i dynu sylw angelion, megys creu

bydoedd, cyhoeddi deddf, ymgnawdoliad Mab Duw, a'i farwolaeth, a'i adgyfodiad, a'i esgyniad i'r gogoniant oedd iddo gyda'r Tad cyn bod y byd. Pan greodd Duw y byd "cydganodd ser y boreu, a gorfoleddodd holl feibion Duw." Pan anwyd y Ceidwad, yr oedd lluaws o lu nefol yn canu ei garol. Pan oedd yr Iesu mewn ing yn yr ardd, yr oedd mwy na deuddeg lleng o angelion at ei alwad, er nad ymddangosodd ond un. Pan yr adgyfododd fore y trydydd dydd, yr oedd gardd Joseph o Arimathea yn gyrchfan engyl nas gwyddom eu rhif, a phan yr esgynodd adref, yr oeddynt yn fil o filoedd yn ffurfio gosgorddlu iddo, a phan y daw ar gymylau y nef i farnu y byd yn y dydd diweddaf, bydd yr angelion yno heb rifedi yn weinyddwyr y dedfrydau. Yn awr, gan fod yr angelion yn teimlo y fath ddyddordeb yn yr Iachawdwriaeth, profa hyny ei bod yn perthyn i ddosbarth y pethau mawrion yn llywodraeth Duw, a'i bod y mwyaf o'r pethau mawrion.

2. *Am ei bod yn ddatguddiad newydd iddynt o natur a phriodoleddau Duw.* Yr oedd yr angelion yn hen gynefin â natur a phriodoleddau Duw, ac wedi bod yn eu hefrydu yn ddiameu yn ngoleuni yr amlygiadau a gawsant o honynt yn y greadigaeth, ac yn ngweinyddiadau Rhagluniaeth. Yn y greadigaeth canfyddent ddoethineb yn cyfarwyddo gallu ac yn diogelu trefn yn mhob man. Yn y nef, ac efallai mewn bydoedd eraill, canfyddasant gyfiawnder yn gwobrwyo yr ufudd, ac yn cosbi y troseddwr, a ffrydiau cariad yn mhob man yn llifo o ddedwyddwch i'r rhai a gadwent ei orchymynion Ef. Dyma yr hen olygfeydd y bu angelion am oesoedd yn efrydu natur a phriodoleddau Duw yn eu presenoldeb. Ond yn yr Iachawdwriaeth cant olygfeydd newyddion. *Cadw* trefn mae doethineb yn y greadigaeth, ond adfer trefn y mae yn yr Iachawdwriaeth. Diogelu breintiau i'r ufudd oedd yr olygfa a gawsant hwy erioed ar gyfiawnder yn y nefoedd, ond yn yr Iachawdwriaeth sicrhau breintiau i'r euog ar amodau diogel ac anrhydeddus, ac yn gyson â chyfiawnder. Hen beth i angelion oedd edrych ar y cariad dwyfol yn ngoleuni

mwynianau ac adnoddau anhysbyddadwy dedwyddwch y nef, ond peth newydd oedd iddynt edrych arno yn ngoleuni golygfeydd y preseb, y groes, a gorseddfainc y gras. Yn ngoleuni yr Iawn y gwelsant werth y breintiau a gollodd y pechadur, a gwerth y breintiau oeddynt yn aros yn eu meddiant hwy. "Ni wybu Gabriel beth oedd gwerth ei goron, nac Uriel beth oedd gwerth ei delyn, hyd nes y gwelsant yn y preseb ac ar y groes y gwerth anfeidrol aeth i brynu coron a thelyn pechadur." Gan fod yr Iachawdwriaeth yn taflu y fath oleuni iddynt ar y priodoleddau dwyfol, ac ar werth eu breintiau mawr eu hunain, pa ryfedd eu bod yn teimlo y fath ddyddordeb ynddi?

3. *Mae yr Iachawdwriaeth yn destyn dyddordeb i'r angelion, am ei bod yn drefn i adfer dyn, yr hwn a bechodd, trwy gael ei demtio gan angel syrthiedig.* Gwyddai yr angelion pur a glân hanes cwymp dyn, yn ogystal a'r trueni amserol a thragywyddol yr aeth trwy bechod yn agored iddo. Yr oedd y ffaith mai angel syrthiedig fu yn offeryn i'w ddinystrio, yn naturiol yn cynyrchu tosturi yn mynwesau angelion sanctaidd tuag ato, a chydymdeimlad âg ef. Teimlent ei fod wedi cael anfantais—a hyny gan angel, ac ymawyddent yn ddiameu am ryw drefn i adfer iddo ei gyflwr a'i safle, ond iddynt hwy ymddangosai hyny yn anmhosibl. Felly, pan drefnodd Duw foddion i achub enaid colledig, ac a'i datguddiodd i angelion, diameu iddynt ganu yn bereiddiach, a gorfoleddu yn felusach nag erioed o'r blaen. A byth o hyny hyd yn awr "Y mae llawenydd yn ngwydd angelion Duw, am un pechadur a edifarhao." Mae iachawdwriaeth dyn yn beth mor bwysig yn nghyfrif yr angelion fel ag y mae yr arwydd gyntaf o'i adferiad yn destyn llawenydd a gorfoledd iddynt—gweled *un*, a gweled *edifeirwch* yn hwnw. Nid gweled pechadur yn ddiogel yn y nefoedd, ond gweled ynddo osgo i gychwyn tuag yno.

4. *Gallwn nodi eto, fod yr Iachawdwriaeth yn destyn dyddordeb i'r angelion, am ei bod y gallu cryfaf i atal lledaeniad pechod, ac i wrthweithio ei ddylanwad yn llyw-*

odraeth Duw. Pan dorodd pechod allan yn y dalaeth hon o ymerodraeth y Brenin Mawr, gan ei lwyr darostwng iddo ei hun, diameu y teimlai angelion yn bryderus rhag i'r haint ymledu, cyrhaedd eu talaeth hwy, a'i darostwng yn yr un modd. Wrth weled y creadur mawr, ac ardderchog, a greodd Duw ar ei lun a'i ddelw ei Hun, wedi ei darostwng, ai onid oedd yn naturiol iddynt bryderu am eu diogelwch eu hunain? Ai oni fyddai i ddiluw pechod orlifo dros y greadigaeth foesol a dinystrio paradwys pob byd o'i mewn? Pan bryderai engyl yn nghylch y pethau hyn, datguddiodd Duw iddynt drefn iachawdwriaeth pechadur, a galwai eu sylw oll ati, ac yn ei goleuni hi canfyddasant nad oedd pechod i gael ei ffordd. Cyfododd Duw wrthglawdd gras i dori grym ei dònau, ac i droi ei lifeiriant yn ol ar encil tragywyddol. Mae angau'r Groes rhwng pechod a'r nefoedd heddyw, ac ar ffordd Satan i feddianu yr un dalaeth arall yn llywodraeth foesol Duw. Cynwysa hyn sicrwydd i'r angelion o ddiogelwch eu hetifeddiaeth, ac na thorir eu perthynas â ffynhonell eu gwynfyd a'u dedwyddwch. Gan fod yr Iachawdwriaeth yn taflu goleuni iddynt ar gwestiynau mor bwysig i'w daioni eu hunain, pa ryfedd eu bod yn aros uwch ben, a'u gwynebau ar y drugareddfa, i fyfyrio rhyfeddodau trugaredd faddeuol cyfamod hedd y Duwdod, a gwyrthiau penaf daioni a chariad; sef geni Bethlehem, a marw Calfaria.

Dysgir fod holl bethau y drefn yn llawn dyddordeb i'r angelion, sef ymchwiliad y prophwydi, y gras a ddeuai, dioddefaint Crist, y gogoniant ar ol hyny, pregethiad yr Efengyl gan yr Apostolion, a gwaith yr Ysbryd yn ngoruchwyliaeth yr oll. Efrydant hwy ar wahan, ac yn eu cyd-berthynas â'u gilydd yn y gyfundrefn adferol, gyda dyddordeb anrhaethadwy. Golyga yr ymadrodd "*chwenychu*," edrych yn dreiddiol, a hyny gydag awyddfryd angherddol i ddeall ystyr a holl berthynasau y drefn. Os yw yr angelion yn teimlo y fath ddyddordeb yn y drefn sydd wedi ei sefydlu i'n hachub ni, pa faint mwy o ddyddordeb ddylem ni gymeryd ynddi?

IV. FOD YR IACHAWDWRIAETH YN DESTYN PROFIAD Y CREDADYN. "Gan dderbyn diwedd eich ffydd, sef iachawdwriaeth eich eneidiau."

Braint yr ychydig oedd cael bod yn brophwydi, ac yn Apostolion i ragfynegu a chyhoeddi yr iachawdwriaeth; ond y mae profiad o nerthoedd adferol y drefn yn rhagorfraint y credinwyr yn gyffredinol. Mae iachawdwriaeth yn ffaith yn eu hanes hwy ac yn wirionedd yn eu profiad. Nid yw iachawdwriaeth fel darluniau ar ganfas, megys yr oedd yn nghysgodau yr Hen Oruchwyliaeth, nac ychwaith yn ddatguddiad mewn geiriau fel ag y mae yn y Beibl ond o ychydig werth oni cheir hi mewn profiad.

1. *Sylweddolir yr Iachawdwriaeth mewn rhyddhad ysbrydol.* "Iachawdwriaeth eich eneidiau." Gwnaeth pechod ddinystr ofnadwy ar yr enaid—gwnaeth gaethwas ohono i'w amcanion a'i wasanaeth ei hun. Dygodd ddirywiad i mewn i'w holl alluoedd disglaer a'i gynheddfau ardderchog, ac yn y diwedd rhwymodd ef yn rhaffau ei anwiredd ei hun. Darostyngodd y creadur ardderchog oddiar yr Orsedd i'r llwch, gan ei adael yn bentwr o adfeilion. Ond y mae yn yr iachawdwriaeth gyfaddaster i'w adfer yn ol i'w ogoniant. Medr maddeuant gras ddryllio yr holl gadwynau yn chwilfriw mân, a rhyddhau yr enaid oddiwrth ddeddf pechod a marwolaeth. Dylem gofio, hefyd, fod y corph yn myned i fyny neu i lawr yn ol y cyfeiriad a gymer yr ysbryd, ac felly y mae iachawdwriaeth enaid o angenrheidrwydd yn ol natur pethau yn llywodraeth Duw, yn cynwys iachawdwriaeth y corph.

2. *Fod yr Iachawdwriaeth i'w sylweddoli trwy ffydd.* "Gan dderbyn diwedd eich ffydd." Ffydd ydyw amod mawr iachawdwriaeth, oblegid trwyddi hi yn unig y gellir cymdeithasu â'r anweledig, a thynu allan o Grist y nerthoedd adferol yn llifeiriant o rinwedd meddyginiaethol, nes cael profiad o'r iachawdwriaeth yn holl gyflawnder eu bendithion. Hi ydyw cyrchnod ffydd. I dderbyn hon y cychwynodd ar ei gyrfa ysbrydol, ac a redodd mewn amynedd. Dechreuad eu

ffydd oedd ufudd-dod i'r alwad dwyfol, cynydd eu ffydd oedd sylweddoliad o'r Gwaredwr anweledig a "diwedd eu ffydd, fydd iachawdwriaeth eu heneidiau." Dylem hefyd sylwi ar y gair "*derbyn*"—nid *taliad* o gyfiawnder, ond *gwobr* o ras. Mae yr iachawdwriaeth mor werthfawr fel nas gallwn ni byth ei haeddu trwy weithredoedd, ond gall Duw ei rhoddi yn wobr ffydd. Yn nydd yr adgyfodiad a'r farn y cymer hyn le.

Pwy na ryfeddai at "iachawdwriaeth gymaint?" Yn ei gwedd canfyddwn ddelw cariad anfeidrol, yn ei lleferydd clywn seiniau pereiddiaf cydymdeimlad a thrugaredd, ac yn ei bendithion canfyddwn ffrydiau gras yn afonydd dyfroedd byw mewn anialwch sych a lluddiedig. Yma canfyddwn y Brenin cyfiawn yn pardynu yr euog, a'r Tad sanctaidd yn cofleidio yr afradlon halogedig—golygfa â digon o ogoniant ynddi i loywi glesni y ffurfafen i fyny hyd at y drydedd nef, digon o lawenydd i lenwi holl dànau telynau y bydoedd â mawl a chlodforedd, a digon o gariad i gynhyrfu calon y cread i guro yn gyflymach mewn serch at Brynwr y byd. Am yr hon iachawdwriaeth, llenwir tragywyddoldeb â sain telynorion yn canu ar eu telynau, a byth nid anghofir y preseb, y groes, gorseddfainc y gras, a'r Person mawr, "yr Hwn wedi ei berffeithio, a wnaethpwyd yn awdwr iachawdwriaeth dragywyddol i'r rhai oll a ufuddhant iddo. A ydym ni yn waredigion yr iachawdwriaeth hon? "Pa fodd y diangwn ni, os esgeuluswn iachawdwriaeth gymaint?"

VI.

Y Cysamod Hedd.

"Eto cyfamod tragywyddol a wnaeth Efe a mi, wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr."—

DAFYDD.

CYFAMOD fy Nuw,
Cyfamod hedd yw,
Ac arno y pwysaf
  Tra byddaf fi byw;
Fe 'm cynal, mi wn,
Er trymed fy mhwn,
Cyfamod mor gadarn
  A'r Duwdod yw hwn.

Cyfnewid wna 'r byd,
A'r nefoedd y'nghyd,
Ond Dwyfol Gyfamod
  A erys o hyd;
Yn nyddd y farn brudd,
Mor felus a fydd,
Cael llŵ y Cyfamod
  Yn sylfaen i'm ffydd.

T. J. H.

Y Cyfamod Hedd.

"Canys fel dyfroedd Noah y mae hyn i mi: canys megys y tyngais nad elai dyfroedd Noah mwy dros y ddaear; felly y tyngais na ddigiwn wrthyt, ac na'th geryddwn. Canys y mynyddoedd a giliant, a'r bryniau a symudant: eithr fy nhrugaredd ni chilia oddiwrthyt, a chyfamod fy hedd ni syfl, medd yr Arglwydd sydd yn trugarhau wrthyt."—ESAIAH LIV. 9, 10.

YN rhan gyntaf pennod ein testyn, llefara yr Arglwydd am yr Eglwys fel ei briodasferch, ac yn y rhan olaf gesyd hi allan fel dinas. Trwy y gymhariaeth gyntaf, dangosir cariad Duw tuag at ei bobl, a thrwy yr ail, ei ofal am danynt a'i amddiffyniad drostynt. Felly gwelwn mai trwy yr undeb priodasol rhwng priodfab a phriodasferch y gosodir allan yr undeb sydd rhwng Duw a'i Eglwys. Y genedl Israel oedd ei ddyweddi y pryd hwn, ac wrthi hi y lleferir yma. Ond nid oedd y genedl hono amgen na chysgod o'r Eglwys fawr gyffredinol, yr hon a wneir i fyny o'r holl gredinwyr yn Nghrist.

Yn amser y prophwydi, edrychid ar genedl fel dyweddi ei Duw, a chymer Esaiah y syniad i fyny yn nechreu y bennod hon, a gesyd allan berthynas briodasol y genedl Israel â Duw trwy yr ymadroddion mwyaf serchus, tyner, a lledneis. Adgofia yr Arglwydd i'r genedl ei chyflwr darostyngol, cystuddiol, a gwrthodedig yr oedd hi ynddo pan ei dewisodd yn ddyweddi—"Canys dy briod yw yr hwn a'th wnaeth (Arglwydd y lluoedd yw ei enw); dy Waredydd hefyd, Sanct Israel, Duw yr holl ddaear y gelwir Ef. Canys fel gwraig wrthodedig, a chystuddiedig o ysbryd, y'th alwodd yr Arglwydd, a gwraig ieuenctid, pan oeddyt wrthodedig, medd dy Dduw" (adn. 5, 6). Yr hyn a'n syna yma ydyw annheilyngdod yr Eglwys

o anrhydedd mor fawr a chael ei dewis yn ddyweddi i "Dduw yr holl ddaear." Sonir llawer am briodas serch, y naill yn priodi y llall o gariad pur at eu gilydd. Ond gwaith Duw yn ymbriodi â'r Eglwys ydyw, yr engraifft amlycaf yn bod o hyn. Nid oedd ganddi hi na phrydferthwch na ffafr, na dim i fod yn gynysgaeth i'w phriod. Priodas trugaredd ydyw cyfamod Duw a'i bobl. Prawf o serch mawr oedd iddo ei charu yn ei chyflwr gwrthodedig, ei chasglu â mawr drugareddau, trugarhau wrthi â thrugaredd dragywyddol, ac yna ei sicrhau o sefydlogrwydd ei gyfamod priodasol â hi. Sylwn ar

SEFYDLOGRWYDD CYFAMOD DUW A'I BOBL.

Cyfarfyddwn â'r ymadrodd "Cyfamod" yn fynych yn y Beibl, a golyga ymrwymiad rhwng Duw a dynion, neu rhwng dynion â'u gilydd. Cyfamod rhwng Duw a'i bobl sydd yn ein testyn, sef ymrwymiad Duw i fod yn ffyddlon i'w addewidion. Dysgir am ddau gyfamod yn yr Ysgrythyrau, sef "Cyfamod Gweithredoedd" a "Cyfamod Gras." Termau duwinyddol ydynt. Wrth y cyntaf y golygir,—ymrwymiad Duw i roddi bywyd tragywyddol i ddyn ar yr amod o'i ufudd-dod i'w orchymynion. Ac wrth y llall y golygir,—ymrwymiad Duw i roddi bywyd tragywyddol i bawb a gredant yn Nghrist. Mater o hawl ar sail haeddiant ufudd-dod oedd bywyd tragywyddol yn ol y cyntaf, ond mater o ras ar sail haeddiant aberth ydyw yn ol yr ail. Ufudd-dod oedd amod y cyntaf, ond ffydd yw amod yr ail.

Dysgir yn yr Ysgrythyrau, fod cyfamod yn cael ei wneyd rhwng Duw a dyn, ac arwyddlun y cyfryw yn ein testyn yw "priodas," a thrwyddo rhoddir ar ddeall fod rhwymyn yr undeb sydd rhwng Duw a'i bobl yn y Cyfamod Gras, yn cyfateb mewn rhyw bethau i rwymyn yr undeb rhwng priodfab a phriodasferch yn y cyfamod priodasol.

I. RHAGORIAETH CYFAMOD DUW A'I BOBL AR GYFRIF EI NATUR. "Fy Nhrugared," "Cyfamod fy Hedd."

1. *Ei fod yn Gyfamod i heddychu dyn â Duw.* "Cyfamod fy hedd." Yr ymadrodd gwrthgyferbyniol i *heddwch* ydyw *rhyfel*, a darpariaeth ydyw y cyfamod hwn i sefydlu heddwch rhwng pleidiau sydd mewn rhyfel â'u gilydd. Mae dyn fel pechadur yn wrthryfelwr yn erbyn Duw. Magodd pechod elyniaeth yn ei galon tuag ato, a chyfododd y creadur mewn gwrthryfel yn erbyn y Creawdwr. Pa mor uchel bynag ydyw safle gymdeithasol dynion, a diwylliedig eu meddyliau, eto y mae yn eu calonau elyniaeth yn erbyn Duw. Tŷr hon beunydd i'r golwg yn anufuddod dynion i orchymynion Duw, a'u hanffyddlondeb i'w rhwymedigaethau iddo. Ac os nad ydym yn ufuddhau i Dduw, yna yr ydym yn elynion iddo mewn meddwl a gweithred. Ond trefnodd Duw gyfamod, ac yn ol darpariadau hwn, symudir yr holl anhawsterau i ddyfod i gymod â'r gwrthryfelwr, ac i wneuthur heddwch âg ef. A phan y mae Duw a phechadur yn ymgymodi, maent mewn heddwch gwirioneddol â'u gilydd. Nid heddwch ar bapur mohono, ac nid oes eisiau byddin o filwyr i'w ddiogelu. Heddwch ar bapur, i fesur mawr, ydyw yr un sydd rhwng teyrnasoedd â'u gilydd. A heddwch yn cael ei gadw gan filwyr a heddgeidwaid ydyw yr heddwch rhwng Lloegr â rhai Talaethau o'i Llywodraeth, a hyny am y rheswm fod yr elyniaeth yn aros yn fyw. Nid oes gwir heddwch yn un man, os yw yr elyniaeth yn aros. Ond yn narpariadau y Cyfamod Hedd, y mae moddion wedi ei drefnu i ladd yr elyniaeth. Mae angau y groes yn angau i'r elyniaeth sydd yn nghalon y pechadur. "Ac a ddirymodd trwy ei gnawd ei hun y gelyniaeth." "Ac fel y cymodai y ddau â Duw yn un corph trwy y groes, wedi lladd y gelyniaeth trwyddi hi" (Ephes. ii. 15, 16).

Y Tad sydd yn gwneuthur heddwch â'r gwrthryfelwr trwy y Mab, ac y mae yr heddwch hwn yn cynwys cydnawsedd teimladau—y pechadur cymodedig yn teimlo tuag at Dduw, fel y teimla Duw tuag ato yntau. Dyma drefn y cymod o ymheddychu.

2. *Canfyddwn hefyd ei fod yn Gyfamod Gras.* "Fy nhrugaredd ni chilia oddiwrthyt." Ni welwyd erioed gyfamod hedd yn cael ei ddwyn oddiamgylch fel hwn. Efe, yr hwn a dderbyniodd y cam, sydd yn darparu yr Iawn, trwy yr hwn yr heddychir âg ef, y rhai a wnaethant y cam. Yma y mae holl foddion yr heddychiad, yn ddarparedig gan y Person mawr y gwrthryfelwyd yn ei erbyn. "Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd Efe ei unig-anedig Fab" (Ioan iii. 16). Dyna ydyw gras—cariad yn trugarhau. Mae y cyfamod rhyfedd hwn wedi tarddu o gariad at yr anhaeddianol. Yn wir, trefn trugaredd ydyw y "Cyfamod Hedd." Pa beth bynag a ddarparwyd ar ein cyfer yn y Cyfamod hwn, ceir y rheswm am y cwbl yn y geiriau cynwysfawr, "medd yr Arglwydd sydd yn trugarhau wrthyt." Sylwch fel y lleferir yn y bennod hon am fawredd trugaredd Duw o'i chyferbynu â'i lid a'i soriant. *Ychydig* soriant, ond *mawr* drugareddau. Soriant ddim ond dros *enyd awr;* "ond â thrugaredd dragywyddol y trugarhaf wrthyt, medd yr Arglwydd."

II. RHAGORIAETH CYFAMOD DUW A'I BOBL AR GYFRIF EI SEFYDLOGRWYDD. "Fy nhrugaredd ni chilia oddiwrthyt, a chyfamod fy hedd ni syfl."

1. *Sefydologrwydd y Cyfamod yn ngoleuni cymhariaethau natur.* "Canys y mynyddoedd a giliant, a'r bryniau a symudant," "Canys fel dyfroedd Noah y mae hyn i mi," &c.

Defnyddir yma ddwy gymhariaeth i osod allan sefydlogrwydd trugaredd a chyfamod Duw, sef cadernid y mynyddoedd, &c., a bytholrwydd yr enfys.

1. *Defnyddir y mynyddoedd a'r bryniau fel cymhariaeth i osod allan sefydlogrwydd trugaredd a Chyfamod Duw.* "Canys y mynyddoedd a giliant, a'r bryniau a symudant." Un o ddeddfau anwrthwynebol y greadigaeth naturiol ydyw, cyfnewidioldeb—deddf ag y mae pob peth anianyddol yn gorfod plygu a talu gwarogaeth iddi. Mae rhyw gilio a symud yn nodweddu pob peth

a berthyn i'r byd hwn. Pe buasai rhywbeth yn sefydlog, ai onid y mynyddoedd a'r bryniau a fuasai felly? Dyrchefwch eich llygaid tua'r mynyddoedd, ac edrychwch ar y bryniau. Ymddyrchafant i'r cymylau, ac ymgynadleddent megys â ser y nefoedd. Ai oni chanfyddir delw dwyfoldeb arnynt? "Yr hwn a sicrha y mynyddoedd trwy ei nerth, ac a wregysir â chadernid" (Psal. lxv. 6). Y fath arddangosiad o sefydlogrwydd ydyw y mynyddoedd. Sylwch ar eu clogwyni agenog, y rhai a gurwyd â stormydd llawer oes. Ond daliasant y cwbl am eu bod yn gorphwys ar sylfeini y ddaear. Gwelodd y mynyddoedd a'r bryniau eni cenhedlaeth ar ol cenhedlaeth, a canfyddasant y naill ar ol y llall yn diffygio ac yn pallu. Aroshasent hwy yn dystion o ffeithiau hanesiaeth yr oesau. Gwelsant ddinasoedd mawrion yn cael eu hadeiladu, ac ymerodraethau cryfion yn cyfodi, ac wedi hyny yn diflanu. Nid yw oes dyn ond megys eiliad o'i chymharu âg oes y mynyddoedd a'r bryniau, ïe, dim ond *bachigyn*. Yn yr ystyr hon, nid rhyfedd os gelwir hwy "y mynyddoedd tragywyddol, a'r bryniau oesol." Ond pan y codwn ein golygon i fyny trwy ffydd i edrych i'r ysbrydol, canfyddwn yno drugaredd a Chyfamod Duw, ac yn ymyl tragywyddolrwydd y rhai hyn, nid yw y mynyddoedd a'r bryniau ond er doe, ac erbyn yfory byddant wedi diflanu. "Y mynyddoedd a giliant, a'r bryniau a symudant."

Defnyddir y mynyddoedd a'r bryniau yn fynych fel arwyddluniau o nerth a chadernid. Yn yr ystyr hon gelwir ymerodraethau a theyrnasoedd y ddaear yn fynyddoedd, ond er hyny cilio a symud y mae y naill ar ol y llall. Hanes y cwbl a welir yw cyfnewid, cilio, a diflanu. Am ddim ar a wyddom ni na bydd i Dduw ryw ddiwrnod orchymyn i *anfod* y bydoedd a orchymynodd i *fod* tawy air ei nerth. Nid oes na bryn na mynydd, na byd yn y greadigaeth faterol, yn anghyfnewidiol. Nid aeth Duw erioed ar ei lw i barhau bodolaeth yr un ohonynt yn oes oesoedd. Ond nid felly y Cyfamod a drefnodd Efe "cyn sylfaenu y mynyddoedd" a'r drugaredd oedd yn bod "flaen y

bryniau." Erys Cyfamod Duw wedi i'r mynyddoedd gilio ac i'r bryniau oll symud. Ha, fy enaid, cyfamod dianwadal gyferfydd dy angen di a minau.

2. *Gosodir allan sefydlogrwydd trugaredd a Chyfamod Duw trwy ein cyfeirio at yr Enfys, sef arwydd Cyfyamod Duw â Noah.* "Canys fel dyfroedd Noah y mae hyn i mi." Penododd Duw yr Enfys yn arwydd o'i Gyfamod â Noah, sef o'i ymrwymiad na foddid y byd mwy. "Fy mwä a roddais yn y cwmwl, ac efe fydd yn arwydd cyfamod rhyngof fi a'r ddaear." "Ac ni bydd y dyfroedd yn ddiluw mwy" (Gen. ix. 13, 15). Gwnaeth Duw Gyfamod â Noah, ac nid yn unig cadarnhaodd ef â llŵ, ond gwnaeth fwy,—dewisodd un o wrthrychau prydferthaf natur yn arwydd gweledig yn mhob oes ohono. Ac yn ngoleuni dysgeidiaeth ein testyn, canfyddwn fod arwydd y Cyfamod â Noah, hefyd, yn arwydd y Cyfamod Hedd. Edrychwch ar yr Enfys, a chwi a welwch fwä Duw, yn fwä heb lidiowgrwydd ynddo. Nid oes iddo linyn, ac nid oes arno saeth. Ac heblaw hyny, gorphwys ei ddau ben ar y ddaear, ac felly ar i fyny y mae ei gyfeiriad. Pe buasai iddo linyn a saeth, i fyny, ac nid i lawr, yr ehedasai. Ac fel yr oedd yr Enfys yn darostwng ofn meibion Noah pan welent y cwmwl du, felly, eto, pan edrychwn ninau arni, dylai ein hofnau ffoi a'n amheuon ddiflanu, oblegid y mae ei hymddangosiad yn ein sicrhau fod Duw yn cofio ei gyfamod â ni.

Ac heblaw hyn, rhagora yr Enfys fel arwydd ar y mynyddoedd a'r bryniau, oblegid y mae amser yn eu hacru ac yn eu heneiddio hwynt. Ond am yr Enfys, nid yw amser a'i gyfnewidiadau wedi effeithio dim arni hi. Mae ei lliwiau mor loyw heddyw ag yn nyddiau Noah, ac arhosant felly hyd y dydd diweddaf. Dengys hyn fod yn perthyn i'r Enfys anghyfnewidioldeb llawer uwch nag eiddo y mynyddoedd a'r bryniau, sef anghyfnewidioldeb ieuenctyd na heneiddia. Ond y mae dydd yn d'od pan ddiffydd yr haul, ac y sychir y cymylau o'r nefoedd, ac ni bydd Enfys

mwyach. "Eithr fy nhrugaredd ni chilia oddiwrthyt, a chyfamod fy hedd ni syfl, medd yr Arglwydd, sydd yn trugarhau wrthyt."

3. *Sefydolgrwydd y Cyfamod yn ngoleuni tystiolaeth, addewid, a llw Duw.* "Medd yr Arglwydd," "Felly y tyngais," &c.

(1.) *Tystiolaeth Duw.* "Medd yr Arglwydd." Beth yw y dystiolaeth a dystiolaetha yr Arglwydd am ei drugaredd a'i Gyfamod? Dyma hi: "Ond fy nhrugaredd ni chilia oddiwrthyt, a chyfamod fy hedd ni syfl, medd yr Arglwydd, sydd yn trugarhau wrthyt." Duw ydyw yr unig dyst ellir ei gael ar y cwestiwn hwn. Gŵyr Ef fwriadau ei gyngor, ac ni phalla hyd oni sylweddolir, ac y dygir yr oll o honynt i ben. Mae Efe yn dyst o ymddiried, a hyny am ddau reswm. Yn gyntaf, am ei fod yn gwybod y gwirionedd; yn ail, am ei fod yn ffyddlon i'w fynegu. Felly, yn ngoleuni tystiolaeth Duw ni raid i ni betruso yn nghylch sefydlogrwydd y Cyfamod.

(2.) *Addewid Duw.* Mae y Cyfamod, yn ol addewid Duw, yn anghyfnewidiol—"Ni syfl." Yr oedd yn garedigrwydd mawr yn Nuw i dystiolaethu am ei Gyfamod, a thrwy hyny ei ddatguddio i ni. Ond y mae ei addewid yn cynwys mwy na hyn, sef ei fod yn ymrwymo i'w Air. Dyna ydyw addewid, y naill yn ymrwyo i roddi, neu i wneuthur rhywbeth i arall. Addawa Duw yn ein testyn, y bydd ei drugaredd a'i Gyfamod yn ddigyfnewid. Nid addewid am drugaredd a Chyfamod sydd yma, ond addewid y bydd iddynt aros byth, er i bob peth gweledig gilio a symud. Y mae *trugaredd* a *Chyfamod* yn addewidion Duw, "A mi a wnaf gyfamod tragywyddol â chwi, sef sicr drugareddau Dafydd" (Esaiah lv. 3). "Cadwaf iddo fy nhrugaredd yn dragywydd, a'm cyfamod fydd sicr iddo." "Ni thoraf fy nghyfamod, ac ni newidiaf yr hyn a ddaeth allan o'm genau" (Psal. lxxxix. 28, 33, 34). Ni phalla gair addewid Duw yn oes oesoedd. "Nef a daear a änt heibio, eithr fy ngeiriau i nid änt heibio ddim" (Matt. xxiv. 35). Y peth mawr mewn

tystiolaeth yw *gwirionedd*, ond y peth mawr mewn *addewid* yw *ffyddlondeb*.

(3.) *Llw Duw.* "Canys megys y tyngais nad elai dyfroedd Noah mwy dros y ddaear, felly y tyngais na ddigiwn wrthyt, ac na'th geryddwn." At ei dystiolaeth a'i addewid, ychwanegodd Duw ei lŵ. Llŵ ydyw y sicrwydd uchaf ellir roddi o wirionedd tystiolaeth. Yr oedd y Cyfamod yn ddigyfnewid, yn ol tystiolaeth ac addewid Duw, ond i roddi sicrwydd uwch aeth ar ei lŵ, na newidia yr hyn a ddaeth allan o'l enau. Mae holl lwon Duw yn ol tystiolaeth y Beibl yn gysylltiedig â phethau mawrion ei gyfraith a'i Gyfamod. Gyda golwg ar hyn y tyngodd i Noah, Abraham, Moses, Dafydd, ac i bawb o feibion dynion.

Fel y nodwyd yn barod, cyfamod priodasol rhwng Duw a'i bobl ydyw hwn, ac nid oes allu ar y ddaear nac yn uffern fedr ddatod ei rwymau. Hyd oni wahano angau y gwneir cyfamod priodasol rhwng plant dynion, ond mae Cyfamod Duw â'i bobl i barhau yn dragywyddol. Dro yn ol yr oedd gwraig dduwiol yn nychu yn rhosydd Moab, am yr afon a Gwlad yr Addewid. Pan deimlodd fod awr ei hymddatodiad wedi dyfod, galwodd ei phriod ati, tynodd ei modrwy oddiam ei bŷs eiddil, ac estynodd hi iddo, gan ddywedyd,—"Yr wyf yn dychwelyd y fodrwy hon i chwi heddyw, oblegid mae angau yn diddymu y cyfamod a wnaethom â'n gilydd ar ddydd ein priodas; ond y mae y cyfamod priodasol a wnaethum â'r Iesu pan nad oeddwn ond geneth ieuanc ar aelwyd fy rhïeni, yn dal."

Diolch am y Cyfamod Hedd. Ddarllenydd, a wyt ti yn ei rwymau?

"Fynhonell y cariad tragywyddol—
Hen gartref meddyliau o hedd;
Dŵg finau i'r unrhyw Gyfamod,
Na thorir gan angau na 'r bedd."

VII.

Troellau y Grochenydd.

"Wele, megys ag y mae y clai yn llaw y crochenydd, felly yr ydych chwithau yn fy llaw i."—JEHOFAH.

AR droellau 'r ŷ'm, holl deulu 'r llawr,
Tra yma, 'n myd y cystudd mawr;
Dan law 'r Crochenydd Dwyfol:
Eu gweithrediadau 'n ddirgel sydd,
Gyflymed eu troiadau rhydd,
I'n ffurfio fel y nefol;
Y troellau sydd,
Yn troi bob dydd;
A hardd-deg fydd
Ein ffurf a'n llun,
Os daliwn ar y troellau 'n trin.

Mae yn y troellau gyfrin rîn,
I'n gweithio ni, sy 'n glai dilun;
Yn llestri glân trugaredd:
Ond os difwyno arnynt wnawn,
Fel methiant llwyr ein dryllio gawn,
Gan rym ein drygfawr gamwedd:
Y troellau dry,
I'n ffurfio ni,
Aflunaidd lu,
Trwy Ddwfol ddawn,
Ar lun a delw Duw yn llawn.

Gwaith y Crochenydd ddaw i ben,
Ar bawb ohonom is y nen;
A llestri parch brydferthir:
A'r gemau brynwyd ar y Groes,
Gan Iesu Grist trwy angau loes;
A gwaith ei ras orphenir;
Am y troellau,
A'u troiadau,
Ein caniadau
Yn dragywyddol
Seiniwn i'r Crochenydd Dwyfol.

T. J. H.

Troellau y Crochenydd.

"Yna mi a aethum i waered i dŷ y crochenydd, ac wele ef yn gwneuthur ei waith ar droellau."—JER. XVIII. 3.

YN y paragraph cyntaf o'r bennod hon, gosodir ger ein bron hawl a threfn Duw i gario allan weinyddiad ei oruchwyliaethau tuag at ddynion. Rhoddwyd mynegiad i'r gwirionedd hwn yn niwedd y bennod o'r blaen; ond ymddengys nad oedd Jeremiah yn gallu synio yn briodol am dano, nac yn ei ddeall yn y goleuni yr ewyllysiai Duw iddo wneyd. Ac felly, er cael goleuni pellach ar y gwirionedd a'i ddeall yn well,—"Y gair hwn a ddaeth at Jeremïah oddiwrth yr Arglwydd, gan ddywedyd, cyfod, a dos i waeryd i dŷ y crochenydd, ac yno paraf i ti glywed fy ngeiriau." Dysg hyn fod y goruchwyliaethau dynol yn arwyddluniau o'r rhai dwyfol, a bod modd dyn o weithredu dan rai amgylchiadau yn gyffelybiaeth o fodd Duw o wneyd. Mae natur a chelf yn llawn o gyffelybiaethau, y rhai yn llaw y galluog a'r athrylithgar, a wasanaethant yn ardderchog i ddysgu y goruwchnaturiol a'r ysbrydol. Wedi i'r prophwyd fyned i dŷ y crochenydd, canfyddodd ef wrth ei waith, ac yn ei wneuthur ar droellau. At hyny, canfyddai mai yn ol cyngor ei ewyllys ei hun y penderfynai faint a ffurf, yn gystal a chylch gwasanaeth pob llestr a weithiai. Ac yn hyn, yn benaf, y parai yr Arglwydd i Jeremïah glywed ei eiriau. "Yna daeth gair yr Arglwydd ataf, gan ddywedyd, oni allaf fi, fel y crochenydd hwn, wneuthur i chwi, tŷ Israel, medd yr Arglwydd. Wele, megys ag y mae y clai yn llaw y crochenydd, felly yr ydych chwithau

yn fy llaw i tŷ Israel." Y gwirioneddau a ddysgir i'r prophwyd, ac a ddysgir i ninau, trwy ddameg y crochenydd ydyw, *Hawl a threfn Duw i gario allan ei fwriadau tuag at ddynion.*

I. HAWL DUW I GARIO ALLAN EI FWRIADAU TUAG AT DDYNION. "Oni allaf fi, fel y crochenydd hwn, wneuthur i chwi, tŷ Israel?"

Dengys Duw yma i'r prophwyd fod ei hawl ef i ymddwyn tuag at ddynion, yn cyfateb mewn rhyw ystyr i hawl y crochenydd i benderfynu tynged y clai a osodai ar ei droellau. Yn ngwyneb hyn, y cwestiwn yw,—"Pa fodd y mae dynion yn llaw Duw, fel y clai yn llaw y crochenydd?" Ateb,—"Am fod hawl Duw yn ei berthynas â dynion yn cyfateb i hawl y crochenydd yn ei berthynas â'r clai yn y pwyntiau hyny ag y mae y materol a'r moesol yn cyfateb i'w gilydd." Ergyd y gyfatebiaeth yw,—Mai fel ag yr oedd gan y crochenydd hawl i benderfynu llestr o ba ffurf, o ba faint, ac i ba wasanaeth oedd y clai i gael ei wneyd, felly fod gan Dduw hawl i ymddwyn tuag at ddynion yn ol cyngor ei ewyllys ei hun; ac yn awr cawn ymofyn,—Pa fath hawl ydyw?

1. *Mae yn hawl benarglwyddiaethol.* Y Penarglwydd yw Efe, ac felly medda hawl i weithredu yn annibynol, ac heb fod yn gyfrifol i neb. Gweithreda yn aml yn hollol *ddiamodol*, ond bob amser yn gyson âg egwyddorion tragywyddol moesoldeb, ac felly, o angenrheidrwydd, yn *rhesymol.* Fel ag yr oedd gan y crochenydd hawl i wneyd o'r un telpyn clai un llestr i wasanaeth *uwch*, ac arall i wasanaeth *is;* felly medda Duw hawl gyffelyb i ffurfio o'r un ddynoliaeth rai i wasanaeth uwchraddol, ac eraill i wasanaeth israddol. Yn rhinwedd ei safle ddyrchafedig fel Goruchel-Lywydd y cread, medda hawl i weithredu fel hyn. Nid yw Efe o dan rwymau o gwbl i osod yr un anrhydedd ar bawb. O'i Benarglwyddiaeth ei Hun y creodd Efe bob un o feibion dynion, ac y penderfynodd rif a maint eu talentau, yn ogystal ag adeg eu hymddangosiad ar chwareufwrdd amser.

2. *Mae yn hawl gysylltiedig â gallu.* Ni fuasai gan Dduw hawl i fod yn Benarglwydd, oni buasai fod ganddo *allu* i gario allan ei fwriadau penarglwyddiaethol. Bôd yn meddu ar feddwl i gynllunio ac i fwriadu, ond yn amddifad o allu i gario allan ei gynlluniau a'i fwriadau nis gallasai fod yn Benarglwydd. Ond y mae hawl Duw i gynllunio a bwriadu yn gysylltiedig â *gallu* i ddwyn y cyfryw i ben. "Fy nghynghor a saif, a'm holl ewyllys a wnaf."

3. *Mae yn hawl a gyfreithlonir gan ddaioni ei hamcanion.* Nis gallai bôd â'i holl amcanion yn ddrwg byth feddu hawl i fod yn Benarglwydd. Ond am Dduw, dywedir "Da ydwyt, a daionus" (Psal. cxix. 68). "Nid oes neb yn dda ond un, sef Duw" (Luc xviii. 19). Cynhyrfir Duw i weithredu yn holl oruchwyliaethau ei Ben-arglwyddiaeth gan anfeidrol ddaioni, a chyfarwyddir ef gan anfeidrol ddoethineb. Pa mor lym bynag yw goruchwyliaethau Duw tuag at ddynion pechadurus a gwrthnysig, y maent felly am eu bod yn dda. Ni wnaeth Efe â neb erioed, ond *y peth goreu iddo;* ac o bob peth amlwg yn mhenarglwyddiaeth Duw, y peth amlycaf ydyw ei *graslonrwydd*—Penarglwyddiaeth ydyw sydd ar bob pryd ar ei holl egni i *wneyd y goreu o'r* gwaethaf.

4. *Mae yn hawl a'i hawdurdod yn ddiamheuol a therfynol.* Hon ydyw awdurdod y bersonoliaeth berffeithiaf, y cymeriad puraf, a'r swyddogaeth uchaf mewn bod. Dyma yr awdurdod y rhaid i bob awdurdod arall blygu i'w ddyfarniad, a chan mai efe yw yr awdurdod safonol a therfynol, nid oes apelio oddi wrtho i fod.

II. TREFN DUW I GARIO ALLAN EI FWRIADAU TU AG AT DDYNION. "Ac wele ef yn gwneuthur ei waith ar droellau."

Byddai yn fanteisiol i ni fyned i ganlyn Jeremiah i dŷ y crochenydd, er cael golwg ar y drefn, yn ol yr hon y gweithiai y clai yn llestri. Eisteddai ar fainc, ac o'i flaen y droell ar yr hon y gweithiai. Gwelwn yno

hefyd y clai, o'r hwn y cymer ran gan ei osod ar olwyn uchaf y droell. Yna dechreua weithio y clai yn llestr, gan roddi iddo y ffurf a ddewisa yn ol ei ewyllys ei hun. Ond difwyna y llestr yn llaw y crochenydd oherwydd rhyw ddiffyg yn y clai, ac yn y fan cyfnewidiodd ei feddwl gyda golwg arno. Cura y llestr yn ol i fod eto yn delpyn afluniaidd o glai, ac ä rhagddo i'w weithio yn llestr o ffurf arall, ac i ddyben gwahanol.

Ond beth bynag oedd y cynllun yn meddwl y crochenydd i wneyd llestr o'r clai, eto ar y troellau y gweithiai. Nid oedd yn ei dŷ yr un telpyn o glai wedi ei wneyd yn llestr ond ar droellau. Mewn ystyr ffugyrol, gellir dywedyd fod Duw yn Grochenydd, a bod ganddo yntau ei droellau, ar y rhai y gwna ei waith. Weithiau personau, bryd arall cenhedl, ydyw y clai a osoda arnynt, a'i amcan ydyw eu gwneyd oll yn llestri o wasanaeth yn ei dŷ ysbrydol a gogonedus.

Dengys hyn i ni mai trwy foddion y troellau, sef ei wahanol oruchwyliaethau tuag at ddynion y gwna y Crochenydd mawr ei waith. Gellir edrych ar Raglun-iaeth fel troell, o lawer o fân rodau, ac ynddi—

"Mae rhod mewn rhod yn troi,
Uwch ein hamgyffred ni."

Rhodau y droell hon ydynt yr amgylchiadau y cawn ein hunain mor fynych ynddynt. Mae troiadau y droell weithiau mor gyflym a chwyrnellog, fel y rhaid wrth hunan-feddiant pwyllog a gwroldeb mawr i sefyll arni; ond ni raid ofni, oblegid megys ag y mae llaw y crochenydd rhwng y llestr sydd ar y droell a'r ymyl, felly y mae llaw fawr Hollalluog Duw rhwng y sawl sydd ar droell Rhagluniaeth a'r dyfnder ofnadwy islaw. Gweithia y Crochenydd Dwyfol llestri ardderchog ar droellau rhyfedd iawn. Ar droell caethwasiaeth y gweithiwyd Joseph yn llestr mor hardd, ac ar droell tlodi y gweithiwyd Lazarus yn llestr mor brydferth fel ag y teimlai angelion Duw hi yn fraint i gymeryd y gofal o'i drosglwyddo i ddiogelwch y nef. Gosodir pob un ohonom ninau ar ryw

droell er ein gweithio yn llestri o wasanaeth i Dduw. Pan lefarodd y Prophwyd ein testyn yr oedd y Genhedl Israel wedi cael ei gosod gan Dduw ar droell y gaethglud yn Babilon. Aeth yn fethiant ar droell ordinhadau crefydd yn Ngwlad y Synagogau a'r Deml.

Mae tynged derfynol dynion yn ymddibynu ar eu hymddygiad yn ngwyneb goruchwyliaethau Duw tuag atynt. Yr oedd bod yn llestr i barch yn ymddibynu ar i'r clai ddal y driniaeth ar y troellau. Felly gyd â ninau; os na ddaliwn y driniaeth pan ar droellau Duw nis gallwn fod yn llestri o wasanaeth uwchraddol yn ei dŷ. Mae hyn yn wir am ddyn yn mhob cylch. Gosodir ef ar droellau dynol. Anfonir y bachgen i'r ysgol, ac yno rhoddir ef dan arholiad ar ol arholiad. Pa beth yw hyn ond ei osod ar droellau i'w brofi a'i weithio yn llestr i wasanaeth? Wedi hyny rhwymir ef yn egwyddor-was; a beth yw hyny ond ei osod ar droell galwedigaeth i'w brofi pa fath glai ydyw, a'i ffurfio ar gyfer cylch gwasanaeth mewn bywyd? Pwy ydynt y dynion uchaf eu hanrhydedd a mwyaf eu clod mewn byd ac Eglwys heddyw? Dynion a ddaliasant y prawf a'r driniaeth pan ar y troellau, ac a ddaethant allan yn llestri i barch. O'r ochr arall, pwy ydynt gardotwyr y wlad, a phwy a lusgir gerbron brawdlysoedd, ac a fwrir i garcharau? Y rhai a ddifwynasant ar y troellau, ac na ddaliasant o dan driniaeth y prawf. Gwylia llygad cymdeithas bawb ohonom pan ar y troellau, a'r modd y daliwn y driniaeth sydd yn penderfynu ein *reputation* yn marn y cyhoedd.

1. *Amcan goruchwyliaethau Duw tu ag atom ydyw ein gwneyd yn llestri i barch.* Syniad na choleddir gan neb yn awr ydyw, fod Duw wedi creu dynion er dangos ei allu yn eu dinystr. Mae yn wir y dywed yr Apostol Paul, "Onid oes awdurdod i'r crochenydd ar y priddgist, i wneuthur o'r un telpyn pridd un llestr i barch, ac arall i anmharch?" Ond nis gwllwn dderbyn y syniad fod y crochenydd yn gwneyd llestri i'w dinystrio a'u anmharchu. Y meddwl yw, ei fod

yn gwneyd o'r un telpyn pridd un llestr i wasanaeth uwch, ac arall i wasanaeth îs—ond pob un yn llestr i wasanaeth. Ni osododd y Crochenydd Dwyfol neb erioed ar ei droellau, ond er mwyn *gwneyd y goreu ohono.*

2. *Bydd golwg ogoneddus iawn ar y sawl a ddaliasant driniaethau goruchwyliaethau Duw, pan fydd y gwaith wedi ei orphen arnynt.* Y lle yr ymddengys pob llestr oreu, ydyw yn y cylch y bwriadwyd ef iddo. Byddai y badell bridd fawr o'i lle yn y *Drawing Room*, a'r *ornament* prydferth o'i le yn y gegin allan. Gwnaed un yn llestr i un amcan, a'r llall i amcan arall, ac yn ei gylch y mae y naill a'r llall o wasanaeth, ac yn y cylchoedd hyny y maent yn hardd. Parotoi "llestri trugaredd" y mae Duw yn awr, ac yn y man fe fydd yn ewyllysio "peri gwybod golud ei ogoniant arnynt." Gorphena Duw ei waith fel crochenydd cyn hir, peidia sŵn y troellau, am y byddant wedi sefyll; ond ni pheidia byth a dangos y gwaith a wnaed ar lestri trugaredd. Caiff Duw ei ogoneddu yn y rhai hyn, a bydd yn rhyfeddol ynddynt yn oesoesoedd. Ni bydd yn nhŷ y Crochenydd Dwyfol ond lestri gorphenedig, a'r oll wedi eu prydferthu yn ol "golud ei ogoniant" ef. "Llestri trugaredd" fydd rhyfeddodau penaf y nef, a chyd-una cerubiaid a seraphiaid i ogoneddu Duw ynddynt fel yr engreifftiau penaf o ddyfais cariad a gras. Wedi i'r troellau sefyll, ac i'w sŵn ddistewi, mynegir clodydd eu dwyfol rîn tra peri tànau telynau engyl a saint heb dreulio.

Bellach, cofiwn mai y modd y daliwn driniaeth y Crochenydd Dwyfol, a benderfyna ein tynged am byth. Peth ofnadwy ydyw i ddyn ddifwyno yn llaw Duw—ei holl oruchwyliaethau yn fethiant er ei gael i ateb dyben ei fodolaeth. Edrychwch ar yr engreifftiau a geir o hyn mewn hanesiaeth—Pharoah, Judas, a'r genedl Israel, a'r modd y difwynasant dan law y Crochenydd, ac y taflwyd hwy yn deilchion oddiar y droell i ddinystr. Gweddiwn na byddo felly yn ein hanes ni.

VIII.

Yr

Ymarweddiad Cristionogol.

"Gan adael i ni esiampl; fel y canlynech ei ol Ef."—PETR.

I ganlyn Crist, dy Ysbryd i mi rho
O Arglwydd Dduw;
Fy muchedd oll, tra yn y byd, a fo
O Sanctaidd ryw:
O tywys fi trwy'r anial ar fy nhaith
Mae'r llwybrau 'n gudd, a'r ffordd yn serth a maith.

Mewn cyfyng awr, a phoenus heintus bla,
O cymhorth fi;
I edrych fry, ar groes yr Iesu da
Ar Galfari;
Fel hyn trwy Grist, mi gaf fy llwyr iachau
O'm llygredd oll, ac hefyd fy nglanhau.

Ar ol cael hyn, fy ymarweddiad fydd
Yn wŷn a glân;
Mi rodia 'n mlaen o hyd, yn ngoleu ffydd,
A'r golofn dân;
Yr Iesu fel y mae gaf weled fry,
Ac fel Efe yn berffaith byddaf fi.

T. J. H.

Yr Ymarweddiad Cristionogol.

"Eithr chwychwi, nid felly y dysgasoch Grist; os bu i chwi ei glywed ef, ac os dysgwyd chwi ynddo, megys y mae y gwirionedd yn yr Iesu."—EPHES. IV. 20, 21.

PWNC yr Apostol yn ein testyn, yn ogystal ag yn yr adnodau cylchynol ydyw,—Yr Ymarweddiad Cristionogol. Yn gymaint a bod yr Ephesiaid wedi derbyn yr Efengyl, a'u hyfforddi yn ei hegwyddorion, gelwir arnynt i ddodi heibio yn hollol eu hen ddull o fyw, a hyny trwy ddiosg yr hen ddyn, a gwisgo y newydd. Yn mharagraph ein testyn, delir yr hen ddyn a'r newydd yn wrthgyferbyniol. Dysgir fod ymarweddiad y naill yn ymddieithriad oddiwrth fuchedd Duw, ac yn cael ei nodweddu gan ymroddiad i drythyllwch, ac i gyflawni pob aflendid yn un chwant, tra mae ymarweddiad y llall yn ymadnewyddiad yn ysbryd y meddwl, yn fywyd yn ol y cynllun dwyfol, ac felly yn ddadblygiad o ddwy briodoledd fawr gwirionedd yn ei ffurf foesol, y rhai ydynt hanfodol i fuchedd yn ol Duw, sef cyfiawnder a sancteiddrwydd.

Wrth edrych ar eiriau ein testyn yn ngoleuni yr adnodau o'u blaen ac ar eu hol, canfyddwn mai eu hamcan ydyw dangos perthynas ymarweddiad y credinwyr â'r person mawr sydd yn Athraw, yn gynllun, ac yn safon y fuchedd Gristionogol. "Eithr chwychwi," ebe'r Apostol, "nid felly y dysgasoch Grist." "Nid felly," sef fel ag i fyw megys ag yr oedd y Cenhedloedd yn gwneyd, trwy rodio yn oferedd eu meddwl. Yr oeddynt hwy wedi dysgu Crist fel ag i fyw yn ol Duw, ac nid yn ol cynllun a safon y bywyd Paganaidd. Felly, wrth i ni edrych ar eiriau ein

2568363

testyn yn ngoleuni y cyd-destynau, canfyddwn mai yr hyn sydd o dan sylw yr Apostol ydyw :—

Yr Ymarweddiad Cristionogol.

Gosodir ef ger bron mewn gwrthgyferbyniad i'r ymarweddiad Paganaidd, yr hwn oedd yn fywyd yr hen ddyn. Yn yr adnodau sydd yn dilyn ein testyn, dysgir fod yr ymarweddiad Cristionogol yn fywyd y dyn newydd, a hyny yn ol rhinweddau moesol cymeriad Duw ei hun. Priodol iawn galw y pechadur yn ei gyflwr natur yn hen ddyn. Mae yn wirionedd eglur fod pob peth wrth ddirywio a llygru yn heneiddio. Y blodeuyn tlws a'r rhosyn prydferth wrth ddirywio a llygru a heneiddiant; glaswellt y ddol a dail y goedwig wrth ddirywio a llygru, a drawsnewidir o wyrddlesni ieuanc Mai i felynder hen yr Hydref. Priodoleddau amlycaf henaint ydynt gwendid a hacrwch. Yn awr y mae yn deilwng o sylw, mai y gallu cryfaf i effeithio dirywiad a llygredd ydyw pechod, ac am hyny efe hefyd ydyw prif achos henaint y pechadur. Ar wahan i bechod buasai y ddynoliaeth yn aros byth yn ngheinder a phrydferthwch ei hieuenctyd. Yn y man bydd pechod wedi arddelwi holl ffurfiau gwendid a hacrwch henaint ar y pechadur. O'r ochr arall y mae yr un mor briodol galw y credadyn yn ei ymarweddiad sanctaidd yn ddyn newydd, oblegid ei nodwedd amlycaf ef ydyw ymadnewyddu. Ceidw sancteiddrwydd ef allan o afeilion henaint am ei fod yn arddelwi arno holl ffurfiau nerth a phrydferthwch ieuenctyd. *Kainos* ac nid *néos* ydyw y gair a gyfieithir yma yn *newydd*, ac y mae yn golygu yr hyn sydd yn newydd o ran ei ansawdd yn hytrach na'r hyn sydd yn ieuanc o ran oed. Bydd rhyw brydferthwch newydd yn dyfod i'r golwg o hyd yn ieuenctyd hwn; peru ef byth i ymadnewyddu yn ysbryd ei feddwl, ac yn ol Duw, a chaiff gyfiawnder a sancteiddrwydd gwirionedd eu lle priodol yn ei fywyd.

Yn ein testyn gesyd yr Apostol ger bron yr ymarweddiad Cristionogol mewn tri chysylltiad yn ei

berthynas â Christ, ac at y rhai hyn yr amcanwn alw sylw pellach :—

I. YR YMARWEDDIAD CRISTIONOGOL YN NHESTYN EI EFRYDIAETH. "Eithr chywchwi nid felly y dysgasoch Grist." Golyga yr ymadrodd "dysgasoch Grist," dysgu yn yr ystyr o dderbyn addysg; y dysgu hwnw ag sydd yn cyfateb i'r gair Saesneg, *learn.* Crist ydoedd y wers ag yr oeddynt hwy wedi derbyn hyfforddiant ynddi. Felly dysgu y dysgybl yn yr ystyr o gyfranogi, ac nid dysgu yr athraw yn yr ystyr o gyfranu addysg a olygir yma. Dysgir yn

(i.) *Fod perthynas rhwng testyn efrydiaeth dyn a'i ymarweddiad.* Yr oedd y modd ag yr oedd yr Ephesiaid wedi dysgu Crist yn rheswm dros i'w bywyd i gymeryd cyfeiriad gwahanol i fywyd y Cenhedloedd. Mae'n ffaith deilwng o'n sylw, mai yr hyn sydd wedi enill ein bryd fel testyn efrydiaeth, sydd yn dyfod i'r golwg yn ein hymarweddiad. Fel ag y mae perthynas agos iawn, rhwng testynau myfyrdod y dyn a'i freuddwydion, felly hefyd y mae perthynas gyffelyb, ond llawer mwy sylweddol rhyngddynt a'i gymeriad moesol. Yr hyn fydd yn destynau myfyrdod y dyn yn oriau y dydd, dyna fel rheol fydd gweledigaethau ei freuddwydion y nos, a dyna ddaw hefyd i'r golwg yn ei ymarweddiad. Nid yr hyn a broffeswn, ond yr hyn a ddysgwn, a ddaw i'r golwg yn ein bywyd. Os nad yw ein meddwl yn aros gyda gwrthrych ein proffes, daw ein bywyd ymarferol i wrthdarawiad âg ef, a chawn ninau ein hadnabod fel personau anghyson ac anheilwng o ymddiried. Y Person mawr yr ydym yn ei broffesu ydyw Crist, ac felly, mewn trefn i fod i fyny â'n proffes rhaid i ni osod ein meddwl arno i'w efrydu. Efe, yn ol yr Apostol, ydyw y wers fawr sydd genym i'w dysgu.

(ii.) *Pa fodd yr ydym i ddysgu Crist, a pha beth ynddo ydyw y wers?* Efallai mai nid anfuddiol fyddai ymholi pa beth ydyw dysgu, sef dysgu yn yr ystyr sydd i'r gair yn adnod gyntaf ein testyn? Credwn

mai dyna ydyw, ymchwiliad i mewn i bethau i'w hadnabod ynddynt eu hunain, ac hefyd yn eu perthynas â'u gilydd. Yr ydym i ddysgu Crist fel ag yr ydym i ddysgu pob peth arall. Pan mae dyn yn ymgymeryd â dysgu Cerddoriaeth, dechreuai trwy ddyfod i adnabod ffurf y nodau, yna ä yn mlaen i adnabod eu seiniau, ac wedi hyn i gysylltu eu ffurfiau a'u seiniau â'u gilydd. Heb hyn nis gellir gwneyd cerddor o neb. Yn awr, rhaid dysgu Crist felly, trwy ei adnabod yn yr hyn ydyw ar wahan i bawb a phob peth, yn ei berson, ac hefyd yn rhinweddau moesol a haeddianol ei fywyd. Rhaid ei adnabod fel person ar wahan i bob bôd arall sydd yn meddu ar bersonoliaeth, ïe, wrtho ei hun yn nghanol holl fodau ardderchog creadigaeth Duw. Ond heblaw ei ddysgu yn arbenigrwydd ei berson, rhaid hefyd ei ddysgu yn mherffeithrwydd rhinweddau moesol ei gymeriad. Mae pob rhinwedd moesol wedi eu dadblygu i bwynt eithaf perffeithrwydd yn ei gymeriad ef, ac felly ynddo ef yn unig y rhoddwyd i ni esiampl ddiogel i'w dilyn.

Ac wrth edrych ar berthynas rhinweddau moesol â deddf, â Christ, ac a Duw, canfyddwn y gwahaniaeth canlynol,—Yn Nuw bodola rhinweddau moesol yn egwyddorion pur a thragywyddol, yn y ddeddf bodolant mewn gorchymynion, ond yn Nghrist bodolant fel ffeithiau ymarfelol yn y bywyd dynol. Yn y ddeddf cafwyd egwyddorion tragywyddoldeb moesoldeb y natur Ddwyfol mewn gorchymynion ond ni chafwyd heb i'w cario allan yn berffaith mewn bywyd, ond yr Iesu o Nazareth. Gwnaeth Efe egwyddorion tragywyddol y natur Ddwyfol yn ffeithiau ymarferol yn y natur ddynol. Wrth edrych ar y ddeddf, rhinweddau moesol mewn gorchymynion a welwn, ond wrth edrych ar Grist, gwelwn hwy mewn esiamplau, ac y mae perffeithrwydd esiamplau yn ei fywyd Ef, yn cyfateb i berffeithrwydd y gorchymynion mewn deddf. Mae o bwys i ni ddysgu Crist yn y goleu hwn, oblegid yn hyn y mae yn gynllun moesol bywyd i ddynion.

Ond dylem gofio hefyd, fod yn perthyn i Grist, ffurf ar fywyd na pherthyn i neb arall. Nid yn unig y mae wrtho ei hun fel person, ac fel esiampl moesoldeb, ond hefyd yn rhinweddau haeddianol ei fywyd. Ofer i bechadur edrych i un man am haeddiant ond i Grist. Yn hyn y mae ei fywyd yn wahanol i fywyd Duw Dad a Duw Ysbryd Glân. Nid oes haeddiant yn mywyd y cyntaf na'r trydydd o'r personau Dwyfol. Mae yr haeddiant i gyd yn y person a fu farw. Cafodd ebyrth eraill eu hoffrymu, ond ni chafwyd Iawn yn yr un aberth ond aberth y Groes. Efe ydyw yr unig Gyfryngwr rhyngom ni a Duw, ac nid oes i ni Eiriolwr gyda'r Tad, ond Efe. Dyma y rhinweddau haeddianol sydd yn mywyd Crist, ag y dylai pechadur deimlo digon o swyn ynddynt i'w hefrydu a'u dysgu.

Ond mae yn eglur mai at wirionedd moesol y cyfeirir yma, ac felly Crist, yn rhinweddau moesol ei gymeriad, ydyw y wers. Efrydu Crist fel esiampl bywyd, dyma y wers i ni i'w dysgu. "Eithr chwychwi nid felly y dysgasoch Grist." Cynwysa hyn ryw awgrym gwan, fod rhyw rai wedi bod yn dysgu Crist, ond er hyny yn byw Paganiaeth. Dyma anghysondeb damniol. Mae yn ofynol i ni ddysgu Crist i bwrpas, ei ddysgu nes rhoddi i rinweddau moesol ei gymeriad eu lle priodol yn ein bywyd—ei ddysgu nes ein dwyn i ymadnewyddu yn ysbryd ein meddwl, a gwisgo y dyn newydd a'i fyw. A ydyw gwersi moesol bywyd Crist a'n hymarweddiad ni yn gyson â'u gilydd? A ydym ni wedi rhoddi ystyriaeth i'r mater hwn? Eithr chwychwi, wrandawyr yr Efengyl, os ydych yn rhodio megys eraill, yn oferedd eich meddwl, gan fyned o ddrwg i waeth, cofiwch mai nid felly y dysgasoch Grist. A chwithau, ddeiliaid yr Ysgol Sabbothol, os ydych yn rhedeg i'r unrhyw ormod rhysedd â phlant y byd hwn, trwy osod eich bryd ar bethau gwag a diflanol, a dilyn chwareuon Paganaidd yr oes, dymunwn eich adgofio mai nid felly y dysgasoch Grist. Ac nis gallaf amgen na galw eich sylw chwithau, broffeswyr crefydd, at hyn. Os ydych yn cydymffurfio â'r byd, gan ymhyfrydu yn yr

hyn yr ymddifyra annuwiolion ynddynt, ïe, os ydych yn dilyn y delyn a'r ddawns, ac yn ymuno yn nghrechwen yr ynfydion, dymunwn ddyweyd, a hyny gyda'r difrifoldeb mwyaf, mai nid felly y dysgasoch Grist. Pethau tu allan i Grist ydynt y pethau hyn oll. Am hyny, na fydded i ni, sydd yn proffesu dysgu Crist, ddwyn i'n hymarweddiad bethau estronol i rinweddau moesol bywyd y Gwaredwr.

II. YR YMARFERIAD CRISTIONOGOL YN ARBENIGRWYDD EI ATHRAW. "Os bu i chwi ei glywed ef, ac os dysgwyd chwi ynddo."

(i.) *Arbenigrwydd yr Athraw.* "Os bu i chwi ei glywed ef." Mae y rhagenw *Ef* yn bwysleisiol. Os bu i chwi ei glywed EF. Ef ei hunan, ac nid neb arall—nid clywed am dano gan eraill yn unig, ond ei glywed Ef ei hun yn llefaru. Nid ydyw hyn yn golygu clywed ei lais naturiol â'r glust oddiallan, ond ei glywed mewn ystyr foesol ac ysbrydol. Perthyna i ddyn ddau bâr o glustiau, sef clustiau'r corph a chlustiau yr ysbryd, neu'r gydwybod. Mae clustiau y gydwybod yn llawer mwy teneu i glywed nag ydyw clustiau y corph. Clywant hwy lais moesol Crist o'r byd ysbrydol, yn condemnio neu yn cymeradwyo, yn ol stâd y galon a chymeriad y gweithredoedd a gyflawnir. Llefara dangnefedd wrth ei ddysgyblion ffyddlawn a da nes troi tymhestloedd bywyd yn dawelwch mawr. Medr Ef lefaru holl leisiau'r greadigaeth i fudandod diymadferth, fel na bydd ond ei lais ef yn unig yn glywadwy.

Yn y rhagfynegiadau am ddyfodiad y Messiah, gosodir Ef allan yn eglur fel dysgawdwr diail, ac hefyd y byddai dylanwad ei ddysgeidiaeth yn foddion i buro cymdeithas, ac i sancteiddio y ddynoliaeth. Yn ngoleuni y rhagfynegiadau hyn canfyddir yn eglur nas gallasai neb fod y Messiah, os nad oedd ei ddysgeidiaeth yn dwyn arni y nôd neillduol hwn. Os Ef, os Crist, os y Messiah a glywsoch, Efe a'ch dysgodd "i ddodi heibio o ran yr ymarweddiad cyntaf yr hen ddyn," &c. Ac fel mai un prawf sicr mai Crist oedd

y Messiah ydoedd ei fod yn dysgu dynion i ymarweddu yn sanctaidd; felly hefyd un prawf sicr mai Crist yw ein Hathraw ni ydyw, ein bod yn ymarweddu yn sanctaidd. Os nad ydyw ein bywyd yn cael ei nodweddu gan sancteiddrwydd, yna rhyw un arall ac nid Crist ydyw ein prif athraw.

(ii.) *Gwaith Crist fel Athraw ydyw dysgu ei hunan.* Mae yr ymadrodd "*dysgu*" yn y rhan hon o'n testyn yn golygu dysgu yn yr ystyr o gyfranu addysg. Rhaid cael Crist ei hunan i ddysgu dynion ynddo. Nis gall neb ei adnabod ond y sawl y mae Ef yn egluro ei hunan iddynt Erys byth yn wers heb ei dysgu i bawb, ond i'r rhai sydd yn eistedd wrth ei draed fel eu hathraw. Efe yn unig a all esbonio yn effeithiol i ddynion y pethau am dano ei hun. Mae anhawsder cyffelyb i ni adnabod Crist, ond trwy ei ddysgeidiaeth am dano ei hun, ag sydd i ni adnabod yr haul ond yn ei oleuni ei hun. Meddylier am yr haul, mae ef mor fawr, fel nas gall goleuni y lleuad deg, goleuni y comedau fflamllyd, na goleuni y ser disglaer byth ei ddadguddio ef i ni. Felly hefyd y gallwn ddywedyd am Grist, "Haul" y Cyfiawnder—nis gall goleuni athroniaeth deg, goleuni deddf danllyd, na goleuni ser disgleiriaf y weinidogaeth byth ei ddatguddio Ef i ni. Os ydyw Ef i gael ei ddatguddio i ni o gwbl, rhaid iddo ddatguddio ei hun. Ac y mae Crist fel Athraw yn dyfod at bob un sydd yn ei efrydu fel gwers, ac yn ei ddysgu ei fod Ef yn bob peth iddo, ag y saif mewn angen am dano—yn haeddiant iddo fel pechadur, yn gyfiawnder yn ngwyneb ei euogrwydd, yn sancteiddrwydd yn ngwyneb ei halogrwydd, ac yn gadwedigaeth iddo yn ngwyneb ei golledigaeth. Dysgodd Crist i'w ddysgyblion, pa fodd yr oedd dynion i gael datguddiad o hono, yn y geiriau hyny:—"Yr hwn sydd â'm gorchymynion i ganddo, ac yn eu cadw hwynt, efe yw yr hwn sydd yn fy ngharu i: a'r hwn sydd yn fy ngharu i, a gerir gan fy Nhad i: a minau a'i caraf Ef, ac a'm *hegluraf* fy hun iddo" (Ioan xiv. 21).

(iii.) *Ond er cael yr Athraw i ddysgu y wers, eto nis gellir ei dysgu heb gyfaddaster i hyny.* Gallwn sylwi fod y geiriau "ac os dysgwyd chwi ynddo," yn awgrymu cyfaddaster i ddysgu y wers, ac amod i dderbyn addysg ynddi. Yr un peth ydyw y ddau, sef undeb â'r Athraw—rhaid bod ynddo. Fel nas gall neb ddysgu nofio ond yn y dyfroedd, felly nis gall neb ddysgu byw yn sanctaidd ond yn Nghrist. Y modd i fyned i mewn i'r wers, ydyw myned i mewn i'r Athraw yn gyntaf. Mae y gwir ddysgyblion oll yn un yn yr Athraw mawr.

Hefyd, y mae'n deilwng o'n hystyriaeth nas gall neb efrydu Crist i bwrpas ond sydd wedi ei ddwyn i'r cyflwr hwnw, ag y teimlant eu hangen am dano. Flynyddoedd yn ol prynodd cyfaill lyfr meddygol, o waith Dr. Coffin. Cymerodd ef adref a gosododd ef ar yr astell, a bu yno yn casglu llwch am flynyddoedd lawer. Ni byddai byth yn ei agor nag yn meddwl am dano. Y rheswm am hyny oedd, nad ydoedd yn teimlo unrhyw angen am feddyginiaeth, oblegid dyn iach ydoedd. Ond yn y man daeth anhwyldeb i'w gyfansoddiad, yr hwn a'i darostyngodd bron i byrth y bedd. Y pryd hwnw cofiodd am y llyfr, darllenodd ac efrydodd ef gydag awch. Teimlad o'i afiechyd, a barodd iddo deimlo dyddordeb yn y llyfr a'i efrydu. Felly y mae gyda phawb sydd heb deimlo eu hangen am Grist. Nis gallwn deimlo dyddordeb ynddo, os heb deimlo ein hangen am dano. Ond pan ein deffroir gan argyhoeddiad i deimlad o'n dirywiad a'n colledigaeth, dyma'r pryd y deuwn i deimlo dyddordeb yn Nghrist, ac i ymofyn beth sydd ynddo i gyfarfod â'n hangenion moesol ac ysbrydol, fel pechaduriaid colledig, a dyma y pryd y daw yntau fel Athraw i ddadguddio ei hun i ni.

III. YR YMARWEDDIAD CRISTIONOGOL YN ANFFAEL-EDIGRWYDD EI SAFON. "Megys y mae y gwirionedd yn yr Iesu."

Y darlleniad priodol yw, "Megys y mae gwirionedd yn yr Iesu."—Y fannod i'w gadael allan. Dengys hyn

mai nid gwirionedd mewn rhyw ffurf neillduol sydd yn yr Iesu, ond yn ei gyfander perffaith. O ran ei hanfod un ydyw gwirionedd, ond perthyna iddo ffurfiau lawer. Ond nid oes gymaint ag un ffurf ar wirionedd, nad ydyw yn yr Iesu. Mae gwirionedd yn yr angel, ac yn y sant, ond nid fel ag y mae yn yr Iesu,—ynddynt hwy fel egwyddor; ond fel egwyddor a safon yn yr Iesu.

(1.) *Safon gwirionedd yn ei ffurf foesol.*—Tra y mae yn ffaith fod gwirionedd yn ei gyfander, ac felly yn ei holl ffurfiau yn yr Iesu, eto nid gwirionedd yn yr ystyr hwn sydd yn meddwl yr Apostol yma, oblegid at wirionedd yn ei berthynas âg ymarweddiad y cyfeirir. Yn Nghrist yn unig y ceir safon gwirionedd moesol, ac felly y safon i ni i fyw wrthi ydyw, "megys y mae gwirionedd yn yr Iesu."

Sonir llawer am safon—am "weithiau safonol," ac y mae pob un o'r cyfryw am i ni fyw megys y mae gwirionedd ynddynt hwy. Gallwn ddywedyd yr un peth am wahanol gyfundrefnau o foesoldeb, a sefydliadau crefyddol. "Byddwch byw," medd Calfiniaeth "megys y mae gwirionedd ynof fi." "Byddwch byw," medd Arminiaeth, "megys y mae gwirionedd ynof fi." "Na, na," medd Pabyddiaeth, "byddwch byw megys y mae gwirionedd ynof fi." Cynygia yr oll eu hunain yn athrawon i ni, ond na dderbyniom eu cynhyglon, eithr yn hytrach gwrandawn ar lais Apostol Ysbrydoledig yr Arglwydd. "Byddwch byw megys y mae y gwirionedd yn yr Iesu." Yn yr Iesu yn unig y mae gwirionedd yn ei liw priodol ei hun. Mae yn ofnus fod llawer iawn yn myned i edrych ar wirionedd fel y mae yn ei enwad ef, yn fwy pwysig nag fel y mae yn yr Iesu. Pan ddaeth "cyflawnder yr amser," yr oedd byw megys yr oedd gwirionedd mewn Iuddewiaeth, yn fwy pwysig gan bobl flaenaf y Genedl Iuddewig, na'i fyw fel yr oedd yn yr Iesu. Ofnwn fod rhai eto i'w cael ag ydynt yn olynwyr iddynt. Ond os ydym ni am i'n bywyd fod yn gymeradwy, rhaid i ni fyw "megys y mae gwirionedd yn yr Iesu."

(ii). *Priodoleddau gwirionedd yn eu ffurf foesol.* Dysga yr Apostol yn y 24ain adnod, mai ei briodoleddau yn y ffurf hon ydynt, "cyfiawnder a sancteiddrwydd." —"yr hwn yn ol Duw a grewyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd."

Mae y *dyn newydd* wedi ei greu yn ol Duw, ac felly priodoleddau gwirionedd moesol yn mywyd Duw ei hun, sydd i fod hefyd yn briodoleddau moesol ein cymeriad ninau, sef cyfiawnder a sancteiddrwydd—cyfiawnder natur, a sancteiddrwydd cymeriad Duw. "Cyfiawn yw yr Arglwydd yn ei holl ffyrdd, a sanctaidd yn ei holl weithredoedd."

(iii.) *Pa beth yw safon?* Mae i bob peth ei safon wrth yr hon y mae i gael ei brofi—pa un bynag ai pwys, mesur, a'i tystiolaeth. Pwys a llathen y Llywodraeth ydyw y safon at y rhai y dygir pob pwys a llathen arall i'w profi, a'r safon i brofi tystiolaeth ydyw yr hyn sydd ffaith mewn hanesiaeth. Os bydd y dystiolaeth yn gyson â'r gyfryw ffaith, y mae yn wir; ond os yn anghyson â hi, mae yn anwiredd. Y safon i brofi cymeriad dyn ydyw "megys y mae gwirionedd yn yr Iesu." Os bydd yn ol hwn, bydd yn ol Duw, mewn cyfiawnder a sancteiddrwydd gwirionedd.

Cyfiawnder natur foesol Duw ydyw safon i brofi ein cyfiawnder ni, a sancteiddrwydd cymeriad moesol Duw ydyw y safon i brofi ein sancteiddrwydd ni. Yn natur a chymeriad moesol Duw y mae cyfiawnder a sancteiddrwydd yn ffeithiau tragywyddol. Yn nghanol byd anwadal a chreadigaeth aflonydd, mae cyfiawnder a sancteiddrwydd Duw yn ffeithiau sefydlog, ac felly yn safon sefydlog moesoldeb i ddyn. Ac y mae yr un anghyfnewidioldeb yn perthyn iddynt yn yr Iesu ac yn Nuw, oblegid dyma a ddywedir,—"Megys y mae gwirionedd yn yr Iesu." Nid megys *yr oedd* nac ychwaith *megys y bydd*, ond megys *y mae*. Yr oedd Ef mor lawn o wirionedd fel na chaed twyll yn ei enau. Ac y mae cyfiawnder a sancteiddrwydd gwirionedd ynddo Ef yn gyfiawnder ac yn sancteiddrwydd byth. "Sanctaidd ydwyf Fi." Ond dylid cofio, mae cyfiawnder natur, a sancteiddrwydd y cymeriad Dwy-

fol yn Nghrist ydyw y safon i ni. Mae i gyfiawnder a sancteiddrwydd ddwy ffurf, sef awdurdod ac ufudd-dod—yn y llywydd y maent yn y ffurf o awdurdod, ond yn y deiliaid yn y ffurf o ufudd-dod. Ffurf wreiddiol y cyfryw yn y natur ddwyfol ydyw awdurdod, ond yn y Mab, maent wedi ymddadblygu mewn ffurf arall—mewn ufudd-dod. "Yr hwn, er ei fod yn Fab, a ddysgodd ufudd-dod trwy y pethau a ddioddefodd." Ynddo Ef yr ydym yn canfod y ddwyfol yn ymostwng i ddisgyn i lawr ar hyd grisiau ufudd-dod, nes cyrhaedd ei bwynt isaf yn angau y Groes. Felly rhinweddau moesol natur a chymeriad Duw yn Nghrist ydyw safon ymarweddiad i ni. "Eithr yr ydych chwi ohono Ef yn Nghrist Iesu, yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, ac yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth," "fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo Ef" (1 Cor. i. 30; 2 Cor. v. 21).

Felly, yn Nghrist y mae safon moesoldeb i ni, ac nid hyny yn unig, ond Efe hefyd yn ei fywyd ymarferol ar y ddaear ydyw y cynllun o'r modd i ni roddi mewn ymarferiad rinweddau moesol gwirionedd yn ol gofynion y safon. Mae yn y ddeddf safon gwirionedd moesol, ond nid oes ynddi esiampl o wirionedd moesol mewn bywyd dynol; ceir y ddau yn Nghrist, y safon a'r esiampl. Mor werthfawr i ni ddylai y ffaith fod, fod y "Gwirionedd yn yr Iesu." Gwna hyn Ef yn wrthrych teilwng o'n hymddiried. Nis gall ein twyllo na'n siomi, oblegid y mae y gwirionedd ynddo. Gallwn ymddiried yn llawn ei fod ef yn Arglwydd a wobrwya ei weision ffyddlon, ei fod ef yn Frenhin a ddyrchafa ei ddeiliaid ufudd, ei fod ef yn arweinydd a ddwg ei bererinion blinedig i ben eu taith, ac yn Athraw a ddysg ei ddysgyblion, ac a'u tywys i bob gwirionedd. Crist heb y gwirionedd, ni buasai yn werth dim i ni, ond Crist a gwirionedd ynddo sydd yn werth pob peth. Yn ol y gwirionedd safonol sydd ynddo ei hun y bu Efe fyw ar y ddaear; hwn sydd yn penderfynu cymeriad pawb arall; yn ol hwn y

cyhoeddir dedfrydau y farn fawr, ac y sefydlir tynged pob dyn ac angel yn y byd digyfnewid.

I gael Crist o'n plaid, ymofynwn am wirionedd a fydd yn egwyddor ynom, a gyfetyb i'r gwirionedd sydd yn safon ynddo ef. Ond cael hyn, cawn wirionedd o'n tu; os awn ni ato ef i'r clorian yn awr, daw yntau atom ninau i'r clorian yn y farn, a phâr iddi droi o'n plaid. Mynwn gymeriad cyfansoddedig o briodoleddau gwirionedd moesol. Saif hwn yn ddigyfnewid byth. Ond beth os bydd y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu yn troi i'n herbyn pan ein dygir i'w wyneb? Os felly, bydd wedi darfod am danom byth. Gan hyny, yr awr hon, ymadnewyddwch yn ysbryd eich meddwl, a gwisgwch y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grewyd mewn cyfiawnder a sancteiddrwydd gwirionedd.

IX.

Gogoniant mwy Arddercbog.

"Y Gogoniant a ddatguddir i ni."—PAUL.

Y BORE y crëwyd goleuni,
  Fe welwyd gogoniant oedd fawr,
Dros d'w'llwch y byd yn ymdoni,
  Yn gyflym ar edyn y wawr;
Fe lanwodd y gwagle diderfyn,
  Datguddiodd ser, lleuad, a haul,
A'r cwbwl nid oedd ond pelydryn
  O'r disglaer ogoniant diail.

Fe 'i gwelwyd ar lenyrch Paradwys,
  Yr Eden hyfryda' fu 'rioed,
Yn gwenu mewn blodau 'n ddiorphwys,
  Yn chwareu rhwng cangau y coed:
Ond mwy y gogoniant ganfyddwyd
  Mewn dyndod oruchel ei bri;
Er hyny mewn rhan y datguddiwyd,
  Y Dwyfol ogoniant i ni.

Er canfod y môr yn ymagor,
  A Sinai yn crynu i gyd,
Fe dystiai y cwbwl fod rhagor
  O 'goniant yn Nghrewr y byd;
Faint bynag a welwyd ohono
  Yn mhob goruchwyliaeth a fu,
Rhyw ragor o 'goniant sydd ynddo
  I gael ei ddatguddio i ni.

Mil mwy y gogoniant ganfyddwyd
  Pan ledwyd holl leni y nen,
Gan ddwylaw 'r Gwaredwr, pan hoeliwyd
  O wirfodd ei gariad, ar bren;
Y grasol ogoniant anfeidrol,
  Ddatguddiwyd trwy 'r Iesu a'i glwy',
Ond erys i oesoedd tragywyddol
  Ardderchog ogoniant sydd fwy.

T. J. H.

Gogoniant mwy Ardderchog.

"O'r gogleddwynt y daw hindda; y mae yn Nuw ogoniant mwy ofnadwy."—JOB XXXVII. 22.

YN mhennod ein testyn dirwyna Elihu i fyny ei ddadl ar uniondeb y gweinyddiadau Dwyfol, a hyny trwy fynegu mawredd a gogoniant Duw. Dengys fod yn ei weithredoedd gyfrinion nas gellir eu chwilio hwy allan, ac am hyny mai gweddus ydyw i bawb ymostwng o dan ei alluog law. Yn ngweithiad allan ei ymresymiad, defnyddia amryw gymhariaethau i egluro y mawrhydi dwyfol, ac i ddangos anffaeledigrwydd doethineb Duw—Yr ystorm ofnadwy arddunol, yr eira pur, y gawod wlithog, a chur-wlaw ei nerth ef; arddangosion y cymylau, y rhai a fynegant ryfeddodau yr Hwn sydd berffeithgwbl o wybodaeth; disgleirdeb y wybren, yr hon a daenodd Efe ac a "sicrhawyd fel drych toddedig," a'r goleuni llachr sydd yn y cymylau, yr hwn ni wel meibion dynion. Ond pa mor ysblenydd bynag y gogoniant a ganfyddwyd, "Y mae yn Nuw ogoniant mwy ofnadwy; neu "mwy *ardderchog*," oblegid cyfetyb yn well i'r gair *ysblander* yn mraich gyntaf y testyn.

Teimlwn fod ychydig anhawster i ddeall braich gyntaf ein testyn—"O'r gogleddwynt y daw hindda." Ymddengys i Dr. Parry, wrth gyfieithu yr adnod ddilyn y cyfieithiad Saesnig awdurdodedig, yn hytrach na rhoddi cyfieithiad llythyrenol o'r wreiddiol. Nid yw *hindda* yn gyfieithiad llythyrenol. *Aur* geir ar ymyl y ddalen. Ond nid yw yn briodol dywedyd, "o'r gogleddwynt y daw aur." Felly yn hytrach na

gogleddwynt darllener *gogledd.* "Allan o'r gogledd y daw aur." Mabwysiadwyd y darlleniad hwn gan rai esbonwyr, ac ar ei bwys ymgymerasant â cheisio profi fod aur i'w gael yn y gogledd. Ond nis gellir derbyn y syniad hwn, am nad yw o unrhyw werth i ymresymiad Elihu. Cyfieithiad y Deg a Thriugain yw, "O'r gogledd y daw cymylau disglaer fel aur;" Dr. Morgan. "Trwy ogleddwynt y daw goleuni euraidd;" y Cyfieithiad Diwygiedig, "Allan o'r gogledd y daw ysblander euraidd." Yn ngoleuni y darlleniadau hyn canfyddwn y cynwysa ein testyn gyferbyniaeth rhwng dau ogoniant, sef yr hwn a ddatguddiwyd a'r hwn a ddatguddir, a bod y gogoniant a ddatguddir i ragori ar y gogoniant a ddatguddiwyd. Felly sylwn yn

I. AR OGONIANT DUW Y PATRIARCHIAID O'I GYFERBYNU A DUWIAU Y CENHEDLOEDD PAGANAIDD.—"Allan o'r gogledd y daw ysblander euraidd."

Diameu fod yma gyfeiriad at y goleuni gogleddol *Aurora Borealis.* Ar brydiau, canfyddir y goleuni hwn yn ymddyrchafu ac yn lledu ei esgyll dros y terfyngylch gogleddol, nes llenwi yr holl nefoedd megys â gwreichion aur. Golygfa ardderchog a gogoneddus ydyw hon. Yn y dyddiau gynt, cyn i wyddoniaeth esgyn i'r orsedd, tybid mai yr hyn a achosai yr *Aurora Borealis* oedd presenoldeb y duwiau, pan gyd-gyfarfyddent ar fynyddoedd y gogledd i gynal eu cynhadleddau. A phan gyfarfyddent yno mewn cyngor, parai gogoniant eu presenoldeb i oleuni disglaer fel aur i dywynu gyd âg ysblander mawr. Yr oedd hwn, yn ol tŷb yr hynafiaid, yn ogoniant y duwiau yn mhwynt uchaf ei ddisgleirdeb, pan oeddynt oll wedi cyd-gyfarfod â'u gilydd, a hyny mewn cynhadledd—gogoniant pob un ar ei oreu yn cael ei lewyrchu, a gogoniant yr oll yn tywynu yn anterth ei ysblander.

Priodolid gogonint mawr i'r duwiau, ond wedi'r cwbl nid oeddynt hwy eu hunain ond creadigaeth dychymyg ddynol, a'u holl ogoniant ond adlewyrchiad athrylith creadur deallol. Eithr nid bôd dychymygol

oedd Duw Job a'i gyfeillion. Perthynai iddo ef fodolaeth bersonol a gwirioneddol, a chyfodai ei ogoniant o'i berffeithderau naturiol a moesol. Athrylith ddynol a greodd y duwiau, ac a'u gwisgoedd â mawrhydi ac ardderchowgrwydd, ac o angenrheidrwydd yr oedd y meddwl a'u creodd yn fwy na hwynt, ac mewn pwynt o amser a threfn yn eu blaenori. Felly yr oedd y cenhedloedd yn plygu i dduwiau o'u creadigaeth eu hunain, ac yn addoli gwrthrychau nad oedd iddynt fodolaeth ond mewn dychymyg yn unig. Amddifada y ffaith hon dduwiau y cenhedloedd o briodoleddau hanfodol gwir dduwdod, megys tragywyddolrwydd, anfeidroldeb, ac annibyniaeth. Am hyny, beth bynag oedd ardderchowgrwydd duwiau y cenhedloedd, y mae yn ein Duw ni ogoniant mwy ardderchog. Efe a greodd yr athrylith a roddodd fodolaeth i'r duwiau eraill. Ac efe a oleuodd y dealltwriaeth a arfeiddia ddilyn ei ôl, a geisia chwilio allan ei synwyr, ac i ddarganfod cyfiawnder gweinyddiadau ei orseddfainc. Yn awr, os oedd trigfa duwiau o greadigaeth awenydd mor ardderchog ei ogoniant, beth raid fod ardderchowgrwydd gogoniant preswylfa yr hwn a greodd yr athrylith fedr greu duwiau? Ond "y mae yn Nuw ogoniant mwy ofnadwy." Cyfodai ymresymiad Elihu i'r uchelion dyrchafedig hyn, gan gymhwyso y gwirionedd at Job, trwy ddangos iddo fod ei Dduw ef yn ardderchog o nerth, a barn, a helaethrwydd cyfiawnder. Yr oedd y duwiau a gyfarfyddent ar fynyddoedd y gogledd, ac a lewyrchent oleuni disglaer fel aur, yn amddifad o nerth a barn, ac yn ddiffygiol mewn cyfiawnder. Ond am yr Hollalluog, yr oedd Efe yn berffaith-gwbl yn ei holl briodoleddau, ac felly yr oedd ynddo ogoniant mwy ardderchog nag oedd yn y duwiau, er ei holl ysblander euraidd.

II. Y Gogoniant a ddatguddiwyd o'i gymharu a'r Gogoniant a Ddatguddir. "Y mae yn Nuw ogoniant mwy ofnadwy."

Yr ydym yn cymeryd yr ymadroddion *ofnadwy* ac *ardderchog* yn gytystyr, ac efallai fod y gair *ardderchog*

yn llawn mor briodol i osod allan y meddwl fel y mae yn y rhan olaf o adnod ein testyn. Awgrymir yn eglur yn yr Ysgrythyrau fod yn Nuw ogoniant mwy ardderchog na dim sydd wedi ei ddatguddio i ni. Wedi i Moses gael y fath ddatguddiad o Dduw, eto credai fod ynddo ogoniant mwy na dim a welodd efe. Dan ddylanwad y syniad hwn y gofynodd—"Dangos i mi, atolwg, dy ogoniant," Exod. xxxiii. 18. Caniataodd Duw iddo ei gais, a datguddiodd iddo gymaint o'i ogoniant Dwyfol ag a allasai ef ei ddal. Meddylier am y gogoniant a welodd Moses yn flaenorol i hyn—gogoniant gweledigaeth y berth yn llosgi yn dân, ac eto heb ei difa,—gogoniant y gweithrediad Dwyfol yn yr Aipht; gogoniant y waredigaeth o dy y caethiwad; gogoniant parthed y môr o flaen gwaredigion yr Arglwydd, a gogoniant ofnadwy dodiad y ddeddf ar Sinai. Ond credai fod yn Nuw ogoniant mwy heb ei ddatguddio na dim a welodd efe hyd yn hyn. Nid oedd y ddatguddiad llawnaf a gafodd Moses ond un rhanol—gogoniant tu cefn y Duw Mawr yn unig a allasai efe ei ddal, a'r casgliad a dynai yn ddiameu oedd, fod gogoniant ei wynebpryd yn rhagori yn fawr—fod ynddo "ogoniant mwy ardderchog."

Yn raddol y datguddia Duw ei ogoniant, am mai felly yn unig y gall creadur ei ddal a'i sylweddoli. Pe tywynai y gogoniant dwyfol yn ei holl ysblander ar y greadigaeth, nis gallasai ddal yr effeithiau—llosgai i ddiddymdra yn nhanbeidrwydd ei belydrau. Ond ei drefn Ef i ddatguddio ei ogoniant ydyw, yn gyfatebol i allu y creadur i'w ddal. Ffaith eglur i bawb sydd yn dal cymundeb â Duw ydyw, fod ei ogoniant yn rhagori yn y datguddiad ohono, ar bob syniad oedd yn eu meddwl am dano. Y mae genym syniad am ei ddaioni, ond cawsom ef yn well na'r syniadau goreu. Medr Ef "wneuthur yn dra rhagorol, y tu hwnt i bob peth yr ydym ni yn eu dymuno, neu yn eu meddwl" (Ephes. iii. 20).

1. *Gogoniant Duw mewn cynhaliaeth o'i gyferbynu â'i ogoniant mewn creadigaeth.* Yn y greadigaeth

fawr, gogoniant doethineb a gallu a ganfyddwn. Tynodd doethineb y planiau mawrion a pherffaith, ond ni fuasent yn werth dim, oni buasai fod y tu cefn iddynt allu anfeidrol i'w gweithio allan. Ond y mae yn Nuw ogoniant mwy na gogoniant doethineb a gallu, sef gogoniant daioni, ac yn ngwaith Duw yn cynal y canfyddir hwn.

2. *Gogoniant Duw fel Llywydd Moesol o'i gyferbynu â'i ogoniant fel Crëwr a Chynhaliwr.* Mae yn Nuw, fel Llywydd Moesol, ogoniant mwy rhagorol na dim a berthyn i'w allu creadigol a'i ofal cynhaliol. Yr ydym yn dyfod yma i bresenoldeb ei gymeriad, yr hwn sydd yn ymarweddiad cyson âg egwyddorion pur a dyrchafedig daioni ac iawnder. Cawsom ddatguddiad ardderchog o ogoniant moesoldeb trwy yr oesau, ond nid yw y cwbl ond eiliw gwan o'r gogoniant ohono a ddatguddir yn y man. Rhyw ddechreu deall moesoldeb yr ydym ni. Hyd yn hyn nid adwaenom ond rhai o'i egwyddorion pur, megys cariad, gwirionedd, cyfiawnder, &c. Diameu fod yn Nuw egwyddorion moesol heb eu datguddio eto i ddynion, a gogoniant mwy ardderchog yn perthyn iddynt na dim a ddychymygwyd erioed. Ac nis gallwn ni ganfod gogoniant yr Iawn mawr, ond i'r graddau y canfyddwn ogoniant moesoldeb.

3. *Gogoniant Gras o'i gyferbynu â gogoniant Moesoldeb.* Daw y gwirionedd hwn i'r golwg, os ystyriwn yn

(1.) *Atebiad Duw i weddi dyn.* Cydnebydd dyn yn ei weddi ddaioni Duw. Pan yn gofyn, y mae ganddo ryw syniad o ogoniant y fendith a gynwysir neu a ddatguddir yn yr atebiad. Ond y mae mwy bob amser yn atebiad Duw nag sydd yn ngofyn dyn. Yn ei weddïau, yn ddiameu, y mae dyn oreu iddo ei hun o bob man; ond y mae Duw, yn ei atebiad i'w weddïau, yn well iddo, nag ydyw ef iddo ei hun yn ei ddeisyfiadau goreu. Fel yr oedd Joseph yn well i'w frodyr na'u ceisiadau, felly y mae Duw yn well i ninau na'n gweddiau. Oni ddysgir y gwirionedd hwn i ni yn aml yn y Beibl? Dyma ddysgeidiaeth yr adnod hono,

"Gofynodd oes genyt, a rhoddaist iddo; ïe, hir oes, byth ac yn dragywydd" (Psal. xxi. 4). Y cwbl a ofynodd y Salmydd oedd am gael byw—cael ei fywyd, trwy gael ei waredu o gystudd, o safn y llew, o balf yr arth, neu o ddwylaw ei elynion; ond rhoddodd Duw iddo anfarwoldeb,—"Hir oes byth ac yn dragywydd." Ceir mynegiad o'r un gwirionedd yn hanes yr Apostol Paul, a miloedd eraill. Rhoi mwy y mae Duw yn wastad, nag a ofynwn ni.

(2.) *Addewid Duw yn gyferbyniol i'w enw.* Mae enw Duw yn ogoneddus iawn, ond y mae ynddo Ef ei Hun ogoniant mwy nag a all unrhyw enw gynwys. Y Salmydd, onide, a ddywedodd, "Ymgrymaf tua'th deml sanctaidd, a chlodforaf dy enw, am dy drugaredd a'th wirionedd; oblegid ti a fawrheaist dy air uwchlaw dy enw oll" (Psal. cxxxviii. 2). Dysgir yma fod Duw wedi mawrhau ei enw, ond ei fod wedi mawrhau ei air uwchlaw iddo. Gwna dynion, mewn miloedd o engreifftiau, gam â'u henwau, ac y mae rhai fel Pharaoh, Judas a Herod, wedi damnio eu henwau fel na fyn neb ar eu hol eu gwisgo. Ond llanwodd Duw bob enw a roddwyd arno âg ystyr, a gwisgodd ef â gogoniant a mawredd anfeidrol. Ond er ei fod wedi mawrhau ei enw oll, eto mae wedi mawrhau ei *air* uwchlaw iddo. Wrth ei *air* yma y golygwn ei addewidion, a'r hyn a ddysgir yw, fod yn addewidion Duw y fath gyfoeth o fendithion, fel nad oes yr un o'r enwau a roddir arno yn ddigon mawr i roi mynegiant iddynt. Prin y mae yn briodol dyweyd fod Duw a'i enw yn un—Duw yn gymaint a'i enw, a'i enw yn gymaint ag yntau, oblegid y mae Efe yn fwy nag unrhyw enw sydd arno. Ond y mae ei air ac yntau yn un—y mae Duw yn yr oll ag ydyw yn ei air, ac felly y mae wedi mawrhau ei air uwchlaw ei enw oll. Bu Duw yn fwy na'i enw i Abraham, Jacob, Moses, &c., a chawsant ddatguddiad fod yn ei *air* rywbeth mwy nag oedd ei enw yn awgrymu, ac felly mae gogoniant yr addewidion yn fwy na gogoniant yr enw. Nid oes yr un enw yn ddigon mawr i gynwys nac i fynegu Duw yn yr oll ag ydyw.

(3.) *Prynedigaeth o'i chyferbynu â natur.* I lygad fedr ganfod, mae gogoniant anian yn ysblenydd yn wir, ond er hyny gogoniant cyfnewidiol a diflanol yw. Ond am ogoniant y prynedigaeth, erys a chynydda yn dragywydd. Yr oedd gogoniant y dymhestl ar y mynydd teimladwy ddydd dodiad y ddeddf yn arddunol iawn, ond yr oedd gogoniant y tawelwch yn y Cysegr Sancteiddiolaf yn fwy, lle yr oedd Duw yn mhresenoldeb deddf ac angylion yn maddeu i'r genedl ei phechodau ar ddydd mawr Gwyl y Cymod. Pe cyfunid y gogoniant a ddatguddiwyd ar Sinai ac ar Seion, yr oedd y gogoniant a ddatguddiwyd ar Galfaria yn fwy ardderchog. Gogoniant yn bygythio oedd y gogoniant ar Sinai, ond gogoniant Calfaria ydyw "bod Duw yn Nghrist yn cymodi y byd âg ef ei hun heb gyfrif iddynt eu pechodau." A gallwn ychwanegu, fod yn Nuw, fel y mae yn Dduw yn Nghrist ogoniant eto i'w ddatguddio. Mor ardderchog yw gogoniant yr ymgnawdoliad a'r Iawn—Mab Duw—ei Briod-Fab—Mab o'r un natur âg ef ei hun—yr unig Fab Dwyfol oedd ganddo, wedi ymgnawdoli, ac wedi rhoddi ei hunan ar y Groes "yn aberth ac yn offrwm i Dduw o arogl peraidd." Erys Bethlehem a Chalfaria byth yn anfarwol fel y lleoedd y datguddiwyd gogoniant Duw benaf ar y ddaear. Ond ni byddai yn briodol i ni dybio fod Bethlehem a Chalfaria wedi hysbyddu athrylith y Cariad Dwyfol, ac na fedr byth mwyach ymddatguddio mewn gogoniant mwy ardderchog nag a ganfyddwyd yn ngolygfeydd y preseb a'r groes. Pwy ydym ni i benderfynu yn mha le y datguddiwyd eithaf athrylith y cariad dwyfol?

Yr oedd dechreuad Job yn cynwys daioni mawr, ïe, mor fawr, fel ag y tybiai ef nad oedd eisiau ei well. Yr oedd ganddo nyth, na ddymunai ei gwell i fyw nac i farw; ond chwalwyd ei nyth gyntaf, fel y gallai gael profiad o nyth oedd lawer gwell. "Felly yr Arglwydd a fendithiodd ddiwedd Job yn fwy na'i ddechreuad." (Job xlii. 12). Dyma hanes Duw yn holl gylchoedd ei weithrediadau, ac yn nhrefniad ei holl oruchwyl-

iaethau—gogoniant y diwedd o hyd yn fwy na gogoniant y dechreuad.

Yn ol yr egwyddor hon, gwelwn fod rhyw ogoniant mawr yn aros saint Duw yn y dyfodol. Rhyfedd y fath olygfa a gânt pan welant y tir pell a'r Brenin yn ei degwch! Wrth iddynt hwy gynyddu ar y ddelw ddwyfol, ac yn ngwybodaeth yr Arglwydd Iesu, cynhydda eu cynheddfau i dderbyn datguddiad o ogoniant mwy ardderchog yn barhaus. Ond bydd yn Nuw gyflawnder anfeidrol yn aros o hyd i'w ddatguddio, a phob datguddiad yn dwyn i'r golwg ogoniant mwy ardderchog, a hyny am fythol oes.

X.

Gwirioneddau Crefydd mewn Datguddiad a Phrofiad.

"Felly rhedwch, fel y caffoch afael."—

Yr Apostol Paul.

Cyfrifais wâg ffol bethau'r llawr
  Yn elw mawr a golud;
A'u ceisio yn egniol iawn,
  A wnawn, bob dydd o'm bywyd.

Ond enill Crist â 'nawr a'm bryd,
  A'i 'nabod hyd y gallaf;
Cael ynddo hafan tawel clyd
  Rhag 'stormydd byd tra byddaf.

Cymdeithas ei ddioddefaint drud,
  Ar bob rhyw bryd a geisiaf;
A chael fy nghydymffurfio 'n glau
  A'i angau, ymofynaf.

Grym adgyfodiad Iesu Grist,
  Caed f'enaid trist ei brofi;
Yn nerth i redeg gyrfa'r ffydd,
  Nes delo dydd coroni.

Anghofio'r wyf bob peth tu cefn,
  Fel caf drachefn fy nerthu
I 'mestyn at y gamp a'r nod
  Rhag îs y rhod i'm fethu.

O'm blaen mae'r adgyfodiad gwell,
  Ac er yn mhell, cyrhaeddaf—
A choron hardd yr ymdrech deg,
  Yn anrheg a dderbyniaf.

T. J. H.

Gwirioneddau Crefydd mewn Datguddiad a Phrofiad.

"Eithr y pethau oedd elw i mi, y rhai hyny a gyfrifais i yn golled er mwyn Crist," &c.—PHILIPPIAID III. 7—14.

PERTHYNA i bennod y testyn ddyddordeb neillduol, am y gesyd ger ein bron ddarlun o'r Iuddew uchelgeisiol ar un llaw, a'r Cristion hunanymwadol ar y llaw arall, a hyny yn yr un person. Mor bell ag y gosodid allan y bywyd crefyddol ar linellau Iuddewiaeth faterol a seremonïol, sylweddolwyd ei delfryd, yn ol safon yr oes hono, yn Saul o Tarsis. Efe yn ddiameu oedd ei blodeuyn prydferthaf, a choron ei gogoniant. Gesyd ger bron yn nechreu y bennod y rhagoriaethau yr hawliau feddiant ohonynt fel Iuddew. Yr oedd o waedoliaeth Iuddewig—"o genedl Israel, o lwyth Benjamin;" yn etifedd bendithion y Cyfamod ar sail ordinhad ddwyfol, "wedi enwaedu arnaf yr wythfed dydd;" yn un o bendefigion y genedl—"Yn Hebrëwr o'r Hebreaid;" yn uchel-ddefodwr—"yn ol y ddeddf yn Pharisead;" yn grefyddwr zelog ac ymroddol—"yn ol zel yn erlid yr Eglwys," ac yn ol safon y ffydd Iuddewig, yn gymeriad glân a pherffaith—"yn ol y cyfiawnder sydd o'r ddeddf yn ddiargyhoedd." Y pethau hyn oedd sail ei hyder am gymeradwyaeth Duw; ac yr oeddynt y pethau goreu allasai Iuddewiaeth eu cynyrchu. Eithr nid oedd ei hyder ynddynt yn ddim ond ymddiried yn y cnawd, ac yr oedd yr hyn a ystyriai yn wasanaeth i Dduw, yn erlidigaeth ar ei Fab.

Yn ein testyn, cawn olwg ar y Cristion ymostyngol ac hunanymwadol yn yr Apostol Paul, ac ar ragoriaeth

y bywyd Cristionogol ar yr un Iuddewig. Meddai yr Apostol bob cymhwyster i ddatgan barn ar y cwestiwn hwn,—yn wir, y cymhwyster penaf, sef *profiad*. Yr oedd ei farn ef am ragoriaeth y naill fywyd ar y llall yn seiliedig ar y profiad oedd ganddo ynddo ei hun o'r ddau, ac felly cawn ef yn ymwrthod â'r naill ac yn cofleidio y llall. Pwnc y testyn ydyw

GWIRIONEDDAU CREFYDD MEWN DATGUDDIAD A PHROFIAD YN EU DYLANWAD AR FYWYD Y CRISTION.

Wrth "Wybodaeth Crist" yn ein testyn y golygir y gyfundrefn o wirioneddau a ddatguddiodd trwy Ei ddysgeidiaeth er adfer pechadur euog i ffafr Duw, ac i fwynhad o'r dedwyddwch hwnw a gyferfydd yn llawn ei holl ddyheuadau. Mae holl wirioneddau y gyfundrefn o wybodaeth yn bod i gyd ar y cyntaf mewn datguddiad, ond trwy i'r pechadur gyd-ymffurfio âg amodau y drefn, deuant i fewn yn ffeithiau i'w fywyd, a chymerant eu lle y naill ar ol y llall yn nosbarth gwirioneddau profiad. Felly y mae i'r Cristion heddyw ddau ddosbarth o wirioneddau, sef y rhai y mae ganddo brofiad ohonynt, a'r rhai y disgwylia gael profiad ohonynt yn y dyfodol. Cawn sylwi, yn

I. AR WIRIONEDDAU CREFYDD MEWN PROFIAD YN EU DYLANWAD AR FYWYD Y CRISTION. "Eithr y pethau oedd elw i mi, y rhai hyny a gyfrifais i yn golled er mwyn Crist," &c.

I gael golwg ar y gwirioneddau sydd yn natguddiad Crist, yn dyfod yn wirioneddau profiad y Cristion, rhaid i ni ymofyn am amod y cymhathiad. Cyflwynir y cyfryw i'n sylw yn ngeiriau ein testyn. Rhaid i ni sylweddoli fod gwybodaeth Crist yr ardderchocaf o'r holl wybodaethau, cyn y gallwn gael sylweddoliad o'i gwirioneddau yn ein profiad. Dysgir hyn yn y geiriau, "Eithr dilyn yr wyf, fel y gallwyf ymaflyd yn y peth hwn hefyd yr ymaflwyd ynof gan Grist Iesu." Ai onid yw yn ffaith, na wna dyn ymdrech yn y byd i ymaflyd mewn dim, ond yn yr hyn fydd wedi ymaflyd

ynddo Ef? A'r hyn a ymeifl dynaf ynddo; i gael gafael ar hwnw y gwna ef yr ymdrech fwyaf. Ni welir y bardd yn cael ei gadeirio ar ddiwrnod mawr yr Eisteddfod Genedlaethol, os nad ymaflodd testyn yr Awdl neu y Bryddest ynddo ef rhyw flwyddyn cyn hyny. Ni welsid byth mo Columbus yn cofleidio tir yr America, oni buasai i'r syniad am dani ymaflyd ynddo ef yn gyntaf. Cymerodd y perl yn y ddameg afael diymollwng yn meddwl y marchnatäwr, ac yna nid oedd dim yn ormod ganddo i'w wneyd er ei feddianu—gwerthodd y cwbl oll a feddai, ac a'i prynodd. Felly y Cristion—mae gwybodaeth Crist wedi cymeryd gafael ynddo, ac ymaflyd ynddi hi ydyw nôd mawr ei fywyd bellach, trwy gael ei gwirioneddau yn ffeithiau yn ei brofiad ei hun. Dysg yr Apostol fod Crist datguddiad wedi dyfod i ni yn Grist brofiad yn y drefn a ganlyn :—

1. *Meddiant personol a phresenol o Grist.* "Fel yr enillwyf Grist." Saif y gair *enill* yma yn gyferbyniol i'r gair *colled* yn yr adnod o'r blaen. Trodd yr holl bethau yr ymddiriedodd Saul o Tarsus ynddynt fel Iuddew yn golled iddo. Disgwyliodd *elw* mawr oddiwrthynt, ond *colled* fu yr oll. Cael mawr cyntaf crefydd ydyw i Grist ein cael ni, a'r ail ydyw i ni gael Crist. Trwy ein *henill* yn unig y gall Ef ein cael ni, ac felly y gallwn ninau ei gael yntau. Un o wirioneddau cyntaf crefydd ydyw meddiant o Grist. Y foment y gadawn ni bob peth ein hen fywyd—y rhoddwn y cwbl ohonynt i fyny, cawn anfeidrol fwy nag ad-daliad am yr hunanymwadiad, oblegid enillwn Grist. Ei gael yn Waredwr yw y meddwl, ac wrth ei gael felly mae ein hiachawdwriaeth drwyddo yn ffaith ymarferol. Rhaid i ni gael Crist fel hyn, mewn trefn i gael egwyddorion ei wybodaeth yn ffeithiau yn ein bywyd, oblegid Efe ydyw ffynonell a chartrefle y cyfryw, yn ogystal a chyfrwng eu cyflead i weithredu ynom ni fel y gweithredant ynddo Ef.

2. *Diogelwch yn Nghrist.* "Ac y'm cair ynddo Ef heb fy nghyfiawnder fy hun," &c. Lleferir yma am

ddau gyfiawnder—cyfiawnder deddf, a chyfiawnder ffydd. Mae un yn gyfiawnder gweithredoedd a'r llall yn gyfiawnder gras. Gesyd yr Apostol wirioneddau ein testyn ger bron trwy ddwy gymhariaeth, sef *mordaith* a *gyrfa*. Cymhara ei fywyd crefyddol i ddechreu i fordaith, a hyny pan oddiweddir y llong gan dymhestl mor fawr fel nad oes ond un o ddau beth i'w wneyd, sef dioddef colled o'r *cargo*, neu golli bywyd. Bu yn ystorm felly ar yr Apostol Paul, a hanes hono sydd yn y pedair adnod gyntaf o'n testyn. Yr oedd ar ei fordaith yn llwythog o *gargo* Iuddewiaeth. Rhwygai'r storm o'i amgylch, ond pan ddeallodd fod Crist ynddi, gwaghaodd ei hun o bob peth ei hen fywyd, a daeth o beryglon y dymhestl i mewn i ddiogelwch yr hafan, sef i Grist. Y modd y cafodd i mewn i'r diogelwch oedd yn Nghrist, ydoedd trwy gyfiawnder ffydd. Cyfiawnder y cyfiawnhad ydyw hwn, a dyma yr unig gyfiawnder dichonadwy i droseddwr. Fe'n gwneir ni yn gyfiawn, nid trwy weithredoedd, ond trwy faddeuant pechodau. Cyfiawnder maddeuant ydyw cyfiawnder y cyfiawnhad, a thrwy ffydd yn Nghrist yn unig y gellir ei gael. Drwy hwn nyni a gawn o ganol holl beryglon yr ystormydd i ddiogelwch yr hafan; cael i Grist er mwyn cael diogelwch. Dyma y meddwl cyntaf.

3. *Adnabyddiaeth o Grist.* "Fel yr adnabyddwyf Ef," &c. Cael iddo, nid yn unig er diogelwch ond hefyd er ei adnabod. Rhaid cael i Grist cyn y gellir ei adnabod. I ysgrifenu hanes yr Amgueddfa Frydeinig, rhaid gwneyd rhywbeth heblaw desgrifio yr adeiladau oddiallan, oblegid oddifewn mae y cywreinion. Bu rhai yn edrych ar Grist, ac ymgymerasant â'i ddesgrifio, ond gan mai golwg allanol yn unig a gawsant arno, ni welsant na phryd na thegwch ynddo; nid oedd iddynt ond megys gwreiddyn o dir sych. Rhai yn Nghrist oedd yr Efengylwyr, ac iddynt hwy yr oedd Efe oll yn hawddgar. I adnabod holl drysorau doethineb a gwybodaeth rhaid cael i Grist, oblegid ynddo Ef y maent yn guddiedig.

(*a.*) *Adnabyddiaeth o Grist yn Waredwr personol.* "Fel yr adnabyddwyf Ef." Cynwysa hyn adnabyddiaeth ohono yn ei berson. Er ei fod y person rhyfeddaf a mwyaf cyfriniol yn bod, eto y mae yn adnabyddadwy. Nis gallwn ei ddirnad, ond gallwn ei adnabod, a hyny yn ei gariad a'i hunanymwadiad dihafal, ïe, ei adnabod yn ei fywyd a'i gymeriad, yn yr egwyddorion hyny a'u dullweddent ac a'u ffurfient. Yr adnabyddiaeth hon o Grist ydyw y Bywyd tragywyddol.

(*b.*) *Profiad o gymdeithas ei ddioddefiadau.* "Fel yr adnabyddwyf Ef. . . . a chymdeithas ei ddioddefiadau." Perthynai i Grist ddau ddosbarth o ddioddefadau, y rhai y gallwn eu galw yn ddioddefiadau cyfranogol ac anghyfranogol. Yr oedd ei ddioddefiadau dynol yn gyfranogol, ond yn ei ddioddefiadau Cyfryngol yn anghyfranogol. Gallwn ni ddyfod i gymdeithas y dosbarth cyntaf trwy eu dwyn ein hunain, ond nis gallwn ni byth ddwyn dioddefiadau ac ynddynt rinwedd aberthol ac iawnyddol. Ond nid wyf yn tybio fod y syniad hwn yn meddwl yr Apostol pan yn llefaru y geiriau—yr hyn a olygai oedd, cymdeithasu â dioddefiadau Crist trwy eu gwneyd yn destyn efrydiaeth. Fel y mae yr efrydydd yn cymdeithasu â thestyn ei efrydiaeth, felly yr ydym ninau i gymdeithasu â dioddefiadau Crist. Megys ag y mae dioddefiadau o gyffelyb natur yn dwyn dynion i gymdeithas â'u gilydd, ac i adnabod y naill y llall, felly hefyd yr effeithia cyffelybrwydd dioddefiadau Crist i ddioddefiadau ei ganlynwyr. Deuant trwy eu dioddefiadau eu hunain i gymdeithas ei ddioddefiadau ef, ac i'w adnabod yn nhynerwch ei gydymdeimlad ac yn hirymaros ei amynedd.

(*c.*) *Bydd i gymdeithas ei ddioddefiadau ein gweithio i gydffurfiad â'i farwolaeth.* "Gan fy mod wedi fy nghydffurfio â'i farwolaeth Ef," neu "i gyffelybrwydd ei farwolaeth Ef." Megys ag yr oedd Ef yn yn barod i farw er ein mwyn ni, felly y dylem ninau

fod yn barod i farw er ei fwyn Ef—nid yw yr un ystyr ac amcan, ond mewn cyffelybiaeth parodrwydd. Onid oes genym hanes miloedd o Gristionogion wedi eu cydffurfio i gyffelybrwydd marwolaeth Crist, trwy ddangos parodrwydd i farw er ei fwyn. Dyma a ganfyddwn yn hanes yr Apostolion a'r Merthyron.

(*d.*) *Profiad o rym ei adgyfodiad.* "A grym ei adgyfodiad." Fel y gwelwch, gesyd yr Apostol yr adgyfodiad yn ein testyn o flaen y dioddefaint a'r marw. Yr oedd fel pe yn edrych dros y cwbl, ac i fesur wedi anghofio y pethau llai yn mhresenoldeb y mwy. Enwa yr adgyfodiad yn gyntaf am mai efe ydyw y gallu nesaf mewn nerth i'r Person mawr ei hun. Y goddefol sydd yn y dioddef a'r marw, ond y gweithredol sydd yn yr adgyfodiad. Fe eglurwyd Crist mewn ymostyngiad trwy y dioddefiadau, ond fe'i "heglurwyd yn Fab Duw mewn gallu yn ol Ysbryd Sancteiddiad trwy yr adgyfodiad oddiwrth y meirw." Perthyna i adgyfodiad Crist rhyw rym (*force*) nad oes dim fedr sefyll o'i flaen. Adgyfododd mewn nerth, ac yn rhinwedd y cyfryw fe orchfygodd uffern a marwolaeth ac a'u hysbeiliodd o'u hallweddau, a chafodd i'w feddiant bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Adgyfodiad Crist yn unig sydd yn meddu ar rym i'n gwneyd yn sefydlog yn y grediniaeth mewn adgyfodiad o'r bedd yn y dydd diweddaf, ac anfarwoldeb mewn sefyllfa ddyfodol. Dyma y *grym* a'n hadgenhedla i obaith bywiol, a dim ond cyffyrddiad ohono a'n gwna yn ddigon cryfion i unrhyw beth, ac yn anorchfygol. Wedi i'r Apostol Petr brofi grym yr adgyfodiad, yr oedd yn ddigon cryf i sefyll yn mhresenoldeb y miloedd i bregethu ar ddydd y Pentecost, ac nid ofnai na chynghorau na brawdlysoedd byth ar ol hyny. Medda pob un sydd wedi ei gyfiawnhau brawf o rym adgyfodiad Crist yn ei brofiad ei hun. Os ydym ni wedi ein cyfiawnhau, yna rhaid fod Crist wedi adgyfodi, oblegid trwyddo Ef fel Crist byw yr effeithir y cyfnewidiad. Felly y mae adgyfodiad Crist yn wirionedd profiad y credadyn.

2. *Dylanwad y gwirioneddau hyn mewn profiad ar fywyd y Cristion.* Dylanwadant arno nes ei arwain i ymwadu â phob peth sydd yn rhwystr i gael meddiant o wybodaeth Crist, "Er mwyn yr hwn ym colledwyd yn mhob peth."

(1.) Dechreua yr hunanymwadiad hwn yn y meddwl "Cyfrif yn golled." Pasio barn yn gyntaf. Y *mathematician* enwocaf yn ysgol ysbrydoliaeth ydyw yr Apostol Paul. Ceir ef wrthi beunydd yn cyfrif. Mesura i ddechreu, a phwysa wedi hyny. Cawn ei yn mesur ac yn pwyso yn yr adnod hon, "Canys ein byr ysgafn gystudd ni sydd odidog ragorol, yn gweithredu tragywyddol bwys gogoniant i ni. (2 Cor. iv. 17.) *Byr gystudd—tragywyddol ogoniant. Ysgafn* gystudd —*pwys* gogoniant. Cawn ef bryd arall yn cyfrif—"Oblegid yr ydwyf yn cyfrif, nad yw dioddefiadau yr amser presenol hwn, yn haeddu eu cyffelybu i'r gogoniant a ddatguddir i ni." (Rhuf. viii. 18.) "Cyfrif pob peth yn golled."

(*a.*) *Cyfrif y pethau oedd elw yn golled.* Pa bethau oedd yn elw iddo? Yr holl ragorfreintiau oedd ganddo fel Iuddew.

(*b.*) *Cyfrif y rhagolygon oedd o'i flaen yn golled.* Rhaid fod rhagolygon disglaer iawn o flaen gŵr ieuanc o gymeriad a chyrhaeddiadau Saul o Tarsus. Diameu fod y ffordd i gadair Moses yn agor iddo, ac felly i fod yn brif Rabbi ei genedl. Ond rhoddodd y cwbl i fyny er mwyn Crist.

2. *Ni fu byth yn edifar ganddo.* "Ac yr wyf yn eu cyfrif yn dom, fel yr enillwyf Grist." Dyma ei brofiad yn mhen blynyddoedd ar ol gwneyd ei ddewisiad. Cyfrifodd yr oll a gafodd, a'r oll allasai gael trwy Iuddewiaeth fel *llaid y rhigolydd* o'u cyferbynu ac enill Crist. Profa amser iddo wneyd yn iawn. Beth fuasai iddo gael bod yn brif Rabbi yr Iuddewon, mewn cymhariaeth o fod yn Apostol mawr y Cenhedloedd?

II. GWIRIONEDDAU CREFYDD MEWN DATGUDDIAD YN EU DYLANWAD AR FYWYD Y CRISTION. "Os mewn un modd y gallwn gyrhaeddyd adgyfodiad y meirw," &c.

Yn yr adnodau hyn newidia yr Apostol y gymhariaeth o *fordaith* am yr un o *redegfa*. Cyrhaedd, ymaflyd, a chyrchu at y nôd ydyw hi bellach. Rhedeg yr yrfa sydd yma, ac "Ymestyn at y pethau sydd o'r tu blaen."

1. *Gwirioneddau crefydd mewn datguddiad.* Cyfeiriwn yn awr at y gwirioneddau hyny a berthynant i Grefydd Crist, nad oes neb ohonom ni eto wedi cael profiad ohonynt, ond er hyny a obeithiwn am eu mwynhau ar ol gorphen yr yrfa. Noda yr Apostol dri ohonynt, y rhai nad ydynt yn wirioneddau profiad i neb heddyw ond i Grist ei hun.

(*a.*) *Adgyfodiad y meirw.* "Os mewn un modd y gallwn gyrhaeddyd adgyfodiad y meirw." Dyma un o'r gwirioneddau mawrion a wahaniaetha Grefydd Crist oddiwrth holl grefyddau y byd. Ffarwelia pob crefydd arall â'r corph yn angau, ond rhŷdd hi iddo adgyfodiad gwell ar ddydd caniad yr udgorn. Yr adgyfodiad i fywyd tragywyddol a olygir yma. Am hwn y cyrchai ac y rhedai yr Apostol. Gwirionedd mewn datguddiad ydyw heddyw, ond daw yn wirionedd profiad i bob Sant ar ddydd datguddiad meibion Duw.

(*b.*) *Perffeithrwydd.* "Nid fel pe b'awn wedi ei gyrhaeddyd eisoes, neu fod eisoes wedi fy mherffeithio." Nôd i gyrchu ato oedd perffeithrwydd yn nghyfrif yr Apostol Paul, ac nid pwynt i'w gyrhaedd. Perffeithrwydd y sefyllfa ddyfodol a olygir yma, ar ol myned trwy gwrs-gyfnewidiad mawr yr adgyfodiad. Ai onid oes ynom syniad fod rhyw berffeithrwydd uwch yn gyrhaeddadwy i ni, na'r un a gyrhaeddasom eto, ac fe gawn berffeithrwydd felly yn ffaith yn ein profiad yn y byd a ddaw.

(*c.*) *Gwobr yr yrfa.* "Yr ydwyf yn cyrchu at y nôd, am gamp uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu."

Mae i fywyd o hunanymwadiad ei wobr. Nid ydym wedi ei chael eto, ond cawn y profiad bendigedig o'i derbyn o law y Barnwr cyfiawn ryw ddydd. Mae yn ein testyn *nôd* a *champ*. Y *nôd* ydyw perffeithrwydd, a'r *gamp* ydyw y wobr a fwynheir gan y rhai a gyrchant at y nôd trwy fywyd o hunanymwadiad ac ymdrech. Y *gamp*, mewn geiriau eraill, ydyw "Coron Cyfiawnder." Teimlai yr Apostol fod hon yn ei aros ef. "Mi a ymdrechais ymdrech deg, mi a orphenais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffydd." Yr oedd y pethau gwerthfawr hyn yn ffeithiau yn ei brofiad, ond cenfydd goron mewn datguddiad yn ei aros yn mlaen. "O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd, y Barnwyr cyfiawn, i mi yn y dydd hwnw." Ond a ydyw y profiad hwn yn bosibl i ryw un ei gyrhaeddyd heblaw yr Apostol? Ydyw, diolch i Dduw. "Ac nid yn unig i mi, ond hefyd i *bawb* a garant ei ymddangosiad Ef" (2 Tim. iv. 7, 8).

2. *Dylanwad y cyfryw wirioneddau ar fywyd y Cristion.* "Anghofio y pethau sydd o'r tu cefn, ac ymestyn at y pethau sydd o'r tu blaen," &c.

(*a.*) *Ei gyffroi i ymdrech egnïol.* "Os mewn *un modd* y gallwn gyrhaeddyd." Cyffyrddai seiniau yr "uchel-alwedigaeth" â *springs* galluoedd ei ysbryd mawr, nes eu rhoddi mewn gweithrediad ar eu llawn egnïon, er cael sylweddoli yr adgyfodiad, &c.

(*b.*) *Cymellent ef i osod o'r neilldu bob peth a dueddent i'w luddias ar ei yrfa.* "Gan anghofio y pethau sydd o'r tu cefn." Nid beth a wnaethom ac a gawsom, ond beth a allwn ei wneuthur, ac a allwn eu cael, sydd i fyned â'n sylw.

(*c.*) *Symbyliad i ymdrech barhaus.* "Eithr dilyn yr wyf," yn ddyfal a di-ildio. "Fel y gallwyf ymafiyd yn y peth hwn hefyd yr ymaflwyd ynof gan Grist Iesu." Os teimlodd yr Apostol ryw bryd ei gamrau yn pallu wrth redeg yr yrfa, bu cael golwg ar berlau y

goron oedd yn llaw ei Arglwydd, y Barnwr cyfiawn, yn foddion i roddi ynddo yni newydd i redeg yn ei flaen.

Yn awr, ddarllenwyr, a ydyw gwybodaeth Crist wedi enill eich bryd chwi? Mae yn y byd lawer gwybodaeth ardderchog yn bod. Gwybodaeth beirianol ardderchog—gŷr hon y llongau yn gyflymach na'r awelon ar draws tònau'r dyfnder mawr, a'r *trains* yn gyflymach na rhediad meirch buan ar draws y Cyfandir eang. Gwybodaeth wyddonol ardderchog—y *telegraph* i gario meddyliau, a'r *telephone* i gario geiriau wrth ewyllys meibion dynion. Ond yr ardderchocaf oll ydyw gwybodaeth Crist Iesu ein Harglwydd. Mae pob gwybodaeth arall i fesur pell yn gyfyngedig i'r byd hwn, ond dug hi fyd arall i'r golwg, a galluoga ni i ddal cymdeithas â'r Ysbrydol a'r Anweledig.

Ac y mae ei holl wirioneddau hi yn ffeithiau yn mhrofiad Crist, ac am ei bod felly iddo ef, byddant yr un modd i'w holl ganlynwyr yn y man. Medda y profiad o adgyfodiad. "Yr hwn wyf fyw, ac a fum farw;" profiad o berffeithrwydd,—"ac wedi ei berffeithio," â phrofiad o wobr, "ac wedi ei goroni â gogoniant ac anrhydedd." Mae'r gwaith mwyaf wedi ei wneyd pan ddyrchafwyd yr Iesu ar ddeheulaw gorseddfainc Duw. Nid oedd yn waith anhawdd cael teulu Jacob i Gosen ar ol cael Joseph yn llywydd ar wlad yr Aipht. Felly, wedi i'r Iesu gael ei adgyfodi, ei berffeithio, a'i goroni,—wedi iddo Ef gael y gwirioneddau mawrion yn ffeithiau yn ei brofiad, ni bydd mor anhawdd eu cael yn ffeithiau yn ein profiad ni. Os ydym yn ganlynwyr iddo; pob peth a gafodd Efe, ninau hefyd a'u cawn.

XI.

Cynydd a Dirywiad y Bywyd Crefyddol.

"Ychwanegwch yn eich Ffydd rinwedd," &c.

—Yr Apostol Paul.

Ffydd ydyw 'r ddawn o'r hon y tardd
  Grasusau hardd diri';
A gras mewn gras yn gyson sydd
  Ar gynydd ynddi hi.

O Ffydd, tardd rhinwedd mawr ei werth
  Yn brydferth ar bob pryd;
Gwroldeb yw, a deil ei nerth
  Yn anterth brwydrau 'r byd.

O Ffydd, gwybodaeth hithau ddaw
  Am bethau draw yn mhell;
Yn heirdd drigfanau tŷ fy Nhad,
  O fewn y wlad sydd well.

O Ffydd y tŷf, trwy allu Nêr,
  Wir gymedrolder gwiw;
A hwn bob dydd, llywodraeth ddwg,
  Ar nwydau drwg eu rhyw.

O Ffydd, y tŷf amynedd maith,
  A gobaith siriol, llon;
A chariad brawdol, nefol ryw,
  Sydd impyn byw o hon.

O Ffydd, duwioldeb allan dŷr
  Yn bur ei bron a'i phryd;
Ei heiddo hi yw 'r bywyd sydd,
  A'r hwn a fydd, o hyd.

O Ffydd, y cyfyd cariad gwiw,
  'Rhwn byth yn fyw a fydd,
I rwymo o'r grasusau blêth—
  Coronbleth gyrfa 'r ffydd.

Gwyn fyd y dyn a'r grasau f'o
  Ar gynydd ynddo 'n bod;
Mae 'n ddiwyd iawn, a'i ffrwyth yn lân,
  A Duw a gân ei glod.

T. J. H,

Cynydd a Dirywiad y Bywyd Crefyddol.

"Canys os yw y pethau hyn genych, ac yn aml hwynt, y maent yn peri na byddoch na segur na diffrwyth, yn ngwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist," &c.—2 PETR I. 8, 9.

YN yr adnodau blaenorol, cymella yr Apostol Petr etifeddion ffydd i ymroddi i gwbl ddiwydrwydd, i ychwanegu at eu ffydd rasusau ardderchog y "dduwiol anian," sef anian y bywyd Cristionogol. Yr oeddynt yn gyfranog "o gyffelyb werthfawr" ffydd â'r Apostolion, ac fel y cyfryw wedi eu cynysgaeddu â "phob peth a berthyn i fywyd a duwioldeb," gan ei "dduwiol allu Ef." At hyn hefyd, rhoddwyd iddynt "addewidion mawr iawn a gwerthfawr," fel cymellion i ymdrech, er dyfod yn "gyfranogion o'r dduwiol anian." Dengys mai y modd i gyrhaedd hyn oedd trwy "ddianc oddiwrth y llygredigaeth sydd yn y byd trwy drachwant."

Fe welir fod yma ddau fywyd yn cael eu dal yn wrthgyferbyniol, sef bywyd o ffydd a bywyd o drachwant. Un yn fywyd o *rinwedd*, a'r llall yn fywyd o *lygredigaeth*. Y naill yn fywyd ar i *fyny*, a'r llall yn un ar i *waered*. Wedi i ddyn gael ei drawsnewid i fywyd o ffydd, yr unig ffordd i barhau ynddo ydyw, trwy ddianc oddiwrth y llygredigaeth sydd yn y byd. Yn awr, llwybr y bywyd o ffydd i ddianc ar hyd-ddo, ydyw yr un a nodir ei gyfeiriad yn yr adnodau, 5—7. Y *stage* gyntaf yn ngyrfa y ffydd ydyw *rhinwedd*, yr ail *gwybodaeth*, &c., hyd nes y cyrhaeddir *cariad*. Fel hyn, wrth ddianc ar hyd llwybr gyrfa y ffydd, cawn fod grasusau y bywyd Cristionogol yn cyfodi o'u

hegwyddor gynyrchiol. Rhydd Duw ffydd i ni fel cyfalaf (*capital*) i'w ddefnyddio, a thrwy hyny i ychwanegu ato. Cynyrch y grasusau blaenorol yw y rhai olaf. O ffydd y cyfyd rhinwedd; o ffydd a rhinwedd y cyfyd gwybodaeth, &c.; ac o'r oll cyfyd cariad, yr hwn yw coron gogoniant a rhwymyn perffeithrwydd y cwbl. Ni ellir cyfodi yn uwch na chariad. Cariad ydyw cyrchnod mawr y bywyd o ffydd, ac wedi ei gyrhaedd y mae pob ofn a gyfyd oddiwrth y llygredigaeth sydd yn y byd trwy drachwant yn diflanu. "Nid oes ofn mewn cariad, eithr y mae perffaith gariad yn bwrw allan ofn" (1 Ioan iv. 18). Daw geiriau ein testyn i mewn fel cymhwysiad ymarferol o'r anogaeth a geir yn yr adnodau o'r blaen, a gosodant ger bron fywyd crefyddol mewn dau gyflwr.

I. Y Bywyd Crefyddol mewn Cyflwr o Gynydd. Yn ol y Cyfieithiad goreu: "Os yw y pethau hyn ynoch ä hwynt ar gynydd."

1. *Adnoddau y bywyd Crefyddol.*—"Y pethau hyn." Dylid cofio mai nid rhyw bethau fel addurniadau wedi eu gosod ar y Cristion ydyw grasusau ei grefydd; ond eu bod yn cyfodi o adnoddau mewnol. Prydfertha effeithiau eu gweithrediadau mewnol ymarferion allanol ei fywyd; oblegid fel y tŷr adnoddau bywyd sydd yn y pren allan yn flagur a blodau prydferth, felly y tŷr y grasusau mewnol sydd yn adnoddau bywyd crefyddol allan yn mhob amrywiaeth o brydferthwch yn mywyd allanol y Cristion. Mae prydferthwch gweithrediad mewnol yn wahanol iawn i brydferthwch gosodiad allanol. Prydferthwch bywyd yw y naill, ond prydferthwch celf, neu fferylliaeth yw y llall. Dyma y gwahaniaeth rhwng purdeb bywyd a phurdeb fferylliaeth. Dyna yr eira—mor bur ei ymddangosiad ydyw yn ei ddisgyniad ar y ddaear, ond nid oes ynddo allu i gadw ei hun yn bur a glân. Llychwynir ef gan frychau y llawr gyda'i fod wedi disgyn. Ond tŷr yr eirianlys (*snow drop*) fechan i fyny o'r ddaear ddu, gan ymddangos yn eu mentyll claerwyn, a chadwa hwy yn lân nes eu gwisgo allan, er yr holl lygr-

edigaeth sydd o'i hamgylch. Felly, y dyn a geisia ymwisgo mewn purdeb allanol, os mai aflan fydd ei galon, llychwynir ef fel y llychwyna yr awyr ddu wynder yr eiria. Ond yr hwn sydd â'r pethau hyn ganddo, cadwa ei wisg yn lân fel yr eirianlys yn nghanol ymarferion llygredig y trachwantau sydd yn y byd. A ydym ni wedi sylweddoli y gallwn gael meddiant o'r grasusau yn bywerau oddifewn a'n prydferthant â phob harddwch oddiallan? Ai oni ddylai y ffaith y gallwn eu cael, ein symbylu i ymdrech am eu mwynhau?

2. *Fod y pethau hyn ynom i fod mewn cyflwr o gynydd.* "Ynoch ac ar gynydd." Nid yw yn ddigonol i mi fod yn feddianol ar y grasusau hyd yn nod yn mherffeithrwydd eu rhif, ond dylent fod mewn cyflwr o gynydd. Mae pob gras trwy ymarferiad o hono, yn cynyddu nes dyfod yn alluog o ymarferiad uwch a rhagorach. Wrth barhau i edrych i'r anweledig, gloywa llygad ffydd i weled yn mhellach iddo; wrth goncro amgylchiadau, cynydda ein gwroldeb nes eu cael yn barhaus yn fwy darostyngol i'n hewyllys; wrth ymroddi i efrydu, cynydda ein gwybodaeth, ac wrth barhau i goncro ein tueddiadau ansanctaidd, cawn feistrolaeth lwyrach bob dydd dros ein chwantau gwrthryfelgar, &c.

3. *Fod y grasusau, tra mewn cyflwr o gynydd, yn beryddion i'n symbylu i weithgarwch.* "Maent yn peri na byddoch na segur na diffrwyth." Yn ol W. Salesbury,—"Can ys os byddwchwi a'r pethau hyn cynnwch, ac yn aml hwynt, peri a wnant na boch," &c. Sylwch ar y gair a ddefnyddir—PERI—"peri a wnant." Mae holl weithredoedd bywyd pob dyn yn effeithiau rhyw *berydd.* Nid oes dim ond Duw ei hun yn bod heb berydd iddo. Daeth y greadigaeth fawr i fod, am fod rhyw achos hollalluog yn *peri.* Awgryma y gair hwn i ni, fod rhyw berthynas gyffelyb rhwng grasusau crefydd a bywyd y credadyn, ag sydd rhwng geiriau Duw a bodolaeth y greadigaeth anianyddol. Perydd mawr y goleuni, yr haul, y lloer, &c., oedd y

gair "bydded." Duw yn peri, a'i eiriau yn cael eu sylweddoli mewn bydoedd a bodau yn yr eangder mawr. Cyffelyb i hyn ydyw y gallu sydd yn llenwi eangder mawr bywyd y Cristion â bydoedd o rinweddau a daioni—y peryddion grymus sydd yn galw y cyfryw i fod ydyw grasusau crefydd. Pa le bynag y maent, peri a wnant i weithredoedd o ddaioni dori allan mewn ffurfiau newyddion yn barhaus. Beth ydynt y peryddion yn ein bywyd ni? Awydd am gyfoeth, dyna sydd yn peri yn mywyd ambell i un. Awydd am bleser ac am anrhydedd ydynt y peryddion yn hanes eraill. Ai onid yw chwantau a nwydau natur ddiryw-iol yn beryddion yn hanes miloedd? Ydynt; ond cofiwn mai peryddion diawdurdod a dihawl ydynt oll. Nid oes gan ddim os nad ydyw wedi ei buro gan gariad hawl i beri yn nghylch y bywyd crefyddol.

(1.) *Symbylant i weithgarwch.* Dangosant i ni ein gwaith, a dangosant mai trwy weithio y cyfaddaswn ein hunain i wasanaeth nes ymddadblygu yn holl nerthoedd a phrydferthwch cynydd, a bod yr "un ffurf a delw ei Fab Ef."

(2.) *Symbylant i ddiwydrwydd mewn gwaith.* "Na byddoch na segur," &c. Yn y 5ed adnod o bennod ein testyn dywedir, "Gan roddi cwbl-ddiwydrwydd." Gan fod Duw wedi rhoddi i ni freintiau mor fawrion, arferwn ninau bob diwydrwydd yn ein gallu i wneyd defnydd ohonynt, i esgyn i'r safle uchaf yn bosibl mewn cariad, trwy sicrhau meddiant o rasusau crefydd yn mherffeithrwydd eu rhif ac yn nghyfander eu nerth. Gwna grasusau crefydd ddynion yn ddiwyd, oblegid nid oes le i segurdod yn y bywyd crefyddol.

(3.) *Parant i ffrwyth ymddangos ar ein bywyd.* "Na diffrwyth." Coronir y diwydrwydd a berir gan rasusau crefydd â ffrwyth. Beth ydyw ffrwyth ein bywyd—afalau Sodom, ynte sancteiddrwydd gras? Dywedir am afalau Sodom, eu bod yn ymddangos yn deg ar y pren, ond maluriant yn llwch pan afaelir ynddynt. Afalau Sodom yw pechodau o bob math—derfydd y

cwbl mewn malurion siomedig. Ond am sancteiddrwydd gras, dyma ffrwyth sydd yn foddion cynaliaeth yn mhob hinsawdd ac ar bob pryd. Bydd y ffrwyth yn sancteiddrwydd a'r diwedd yn fywyd tragywyddol.

(4.) *Cyrchnod y bywyd crefyddol.* "Gwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist." Dyma faes llafur diwydrwydd Cristionogol. Y meddwl yw, cael y fath adnabyddiaeth o Iesu Grist yn ei Berson ac yn mhob peth a berthyn iddo, a effeithia y fath gyfnewidiad, nes ein cydffurfio âg ef yn mhob peth ei fywyd moesol ac ysbrydol. Wedi i ni gyrhaedd y wybodaeth uchel hon o Grist, cawn ein llywodraethu gan yr egwyddorion a'i llywodraethent Ef, ac mewn canlyniad, brofiad o "Grist ynom, gobaith y gogoniant."

II. BYWYD CREFYDDOL MEWN CYFLWR O DDIRYWIAD. "Oblegid yr hwn nid yw y pethau hyn ganddo," &c. Canfyddwn yn eglur fod cyfeiriad yr adnod hon at rai fuont yn etifeddion ffydd, oblegid cawsant eu glânhau oddiwrth eu pechodau gynt.

1. *Bu ganddynt ffydd, ac i ryw fesur yr holl rasusau a berthyn iddi.* Bu "y pethau hyn ganddynt" unwaith, sef yn eu cyflwr cychwynol. Ond esgeulusasant roddi cwbl-ddiwydrwydd er sicrhau cynydd y grasusau. Cawsant ffydd ddigonol i dderbyn maddeuant pechodau a golchiad yr adenedigaeth. Ond ar ol dyfod trwy borth yr esgoreddfa i fyd y bywyd ysbrydol, ni chynyddodd eu ffydd i'r graddau oedd angenrheidiol fel ag i fod yn egwyddor gynyrchiol yn eu bywyd. Fel y gwelir ambell i bren—daeth trwy y cwrsweithrediadau angenrheidiol fel amodau tyfiant—aeth ar gynydd am amser. Ond yn mhen cyfnod, canfyddwyd ei fod wedi peidio tyfu, a bu am flynyddoedd felly. Yr oedd ganddo ddigon o nodd ynddo i'w gadw yn fyw, ond rhy fach i beri tyfiant. Ni chyrhaeddodd byth hyd at y perffeithrwydd hwnw mewn tyfiant fel ag i flodeuo a ffrwytho. Fel y pren hwn ydyw y sawl nad yw y pethau hyn ganddynt mewn cyflwr o gynydd. Maent yn yr Eglwys, ond ni buont erioed

yn meddu ar ffydd, ond yn eu graddau cychwynol, sef ffydd i dderbyn yn unig—ni chydymffurfiasant âg amodau cynydd ffydd nes iddi ddyfod yn egwyddor gynyrchiol yn eu bywyd.

2. *Mae yn cyflwr o dirywiad.* "Dall ydyw heb weled yn mhell," &c. Ceir yn yr adnod ddau arwydd sicr o ddirywiad, sef cof rhwyd-dyllog, a golwg amherffaith, ac felly y mae pethau mawrion y mynedol a'r dyfodol yn aneffeithiol i wneyd argraff arnynt.

(1.) *Daeth dirywiad i'r cof.* "Wedi gollwng dros gof eu glânhau oddiwrth eu pechodau gynt." Yr oedd ganddynt bethau ardderchog i gofio am danynt —y ffydd a gawsant, y maddeuant a dderbyniasat, a'r glanhau fu arnynt. Ond trwy beido myned ar gynydd ffydd, aeth y cwbl yn anghof. Y canlyniad o hyn oedd, iddynt syrthio yn ol i'w hen gyflwr—yr hen bechodau a fwriwyd allan, yn ail feddianu y galon. Fel hyn aeth y pethau mwyaf effeithiol a feddai y mynedol yn ddifudd iddynt, ac yn ddieffaith arnynt.

(2.) *Pallodd eu golygon.* "Dall ydyw heb weled yn mhell." Y meddwl yw—dall i bethau sydd yn mhell. Medda yr hwn a ddesgrifir yma allu i weled, ac y mae yn gweled y pethau bychain sydd yn ei ymyl, ond y mae yn ddall i'r pethau mawrion sydd yn mhell. Os daliwch eich llygaid o hyd i edrych ar bethau bychain a distadl, chwi a gewch fod eich golwg wedi crybychu, a phan ewch allan i'r awyr glir, nis gall eich llygaid ddal goleuni disglaer yr haul, na gweled golygfeydd ardderchog y terfyn-gylchau pell.

Felly y crefyddwr digynydd: rhoddodd Duw olwg i'w ffydd, a gosododd o'i flaen wrthrychau ardderchog i dynu ei sylw, ond esgeulusodd edrych arnynt; ac felly aeth yn ddall iddynt. Trwy hyn y mae pethau mawrion y dyfodol, pethau yr addewidion mawr iawn a gwerthfawr wedi colli eu heffaith a'u dylanwad ar ei fywyd. Yn ngwyneb y ffeithiau difrifol hyn, holwn ein hunain, pa un ai ar gynydd, ynte mewn cyflwr o ddirywiad y mae ein bywyd crefyddol.

XII.

Gdrych ar y pethau ni welir.

"Rhoddwch eich bryd ar bethau sydd uchod, ac nid ar bethau sydd ar y ddaear."—Yr Apostol Paul (Cyf. Dr. Morgan).

Edrych wneuthum ar A welir—
  Disglaer olwg arnynt gawn;
Ond diflanodd eu gogoniant
  Cyn ei myned yn brydnawn:
Ar a welir,
Byth ni roddaf mwy fy mryd.

Edrych wneuthum ar NI welir—
  Trugareddau grasol ddawn,
A chynyddai eu gogoniant
  Fel yr elai'n hwyr brydnawn:
Ar ni welir,
Byth y rhoddaf mwy fy mryd.

Byr yw pob peth byd o amser,
  Byr ei gystudd, ysgafn iawn;
Maith yw pob peth byd tragwyddol,
  Pwys gogoniant hwn sy'n llawn:
Byd o amser,
Nid yw'n deilwng o fy mryd.

O fy mlaen mae'r byd tragwyddol—
  Llawn sylweddau pur dilyth;
Mae fy serch trwy gyfrin g'lymau
  Yn ddiogel iddo byth:
Byd tragwyddol,
Hwn yn unig leinw'm mryd.

T. J. H.

Edrych ar y Pethau ni Welir.

"O herwydd paham nid ydym yn pallu; eithr er llygru ein dyn oddi allan, er hyny y dyn oddi mewn a adnewyddir o ddydd i ddydd. Canys ein byr ysgafn gystudd ni sydd yn odidog ragorol yn gweithredu tragywyddol bwys gogoniant i ni; tra na byddom yn edrych ar y pethau a welir, ond ar y pethau ni welir: canys y pethau a welir sydd dros amser, ond y pethau ni welir sydd dragywyddol."—2 CORINTHIAID IV. 16—18.

LLEFARA yr Apostol yma am ddau ddyn—y "dyn oddiallan" a'r "dyn oddifewn," ac felly dyn yn ei berthynas â'r anianol ac â'r ysbrydol. Perthyna i'r ddwy ran eu priodoleddau priodol eu hunain—mae'r corph yn gartrefle synwyrau a'r ysbryd yn eisteddle cynheddfau meddyliol. Cyfetyb y "pethau a welir" i'r "dyn oddiallan," a'r "pethau ni welir" i'r "dyn oddifewn." Yn y sefyllfa bresenol y mae gan ddyn i ymwneyd â gwrthrychau dau fyd, a hyny yn y fath fodd fel ag i'r gwrthrychau pwysicaf gael eu lle priodol yn eu perthynas â dyben uchaf bywyd. Yn ein testyn, cyfarwydda yr Apostol pa fodd i weithredu yn yr achos hwn, trwy ddysgu, ar ba beth i edrych er troi holl anfanteision bywyd yn foddion i hyrwyddo ei ddaioni uchaf. Y gwirionedd a ddysgir yw fod

BYW DAN DDYLANWAD YR ANWELEDIG A'R TRAGYWYDDOL YN PERI I ANFANTEISION BYWYD HYRWYDDO EI LWYDDIANT.

Cyfeiria yr Apostol ni yn y bennod hon at gystuddiau mawrion ei fywyd, a dengys yn ein testyn fod ysbryd ar amcan, neu neges bywyd yn ngoleuni y gwrthrychau priodol yn peri i ddioddefiadau weith-

redu er chwyddo maint ac ychwanegu ysblander gogoniant y dyfodol.

I. BYWYD DYN AR Y DDAEAR YN EI BERTHYNAS A BYD "Y PETHAU A WELIR" AC A BYD "Y PETHAU NI WELIR."

Cynwysa fywyd yn ngwasanaeth Duw ar y ddaear ddadfeiliad ac adnewyddiad—y dyn oddiallan yn llygru, ond y dyn oddi fewn yn adnewyddu o ddydd i ddydd. A y corph yn waeth ond yr ysbryd yn well—un yn wanach yn y gwasanaeth a'r llall yn gryfach. Yr esboniad ar hyn ydyw, fod bywyd y Cristion ar y ddaear yn sefyll mewn perthynas â dau fyd—y tymhorol a'r tragywyddol.

1. *Dyn yn ei berthynas â byd y gwelediad.* "Y pethau a welir." Y tymhorol ydyw byd y dyn oddiallan; â gwrthrychau hwn y mae ganddo i ymwneyd, ac i ddeddfau hwn y mae yn ddarostyngedig. Yn cyfateb i briodoleddau byd y gwelediad mae synwyrau y corph, ac y mae y pethau a welir yn cynwys y cwbl ag y mae dyn trwy gyfrwng y synwyrau yn dyfod i feddiant o sicrwydd o'u bodolaeth ac i adnabyddiaeth ohonynt. Tystiolaeth synwyrau, megys golwg, clyw, teimlad, &c., ydyw y sicrwydd uchaf allwn gael o fodolaeth mater yn ei wahanol ansoddau a'i ffurfiau. Presenola gwrthrychau byd y gweledig eu hunain ger ein bron, a thrwy gyfrwng y synwyrau corphorol yr ydym yn eu hadnabod. Ond gellir rhestri hefyd yn mhlith gwrthrychau byd y tymhorol, cyfoeth, pleser, anrhydedd, a mawredd daearol ar un llaw; tlodi, cystudd, gwaradwydd, a darostyngiad ar y llaw arall. Dyma, yn ddiau, y prif feddwl sydd i'r ymadrodd "pethau a welir" yn ein testyn. Perthyna i'r dyn oddi allan nwydau, y rhai a elwir gan Ioan yn chwant y cnawd, chwant y llygad, a balchder y bywyd, ac y mae yn myd yr allanol wrthrychau cyfatebol iddynt i'w cyflenwi â mwynhad momentawl a diflanol. Maent oll yn gyfreithlon yn eu cylch a'u dyben bwriadedig, ac ni waherddir i ni edrych arnynt

yn y goleuni iawn; ond os edrychwn arnynt fel safonau bywyd, i ffurfio ein cymeriad yn eu hol, byddwn yn eu defnyddio i amcan anmhriodol, ar gyfer yr hwn nid oes ynddynt gyfaddaster.

2. *Dyn yn ei berthynas â byd y tragywyddol.* "Y pethau ni welir sydd dragywyddol." Yr ydym trwy dystiolaeth synwyrau y corph yn cael prawf sicr o fodolaeth y pethau a welir, a thrwy dystiolaeth rheswm a ffydd yn cael profion yr un mor sicr o fodolaeth y pethau ni welir. Y pethau ni welir ydynt egwyddorion a sylweddau y byd moesol ac ysbrydol, y rhai a gariant ddylanwad ar ddyn er ei arwain i ffurfio cymeriad da. Yn mhlith y cyfryw gallwn nodi, bodolaeth Duw fel Llywydd goruchel y byd, egwyddorion tragywyddol ei natur fel egwyddorion gweinyddiadol ei lywodraeth, sefyllfa ddyfodol, yn cynwys y nefoedd a'i holl ddedwyddwch ar un llaw, ac uffern a'i holl drueni ar y llaw arall. Maent yn wirioneddau rheswm ac yn cael eu sylweddoli genym trwy ffydd nes meddu sicrwydd mor wirioneddol o'u bodolaeth ag a feddwn o fodolaeth pethau a welir. A thra y byddwn yn edrych arnynt i ffurfio cymeriad yn eu hol, daw ein cymeriad yn y man mor ddisglaer a chyfiawnder, mor lân a sancteiddrwydd, ac mor dyner a chariad. Felly, yn ngoleuni y pethau ni welir, yr ydym i dderbyn yr addysg a'n cyfarwydda i ffurfio cymeriad a ddeil ei glorianu.

II. RHAGORIAETH Y PETHAU NI WELIR AR Y PETHAU A WELIR. "Ond y pethau ni welir sydd dragywyddol."

1. *Rhagorant ar gyfrif eu mawredd a'u pwysigrwydd.* Terfynol a lleol yw y pethau a welir, ond anherfynol a chyffredinol yw y pethau ni welir. Yr un yw cyfiawnder yn mhlith holl fodau moesol creadigaeth fawr Duw, ac felly hefyd daioni a chariad. Felly y mae cymeriad wedi ei ffurfio yn ol cynllun safon y pethau ni welir yn werthfawr bob amser ac yn mhob man, ac yn drwydded i ddyrchafiad ac anrhydedd yn y byd a ddaw.

2. *Rhagorant ar gyfrif eu parhad.* Un o ddeddfau hanfodol y pethau a welir ydyw cyfnewidiolrwydd, ac y mae pob peth sydd yn cyfnewid i derfynu. Fel y mae tystiolaeth synwyrau y corph yn profi bodolaeth y pethau a welir, felly hefyd, profent mai pethau dros amser ydynt. Ond y mae dyn yn anfarwol, ac felly yn ddeiliad byd tragywyddol, a'i angen mawr ydyw, fod ansawdd ei gymeriad yn cyfateb i sylweddau tragywyddoldeb. Y modd i gael cymeriad felly ydyw edrych yn barhaus yn ngwyneb cyfiawnder, sancteiddrwydd, a chariad; canys wrth wneyd hyn trawsffurfir dyn i'w delw, a daw yn gyfranog o honynt.

III. DYLANWAD YR ANWELEDIG A'R TRAGYWYDDOL YN PERI I ANFANTEISION BYWYD I HYRWYDDO EI LWYDDIANT. "Yn gweithredu tragywyddol bwys gogoniant i ni."

Mae y cyfieithiad Cymreig o'r adnod hon yn dra chamarweiniol, oblegid y mae yn cyfleu y syniad fod ein byr ysgafn gystudd ni yn odidog ragorol, tra nad oedd hyny yn meddwl yr Apostol. Cyfieithiad Mr. W. Salesbury oedd, "O bleit ysgavnder ein gorthrymder yr hwn ni phery ddim hwyachen, a bair i ni dra ardderchog a thragywyddawl bwysg gogoniant." Dr. Morgan a gyfieitha, "Oblegid y mae ysgafnder ein cystudd ni, yr hwn ni pheru ond mynud, yn peru i ni yn rhagorol gael rhagorol a thragywyddol bwys gogoniant." Dyma y meddwl: "Canys ein byr ysgafn gystudd ni a weithreda yn odidog i ni dragywyddol bwys gogoniant." Felly nid yr hyn a ddysgir yw, fod cystudd yn *odidog ragorol*, ond ei fod yn *gweithredu* yn odidog er peri i ni gael rhagorol a thragywyddol bwys gogoniant.

1. *Yn ngoleuni y pethau ni welir yn unig y gellir adnabod cystudd.* Yn ngoleuni gogoniant yn unig y gwelwn hyd a phwysau cystudd.

(1.) *Cystud a gogoniant.* Golyga cystudd gyflwr o ddioddef, a gogoniant gyflwr o fwynhau, ac felly safant yn wrthgyferbyniol i'w gilydd. Nid cystudd sydd yn

cyfodi o'r corph fel afiechyd a olygir yma, ond yr hwn a gyfyd o fywyd ymgysegredig i wasanaeth crefydd. I adnabod hwn rhaid edrych arno yn ngoleuni gogoniant, sef y cyflwr o fwynhad ac anrhydedd a erys y Saint yn y nefoedd.

Yn ein testyn, cawn y Apostol yn mesur ac yn pwyso cystudd, ac yn ei gael yn fyr ac yn ysgafn. Gwna hyny wrth safonau y pethau ni welir, sef rhyw egwyddorion digyfnewid a berthyn i'r gogoniant na welodd llygad, ond a ddatguddiwyd i ffydd.

(2.) *Byr gystudd—tragywyddol ogoniant.* Yn ngoleuni y pethau a welir y mae cystudd yn faith. Yn wir, nid oes dim a bâr i amser ymddangos mor faith a chystudd. Mae dioddef poenau dirdynol yn estyn mynudau i oriau, ac yn peri i oriau ymddangos fel blynyddoedd. Ond wedi'r cwbl *byr* yw cystudd, oblegid myned heibio y mae, ac y mae pob peth sydd yn darfod, yn fyr yn ymyl y diddarfod.

(3.) *Ysgafn gystudd—pwys gogoniant.* Os edrychwn ar gystudd yn unig yn ngoleuni y pethau a welir, ymddengys yn *drwm* iawn. Ond yn ngoleuni y pethau ni welir, nid ydyw ond ysgafn, ac nis gall gyrhaedd ddim pellach na'r dyn oddi allan, a phan dano gorfoledda y dyn oddi fewn. Eithr y mae gogoniant am ei fod yn gyfansoddedig o bethau ni welir—pethau digyfnewid—egwyddorion sefydlog natur foesol Duw, yn drymion eu pwysau. Pethau ysgafn ydynt y pethau a welir—pethau a ysgydwir ymaith gan dymhestloedd; ond pethau â phwysau ynddynt ydynt y pethau ni welir—pethau rhy drymion i ddim allu eu symud byth. Felly, o edrych ar gystudd yn ngoleuni gogoniant, gwelwn ei fod yn fyr ac yn ysgafn.

2. *Gwna edrych ar y pethau ni welir i gystudd weithredu er dwyn oddiamgylch effeithiau daionus.* Mae dioddef cystudd dan edrych ar y pethau ni welir yn dadblygu cymeriad yn yr holl rinweddau posibl iddo, a thrwy hyny gymhwyso y dioddefydd i fwynhau gogoniant y nef am byth. Trwy edrych ar y pethau

ni welir y canfu Moses ragoriaeth adfyd gyd â phobl Dduw, ar fwyniant pechod dros amser. Y fath wahaniaeth a ganfyddir rhwng y rhai a edrychant ar amgylchiadau croes bywyd yn ngoleuni y pethau a welir, a rhai a edrychant arnynt yn ngoleuni y pethau ni welir. Cyfarfyddodd Naomi â thywydd mawr yn nhir Moab—collodd ei dau fab, ac edrychai ar yr holl ddigwyddiadau yn ngoleuni y pethau a welir, a dywedai "Yr Hollalluog a wnaeth yn chwerw iawn â mi." Cyfarfyddodd Job ac amgylchiadau llawer mwy trallodus, ond gan ei fod yn edrych arnynt yn ngoleuni y pethau ni welir, canfyddai ddaioni Duw yn y cwbl, a dywedai—"Bendigedig fyddo enw yr Arglwydd." Digiodd Jonah pan wywodd ei cicaon, a dywedodd, "Gwell i mi farw na byw;" ond Habacuc pan gollodd y cwbl a feddai a dorodd allan i orfoleddu, "Eto mi a lawenychaf yn yr Arglwydd, byddaf hyfryd yn Nuw fy iachawdwriaeth." Pan oddiweddwyd y Patriarch Jacob â thywydd mawr, cwynai—"Yn fy erbyn i y mae hyn oll." Ond pan oddiweddwyd yr Apostol Paul â stormydd llawer mwy, gorfoleddai, gan ddywedyd, "ac ni a wyddom fod pob peth yn cyd-weithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw." Y rheswm am y gwahaniaeth yn nghyflwr meddwl y personau hyn oedd, fod y naill yn edrych ar yr amgylchiadau yn ngoleuni y pethau a welir, a'r lleill yn ngoleuni y pethau ni welir.

Ar ba bethau yr ydym ni yn edrych? Cofiwn mai y pethau sydd yn cael y sylw penaf genym ydynt y prif weithredyddion (*factors*) yn ffurfiad ein cymeriad. Wrth edrych ar gystudd yn ngoleuni y pethau ni welir, ymddengys i ni yn fyr ac yn ysgafn, ac yn cael ei ddarostwng i fod yn îs-wasanaethgar i hyrwyddo ein daioni uchaf.

XIII.

Dyfodiad Mab y Dyn.

"Yn wr perffaith at fesur oedran cyflawnder Crist."—Yr Apostol Paul.

Y Duwdod pan ynddo ei Hunan symudai,
Yn Undod ei Hanfod yn Dri o Bersonau:
Wrth ganfod ei Ddelw mor gu a rhagorol,
Yn ngwyneb ei Gyn-fab, yn brydferth dragwyddol,
Y Ddwyfol hardd ddelfryd o ddyn a ganfyddodd
A thros ei wynebpryd gwrid cariad a gerddodd.

A dywedodd y Duwdod "Cyfodwn, a gwnawn ddyn,
Yn berffaith ar ein Delw, yn llawn ar ein Llun,"
Ac yntau pan grewyd, i'r orsedd dyrchafwyd,
Ac iddo arglwyddiaeth ar bob peth a roddwyd;
Ond Satan a'i temtiodd—o'r orsedd fe syrthiodd,
A'r ddelfryd ddiflanodd o Adda pan bechodd.

Ni fynai y Duwdod fel hyn ei orchfygu;—
I'r ddelfryd ni fynai fod heb ei gwireddu;
Am hyny 'r Anwyl-fab—Cynddelw dynoliaeth,
"Yr Arglwydd o'r nefoedd" a ddaeth i'w gwaedoliaeth:—
Efe a wireddodd y ddelfryd o'r ddynol,
Ac erys hon ynddo yn sylwedd tragwyddol.

Dyfodiad y Mab, yw yr hanes byth mwy
I adfer dynoliaeth o'i chrwydriad a'i chlwy';
A Satan orchfygir er cryfed ei gâs
Trwy 'r nerthoedd a lifant o'r Iesu a'i ras;
A'r ddelfryd dragwyddol dry 'n ddelw mewn dyn,
Ac ynddo 'n oesoesoedd gwel Duwdod ei hun.

T. J. H.

Dyfodiad Mab y Dyn.

"Gwyliwch gan hyny a gweddïwch bob amser, ar gael eich cyfrif yn deilwng i ddianc rhag y pethau hyn oll sydd ar ddyfod, ac i sefyll gerbron Mab y dyn."—LUC XXI. 36.

PAN ragfynegodd yr Iesu i'w ddisgyblion am ddymchweliad y deml, gofynasant iddo,—"Athraw, pa bryd, gan hyny, y bydd y pethau hyn? a pha arwydd fydd pan fo y pethau hyn ar ddyfod?" Yn ei atebiad dysg yr Iesu y cymerai rhyfeloedd, terfygoedd, daeargrynfäau mawrion, a phethau ofnadwy le; ac y caethgludid yr Iuddewon at bobloedd lawer, "hyd oni chyflawner amser y cenhedloedd." Arwyddion o'i ddyfodiad ef fyddai yr holl chwildroadau hyn, ac yn ei oleuni ef yn unig y gellir eu hesbonio. "A bydd arwyddion yn yr haul, a'r lleuad, a'r ser; ac ar y ddaear ing cenhedloedd gan gyfyng-gyngor; a'r môr a'r tònau yn rhuo. . . . Ac yna gwelant Fab y dyn yn dyfod mewn cwmwl, gyd â gallu a gogoniant mawr." Cymhwysiad o'r gwirionedd hwn at ystyriaethau y disgyblion ydyw geiriau ein testyn. "Gwyliwch gan hyny," &c. Awgryma y geiriau i ni dri gwirionedd Yn

I. FOD Y SYNIAD O DDYN WEDI EI SYLWEDDOLI YN YR ARGLWYDD IESU. "Mab y dyn."

Nid yw yn angenrheidiol profi fod y syniad o ddyn i'w ganfod yn eglur yn nysgeidiaeth y Beibl; oblegid ei neges ef ydyw, datguddio y drefn trwy yr hon y mae y dyn delfrydol i gael ei sylweddoli yn y dyn gwirioneddol. I egluro hyn galwn sylw at

1. *Y syniad o ddyn yn y meddwl dwyfol.* Pan yn meddwl am Dduw yn creu, rhaid i ni dybio fod ganddo yn ei feddwl syniad o'r hyn oedd y peth a greai i fod,

a thrwy sylweddoli y syniad hwnw yr oedd y crëedig i ateb dyben ei greadigaeth. Un o greaduriaid ardderchocaf Duw ydyw dyn, a chawn iddo ei greu yn ol y syniad oedd yn ei feddwl ohono. "Duw hefyd a ddywedodd, gwnawn ddyn ar ein delw ni wrth ein llun ein hunain" (Gen. i. 26). Yn awr, yn y *ddelw* a'r *llun* y cyfeirir atynt yma yr oedd y syniad o ddyn yn bod yn y meddwl dwyfol. Dysgir ni yn yr adnod a ddifynwyd, fod yn y Duwdod luosowgrwydd o bersonau—"*Gwnawn ddyn.*" Tri yw eu nifer, a gelwir hwy yn Dad, Mab, a Ysbryd Glân. Gelwir yr ail berson yn Fab, a dysgir gan yr Apostol Paul, mai Efe yw delw y Duw anweledig, a gwir lun ei sylwedd Ef. Ar ddelw a llun y Mab y gwnaed dyn. Ac felly mewn rhyw ystyr ddofn a goruchel y Mab oedd y syniad tragywyddol yn y meddwl dwyfol o ddyn, ac o ganlyniad yr oedd dyn i fod yn Fab Duw ar gynllun y fabolaeth dragywyddol oedd yn y Duwdod—ar gynllun y dyn cynddelwol—y Dyn o'r nef.

2. *Y syniad o ddyn yn y meddwl dynol.* Pan greodd Duw ddyn, creodd ef yn ol y syniad oedd yn ei feddwl ohono, a throsglwyddodd y cyfryw i feddwl yr hwn a greodd ar ei ddelw ei hun. Os nad oedd yn meddwl dyn syniad o'r hyn oedd i fod, pa fodd yr oedd yn bosibl i syniad Duw ohono, gael ei sylweddoli ynddo? Er i Adda a'i hâd ymlygru, eto arhosodd y syniad o ddyn yn y meddwl dynol trwy bob dirywiad. Dyma sydd yn rhoi cyfrif am y sefydliadau addysgawl sydd yn y byd i ddiwyllio dynion—rhyw syniad o ddyn yr ymdrechir ei sylweddoli. Heb y syniad hwn ni buasai cynydd mewn diwylliant a dyrchafiad yn bosibl; ac ar y cyfan y mae y syniad o ddyn sydd yn y meddwl dynol, yn cyfateb i'r hwn sydd yn y meddwl dwyfol ohono.

3. *Y syniad o ddyn wedi ei sylweddoli yn yr Arglwydd Iesu.* Yr oedd Adda yn ei greadigaeth ar ddelw Duw, ac wedi ei gynysgaethu â phob gallu a mantais i'r syniad o ddyn gael ei sylweddoli ynddo. Ond pan wrandawodd ar lais y temtiwr, anufudd-

haodd i orchymyn ei Arglwydd, a syrthiodd o flaen hudoliaeth Satan, ac mewn canlyniad ymgollodd y dyn, i fesur pell, yn y pechadur, a byth er hyny rhyw adfeilion dynoliaeth yw meibion Adda.

Wrth ddarllen yr Hen Destament, canfyddwn fod rhyw syniad yn y byd trwy'r oesau o ddyn, yr hwn y disgwyliai pawb am dano. Diameu y teimlai Adda, na sylweddolwyd y syniad o ddyn ynddo ef, ond disgwyliai iddo gael ei sylweddoli yn "hâd y wraig." Disgwyliai Abraham, Jacob, a Moses iddo gael ei sylweddoli yn yr "Hâd addawedig," yn y Silo oedd ar ddyfod, ac yn y Prophwyd mawr a gyfodai Duw o genedl Israel. Diswyliai yr Iuddewon i'r syniad o ddyn gael ei sylweddoli yn y Messïah; a phreswylwyr eithafoedd y byd a ddisgwylient iddo gael ei sylweddoli yn "nymuniant yr holl genhedloedd." Sylfaena pob cenedl ar wyneb y ddaear eu gobeithion am ddyrchafiad a dyfodol gogoneddus ar un ag y sylweddolir ynddo yn llawn y syniad o ddyn.

Yn Iesu Grist yn unig y cafodd y syniad hwn ei sylweddoli, ac felly efe ydyw gobaith "holl gỳrau y ddaear." Yr oedd ef erioed y dyn cyn-ddelwol, a thrwy ei ymgnawdoliad daeth yn ddyn gwirioneddol. Wedi i Adda syrthio, nid oedd bosibl "Mab y dyn" o neb ond o "Fab Duw." Aeth y ddynoliaeth i lawr yn yr Adda cyntaf, ac nid oedd yn bosibl ei chodi i fyny yn ol ond trwy ei huno â'r ddwyfol yn mherson yr Adda diweddaf.

Yn nysgeidiaeth yr Apostol Paul cawn athrawiaeth y ddau Adda.—Yr Adda cyntaf a'r Adda diweddaf. Y dyn o'r ddaear oedd y cyntaf, ond y dyn o'r nef yw y diweddaf. Nid oes yn hanes dynoliaeth ond dau Adda i fod. Càuir allan y posibilrwydd o drydydd yn hollol, oblegid mae "y dyn o'r nef," "yr Adda diweddaf," ac efe o hyn allan yw unig Ben-cynrychiolydd posibl y ddynoliaeth. Ond os yw y posibilrwydd o Adda arall wedi ei ddiddymu, eto y mae y posibilrwydd o ddyn o bob un o honom ni yn aros. Ni ddywedir y *dyn diweddaf;* na, yr *ail ddyn,* ac y mae hyn yn gadael lle i'r trydydd, pedwerydd, &c. Gallwn

edrych yn mlaen at y dydd pan fyddwn yn *ddynion*, a hyny at fesur cyflawnder y dyn Crist Iesu.

Ceir yr ymadrodd "Mab y dyn" yn yr Hen Destament. "Ac wele, megys Mab y dyn oedd yn dyfod gyda chymylau y nefoedd, ac at yr Hen Ddihenydd y y daeth." Dan. vii. 13. Prophwydoliaeth am y Messiah yw y geiriau hyn, ac fe'i cyflawnwyd yn Iesu Grist. Profir hyn yn eglur gan ei waith yn defnyddio y teitl mewn cyfeiriad ato ei hun. Dywed fod gan "Fab y dyn arglwyddiaeth ar y Sabboth, awdurdod ar y ddaear i faddeu pechodau, ac hefyd i wneuthur barn.

Yn mhawb ond Crist trodd y syniad o ddyn allan yn fethiant, fel y dysg awdwr y llythyr at yr Hebreaid. "Eithr un mewn ryw fan a dystiolaethodd, gan ddywedyd, "Pa beth yw dyn, i ti feddwl am dano? neu fab dyn, i ti ymweled âg ef? Ti a'i gwnaethost ef ychydig îs na'r angelion; â gogoniant ac anrhydedd y coronaist ti ef, ac a'i gosodaist ef ar weithredoedd dy ddwylaw: Ti a ddarostyngaist pob peth dan ei draed ef. Canys wrth ddarostwng pob peth iddo, ni adawodd efe ddim heb ddarostwng iddo. Ond yr awrhon nid ydym ni eto yn gweled pob peth wedi eu darostwng iddo." Heb. ii. 6—8. Nid ydym ni yn gweled yr hyn a briodolai y Salmydd i ddyn mewn ystyr gyffredinol wedi ei sylweddoli yn neb o feibion enwocaf hanesiaeth. Ond os edrychwn ar Iesu—"Yr Adda diweddaf," gwireddwyd y cwbl ynddo ef. "Eithr yr ydym ni yn gweled yr Iesu," neu "Yr ydym ni yn canfod yr hwn a ddarostyngwyd dros ychydig yn îs na'r angelion, sef Iesu, oherwydd dioddef marwolaeth, wedi ei goroni â gogoniant ac anrhydedd." Heb. ii. 9. Sylweddolwyd ynddo ef syniad y Salmydd o ddyn yn y meddiant o arglwyddiaeth wirioneddol a chyffredinol. Mae'r goron a gollodd Adda yn awr ar ben yr Iesu, a Duw Dad wedi darostwng pob peth o dan ei droed ef. Mae holl ddelfrydau y meddwl dwyfol a dynol o ddyn wedi ymgnawdoli ynddo ef, ac yn ffeithiau hanesyddol yn ei fywyd.

II. FOD Y SYNIAD O OGONIANT DYNOLIAETH I GAEL EI SYLWEDDOLI TRWY DDYFODIAD MAB Y DYN.

Un o wirioneddau mawrion y bennod hon ydyw, "dyfodiad Mab y dyn." Ac fel yr oedd yr Eglwys Iuddewig yn cysylltu rhagorfreintiau mawrion i'w mwynhau â dyfodiad y Messiah, felly hefyd y mae yr Eglwys Gristionogol yn disgwyl am ddyfodol gogoneddus trwy ddyfodiad Mab y dyn. Ei ddyfodiad ef sydd i sylweddoli ei holl obeithion.

1. *Y syniad o ogoniant y ddynoliaeth.*—Wrth sylwi ar fywyd dynoliaeth, canfyddwn yn eglur ei bod wedi ei meddianu gan rhyw syniad, fod yn ei haros yn mlaen gyflwr dyrchafedig a gogoneddus. Tybia pob dyn yn ei ffordd ei hun, ei fod yn symud yn nghyfeiriad rhyw gyfnod, yn yr hwn y caiff ei holl obeithion eu sylweddoli. Ai onid yw yn wirionedd a ddysgir yn y Beibl, ac a bortreiedir yn eglur gerbron y meddyliau mwyaf, fod rhyw gyflwr o berffeithrwydd uchel yn aros dyn yn y dyfodol. Dyma brofiad pawb yn bersonol a chymdeithasol, sef nad yw y cwbl a wnaethant i fod yr hyn ydynt yn awr, ond parotoad ar gyfer rhyw beth sydd anrhaethol fwy a pherffeithiach. I fesur pell iawn, y syniad hwn ydyw bywyd y byd heddyw, a cheisio ei sylweddoli ydyw un cyfrif am ymdrechion dynion i ddyrchafu cymdeithas. Pe na buasai dim mwy i'w gyrhaedd yn y dyfodol, nag sydd wedi ei sicrhau yn barod, peidiai dynoliaeth yn y fan a symud yn mlaen yn nghyfeiriad perffeithrwydd. Beth bynag a gawsom, a beth bynag sydd genym, edrychwn yn mlaen at gael rhywbeth mwy. Nid oes neb yn foddlon ar y hyn sydd ganddo. Dan ddylanwad y syniad hwn yr esgynodd Noah, Abraham, a Moses mor uchel, gan gerfio eu henwau mor ddwfn yn nghraig anfarwoldeb. Brithir y Beibl âg addewidion am bethau mawrion i ddyfod—pethau mor fawrion a theyrnas, gorsedd a choron.

Ond cynwysa y syniad o ogoniant dynoliaeth, ei bod i gyrhaedd rhyw sefyllfa o berffeithrwydd yn y byd hwn—rhyw oes euraidd—rhyw fil-flwyddiant ardderchog, pan fydd pechod wedi ei ddarostwng, a sancteiddrwydd yn teyrnasu yn gyffredinol. Daw cyfiawnder tragywyddol i mewn i holl *departments* y

llywodraeth wladol, dygir addysg uwchraddol i gyrhaedd pob dosbarth o fewn y tir, a phurir holl ffynnonellau y bywyd cymdeithasol. A phan gwblheir hyn bydd dynoliaeth wedi cyrhaedd pwynt uchaf ei gogoniant ar y ddaear. Yn awr, y cwestiwn yw,—Pa fodd y mae hyn i gael ei sylweddoli—y fath ddiwygiad i gael ei ddwyn oddiamgylch? Yr ateb yw,

2. *Mai trwy ddyfodiad Mab y dyn.* Perthyna i'w ddyfodiad dan yr oruchwyliaeth hon, fel dan yr un o'r blaen, ddau ystyr. Yr oedd Crist a'i fynediad allan o'r dechreuad er dyddiau tragywyddoldeb, a'i ddyfodiad parhaus i'r byd oedd y rheswm am bob gwelliant a fu ynddo. Gellir edrych ar y cyfnod o gwymp Adda hyd y geni yn Methlehem, fel cyfnod ei ddyfodiad cyntaf; ac o adeg ei esgyniad i'r nef, hyd ei ddyfodiad i Farn, fel cyfnod ei ail ddyfodiad. Mae yn dyfod yn barhaus, ac ni pheidia hyd oni eistedda ar orseddfainc y farn yn y dydd diweddaf.

(1.) *Ei ddyfodiad parhaus.* Y gair a ddefnyddir yn gyffredin yn y Testament Newydd i ddynodi dyfodiad Crist ydyw *parousia*, yr hwn a olyga bresenoldeb un sydd yn dyfod. A golyga yn fynych y dyfodiad hwnw, yn rhinwedd pa un y mae Iesu Grist yn bresenol bob amser yn y byd. Mae goleuni yr haul bob amser yn bresenol yn y byd, ond y mae felly am ei fod yn parhau i ddyfod yn ddiball. Felly hefyd Iesu Grist, mae bob amser yn bresenol am ei fod yn dyfod yn barhaus. Os edrychwch ar y rhaiadr mawr, chwi a ganfyddwch y dyfroedd mewn tri amser—y mynedol, y presenol, a'r dyfodol. Wrth edrych i wyneb y rhaiadr chwi ganfyddwch y dwfr yn ei gwymp, ac yn ei iaith yn dywedyd,—"*Yr hwn sydd*, YR HWN SYDD," &c. Wrth edrych i lawr i gafn y rhaiadr, chwi a ganfyddwch y dwfr yn ewynu dan ddoluriau ei gwymp, ac yn dianc ymaith gan ddywedyd yn ei ymadrodd,—"*Yr hwn a fu*, YR HWN A FU," &c. Ond wrth edrych i fyny at ei ddisgynfa, chwi a ganfyddwch y dwfr yno yn dyfod, ac yn dyfod heb byth beidio, ac yn ei leferydd yn dywedyd,—"*Yr hwn sydd ar ddyfod,*

YR HWN SYDD AR DDYFOD," &c. Felly, dyfodiad Iesu Grist, Efe ydyw "yr hwn sydd" yn amgylchiadau presenol y byd, Efe ydyw "yr hwn a fu" yn holl ddigwyddiadau yr oesoedd; ac Efe ydyw "yr hwn sydd ar ddyfod" yn chwildroiadau mawrion y dyfodol i wella a dyrchafu cymdeithas. Efe yn dyfod a ganfyddwyd yn mhob diwygiad mawr, er puro a dyrchafu dynoliaeth a gymerodd le o'i esgyniad i'r nef hyd yn awr. Diwygiad mawr dydd y Pentecost, llwyddiant Cristionogaeth yn Ymerodraeth Rhufain, er yr holl erlidigaethau; y Diwygiad Protestanaidd ar Gyfandir Ewrop, a'r Diwygiad Methodistiaeth yn y wlad hon—eu hystyr oll oedd dyfodiad Mab y dyn. Sŵn ei gerddediad Ef oedd rhyddhad y caethion yn India ac America, a dyna ydyw pob symudiad a osodir ar droed i gael y person unigol a'r ddynoliaeth yn gyfunol i ogoneddu Duw.

Dengys hyn i ni yn eglur fod perffeithrwydd y ddynoliaeth i gael ei ddwyn oddiamgylch trwy i "Fab y dyn" ddyfod i mewn i'w holl sefydliadau, ac i gael ei le priodol yn ei holl amgylchiadau—yn mhob swyddfa, yn mhob masnachdŷ, yn mhob cartref, ac yn mhob calon. Pan y cymer hyn le, gwawria oes euraidd dynoliaeth, a bydd yn mhob peth yr hyn ag y bwriadodd Duw iddi fod.

(2.) *Bydd y dyfodiad parhaus hwn o eiddo Mab y dyn i sylweddoli y syniad o ogoniant y ddynoliaeth, yn terfynu yn ei ddyfodiad i farnu y byd.* Yn y dyfodiad (*parousia*) sydd yr awr hon, presenoldeb Ysbryd ac egwyddorion y Mab a geir; ond yn y dyfodiad i farn, bydd yn gorphorol a gweledig bresenol.

III. FOD Y MEDDIANT O DEILYNGDOD I SEFYLL GER BRON MAB Y DYN YN EI DDYFODIAD I GAEL EI SYLWEDDOLI TRWY WYLIADWRIAETH A GWEDDI. "Gwyliwch gan hyn, a gweddïwch," &c.

1. *Y dinystr a effeithir ar hen sefydliadau gan ddyfodiad Mab y dyn.* "Y pethau hyn oll sydd ar ddyfod." Diameu y cyfeirir yma at y dinystr mawr a gymer le ar yr hen sefydliadau a wrthsafent ei

ddyfodiad Ef i fod yn Frenin ysbrydol ac yn brophwyd, neu yn athraw dysgeidiaeth anffaeledig. I'r glust sydd yn ddigon teneu i glywed twrf digwyddiadau dyfodol, y fath sŵn dinystr a ddisgyn ar ei chlyboedd yn y bennod hon. Yma clywir sŵn Jerusalem yn disgyn yn garneddau, sŵn y deml yn syrthio, sŵn hwrdd-beirianau rhyfel yn curo, a daeargrynfäau yn rhwygo. Rhaid i ni gofio mai ffugyrol yw yr iaith, ond er hyny desgrifiad ffugyrol ydyw o'r hyn a gymer le yn wirioneddol. "A bydd arwyddion yn yr haul, a'r lleuad, a'r ser,"—arwyddion dymchweliad yn dyfod yn weladwy yn yr ymerodraethau mwyaf a disgleiriaf. Ni fedr yr *haul*, ymerodraeth fawr China; y *lleuad*, ymerodraeth bwdr y Sultan, na'r *ser*—ymerodraethau llygredig eraill, sefyll o flaen dyfodiad Mab y dyn. Mala y Groes y *crescent*, ac ysbeilia Crist y Mahomet a Confucius o'u hawdurdod a'u dylanwad, yn ogystal a phob cyfundrefn gau arall ar wyneb y ddaear. "Nerthoedd y nefoedd a ysgydwir"—nerthoedd y nefoedd ydynt eu deddfau mawrion. Ysgydwa dyfodiad Mab y dyn y deddfau gormesol ac anghyfiawn a gynhaliant i fyny âu-grefyddau y byd. Daw yn gyfyngbwynt ofnadwy maes o law ar yr holl alluoedd gwrthsafol i Gristionogaeth, ac nis gall yr un ohonynt ei or-oesi, oblegid llwyr ddinystrir hwynt oll. Mae ar ddeddf-lyfrau Prydain Fawr a theyrnasoedd eraill Ewrop gyfreithiau i reoleiddio camwedd ac i gyfreithloni pechod. Rhaid i Grist deyrnasu, ac am hyny rhaid i'r hen ddeddfau hyn gael eu diddymu, ond y cwestiwn yw, a baid eu diddymiad a bod yn ddinystr i'r teyrnasoedd eu hunain?

2. *Y diogelwch yn ngwyneb y chwildroadau a achosir gan ddyfodiad Mab y dyn.* "Dianc rhag y pethau hyn," &c. Dysgir fod y diogelwch yn gynwysedig mewn dau beth, sef *dianc* a *sefyll.*

(1.) *Y diogelwch sydd mewn dianc.* Diangodd Noah a'i deulu i'r arch, diangodd Lot i Soar, a diangai y llofrudd yn Israel i'r ddinas noddfa. Nid oedd diogelwch i'r naill na'r llall heb hyn. Os ydym ninau

am ddiogelwch rhaid i ni ddianc, trwy dori pob cysylltiad rhyngom â phechod, a ffoi am noddfa i gysgod y groes.

(2.) *Y diogelwch sydd mewn sefyll.* Rhaid cael lle i sefyll, cyn y gellir bod yn ddiogel. Pa ddyben fuasai ffoi oni buasai fod rhyw le i ffoi iddo? Y lle i sefyll ydyw "ger bron Mab y dyn." Ger ei fron Ef bydd yr awyr byth yn oleu a'r ffurfafen byth yn glir. Ni ddisgyn diferyn o odreu y gawod ar neb sydd ger ei fron Ef. Ni faidd dinystr ddynesu at ei eisteddfa Ef, na chyffwrdd hyd yn nod wisg y sawl sydd yn ei bresenoldeb.

3. *Teilyngdod i ddianc.* "Ar gael eich cyfrif yn deilwng i ddianc. . . . ac i sefyll ger bron Mab y dyn." Neu, "ac y cedwch eich lle." Felly yr hyn sydd bwysig i ni ydyw, ein bod wedi cymeryd safle, na phâr dyfodiad Mab y dyn i ni ei cholli. Y modd i feddu y teilyngdod hwn ydyw, trwy gael purdeb i'n bywyd, sancteiddrwydd i'n cymeriad, ac ymgysegriad i amcanion Crist, fel ag i fod bob amser yn barod i gydnabod ei hawliau arnom, ac i weithio ochr yn ochr âg Ef, i ddwyn oddiamgylch fuddugoliaeth ei egwyddorion yn mherffeithiad dynoliaeth.

4. *Y modd i sicrhau y teilyngdod hwn.* "Gwyliwch gan hyny, a gweddïwch," &c.

(1.) *Gwyliadwriaeth.* "Gwyliwch gan hyny"—*gan hyny*, sef am y bydd dyfodiad y pethau hyn oll yn sydyn ac annisgwyliadwy. Yr ydym i wylio rhag i ddim ddyfod i mewn i'n bywyd a'n cymeriad, a'n hamddifada o deilyngdod i sefyll ger bron Mab y dyn.

(2.) *Gweddi.* "Gweddïwch bob amser." Nid gweddïo pan fydd gyfyng arnoch, fel Jonah o fôl uffern, ond yn ddibaid. Trwy weddi daliwn gymundeb â Duw, a thrwy gymundeb âg Ef cyfranogwn o rinweddau pur ei natur a'i gymeriad, a chynysgaedda y rhai hyn ni â'r teilyngdod i sefyll ger bron brawdle Crist.

A ydych chwi wedi dal ar yr ymadrodd, "Ar gael eich cyfrif yn deilwng i sefyll?" Tybia hyn fod prawf i gael ei wneyd arnom, ac mai y sawl a'i dalant yn unig a gyfrifir yn deilwng i sefyll. I sefyll, rhaid cael teilyngdod a ddeil ei *glorianu*. Mae yr hwn a bwysodd Belsassar yn ei glorian yn ein pwyso ninau hefyd. Methodd brenin annuwiol y Caldeaid a sefyll ger bron y darn llaw a ysgrifenai ar galchiad y pared yn ystafell y wledd, oblegid yr oedd yn brin o deilyngdod yn nghlorianau Duw. "Ti a bwyswyd yn y clorianau, ac a'th gaed yn brin" (Daniel v. 27). Mae Mab y dyn yn dyfod; ond pwy a oddef ddydd ei ddyfodiad Ef?" "Yr annuwiolion ni safant yn y farn" (Psal. i. 5). "Pwy a ddichon sefyll?" Neb, ond a gyfrifir yn deilwng, ac a garant ei ymddangosiad Ef. O deimlad gwynfydedig! Pa iaith fedr ei fynegu? Cael cymeradwyaeth Duw a chael ein cyfrif yn deilwng i *gadw ein lle* pan fydd haul, lleuad, a ser yn colli eu lleoedd. Os ydym am gael ein cyfrif yn deilwng i *gadw ein lle* ger bron yr Iesu yn nydd y farn, gofalwn gymeryd safle ochr yn ochr âg Ef yn awr. "Os ydym yn cyd-ddioddef gyd âg Ef, fel y'n cyd-ogonedder hefyd" (Rhuf. viii. 17). "Os dioddefwn, ni a deyrnaswn gyd âg Ef; os gwadwn Ef, yntau hefyd a'n gwâd ninau" (2 Tim. ii. 12). Gwnawn bob peth yn deilwng ohonom ein hunain fel dilynwyr Crist, ac yna wedi i ni orphen pob peth, nyni a gawn SEFYLL (Ephes. vi. 13).

XIV.

Dinasyddiaeth y Saint.

"Yr Arglwydd ei hun a ddisgyn o'r nef gyd a bloedd, a llef yr Archangel, ac ag udgorn Duw."—Yr Apostol Paul.

Cyrph y Saint, yn nhrwm-gwsg angau
  Yn y beddau gant eu cloi;
Ac ni lwydda sŵn rhyfeloedd,
Rhuad tonau mawrion moroedd,
Na tharanau croch y nefoedd;
  Er eu nerthoedd, i'w deffroi.

Heibio'r â rhyw feithion oesau;—
  Ond y beddau eto 'n nghau;
Gofyn rhai, fel pe yn amau,
"Beth a ddaw o gyrph y seintiau,
Tybed cant ar ddiwedd dyddiau
  O'u carcharau eu rhyddhau?"

Ust! Ust!! Pa beth yw 'r ddreiddgar sain
  Fry drwy 'r nef sy'n adsain? Clyw!
Cân tyrfa yw, rif gwlith y wawr,
Bloedd uchel ryw Arch-angel mawr,
Llef Crist o'r nef yn d'od i lawr;—
  Ust! yn awr, cân udgorn Duw.

Gwel, fynwentau 'r byd mewn cyffro;—
  Môr yn deffro 'n sŵn y gân:
Beddau âr i gyd sy'n weigion
A 'run modd holl feddau 'r eigion;
Allan daeth eu carcharorion,
  Oll yn rhyddion fawr a mân.

Dedwydd ddydd yr ail-ddyfodiad,
  Dydd dyrchafiad fydd i'r Saint;
Eu cyrph gwaelion gyfnewidir,
Fel corph Iesu mawr fe'n ffurfir
Mewn gogoniant hwy berffeithir—
  Trindod folir am y fraint.

T. J. H.

Dinasyddiaeth y Saint.

"Canys ein hymarweddiad ni sydd yn y nefoedd; o'r lle hefyd yr ydym yn disgwyl yr Iachawdwr, yr Arglwydd Iesu Grist: yr hwn a gyfnewidia ein corph gwael ni, fel y gwneler ef yr un ffurf a'i gorph gogoneddus ef, yn ol y nerthol weithrediad trwy yr hwn y dichon efe, ïe, ddarostwng pob peth iddo ei hun."—PHIL. III. 20, 21.

WRTH edrych ar yr adnodau hyn yngoleuni y rhai o'u blaen, canfyddwn wrth-gyferbyniaeth rhyngddynt. Yn yr adnodau blaenorol cyfeirir at rodiad "Gelynion Croes Crist," ond yma at ymarweddiad dinasyddion y nef. Dysg yr Apostol fod y naill yn aflan, ond y llall yn lân. Nid oes dim yn well dangoseg i ansawdd foesol ymarweddiad dynion, na'u teimlad at y Groes. Nis gall y dyn sydd yn ei chasai hi amgen na bod yn aflan ei fuchedd, na'r hwn sydd yn ei charu amgen na bod yn lân ei rodiad. Nid oes dim ond dirywiad a llygredigaeth yn bosibl ar wahan iddi hi, ond y mae adnewyddiad a sancteiddrwydd yn bosibl trwyddi. Dywed yr Apostol fod "Gelynion Croes Crist" yn rhodio'r ffordd sydd yn arwain i ddistryw, "duw y rhai yw eu bol, a'u gogoniant yn eu cywilydd, y rhai sydd yn syniad pethau daearol." Ond y mae y rhai a garant y Groes ar y ffordd i ddiogelwch, canys tystia eu hymarweddiad mai pererinion y nefoedd ydynt. Daw adnodau ein testyn i mewn fel rheswm dros yr anogaeth a rydd yr Apostol i'r Philippiaid yn yr 17eg adnod. "Byddwch ddilynwyr i mi, frodyr, ac edrychwch ar y rhai sydd yn rhodio felly, megys yr ydym ni yn siampl i chwi." Efelychwch fywyd y rhai sydd yn rhodio yn ol ein siampl ni, ac nid bywyd y rhai sydd yn rhodio yn ol siampl "Gelynion Croes Crist."

"Canys ein hymarweddiad ni" ("ni" yn wrthgyferbyniol iddynt hwy), "sydd yn y nefoedd." Dyma reswm digonol dros rodio yn llwybr yr ymarweddiad Cristionogol. Gelwir sylw yn ein testyn at

DDINASYDDIAETH Y SAINT.

Perthyna i "Ddinasyddiaeth y Saint" ei rhagoriaethau a'i rhagorfreintiau, ond safant yn y berthynas agosaf â'u gilydd, ac nid bob amser y gallwn weled y rhagoriaethau ar wahan i'r rhagorfreintiau. Fodd bynag, mae gwahaniaeth rhyngddynt, a bydd yn fanteisiol i ni gadw hyny mewn golwg. Cawn sylwi yn gyntaf ar

I. RHAGORIAETHAU DINASYDDIAETH Y SAINT. "Canys ein hymarweddiad ni sydd yn y nefoedd."

Gwel y darllenydd ein bod wedi gollwng ein gafael o'r gair *ymarweddiad*, ac wedi dewis y gair *dinasyddiaeth* yn ei le. Gwnaethom felly am fod y gair olaf yn cyfleu yn llawnach feddwl y gair a ddefnyddiodd yr Apostol. Ni cheir y gair *politeuma* yn un man arall yn y Testament Newydd. Defnyddiai Paul yn fynych eiriau mawrion a chlasurol y Groegiaid, gan eu llenwi â meddyliau ysbrydol. Awgryma y ffaith, fod y gair hwn yn cael ei gyfieithu yn wahanol gan ddysgedigion beiblaidd, fod iddo wahanol ystyron. SALESBURY a MORGAN a gyfieithant y gair yn "wladwriaeth." PARRY, gan ddilyn y Cyfieithiad Saesneg Awdurdodedig, a'i cyfieithodd yn "ymarweddiad." Yr holl gyfieithwyr diweddar a'i cyfieithant yn "Ddinasyddiaeth." Ond tra mai *dinasyddiaeth* rydd i ni y syniad cyflawnaf o'r gair, eto y mae y syniad o *wladwriaeth* ac *ymarweddiad* yn gynwysedig ynddo, ac efallai fod yn rhaid cael y tri gair mewn cyfuniad i osod allan y meddwl. Felly cymerwn y gair yn ol y gwahanol gyfieithiadau ohono, dan sylw.

1. *Gwladwriaeth.* "Canys ein *gwladwriaeth* ni sydd yn y nefoedd." O'r un gwreiddyn yr hana y geiriau *policy, polity, politics*, &c. Ac felly byddai yn briodol

i'r saint ddywedyd, "Ein *politics* ni sydd yn y nefoedd." Y prif syniad mewn gwleidyddiaeth (*politics*), yw dyledswydd a rhwmedigaeth. Mae yn perthyn i bob dyn fel gwleidyddwr gyfrifoldeb ar gyfrif ymddiriedaeth. Perthyna i bob gwlad ei phrif-ddinas (*Metropolis*). Yno mae eisteddle y prif allu (*supreme power*) y llywodraeth, a chan hwn mae yr awdurdod i wneyd deddfau i ddarparu ar gyfer y deiliaid ac i'w cyfarwyddo yn nghyflawniad eu dyledswyddau personol, teuluol, cymdeithasol, masnachol, &c. Efallai fod pob peth a berthyn i *bolitics* yn gynwysedig mewn gwneyd, cadw, a gweinyddu deddfau. Caniata y prif awdurdod, allu i is-awdurdodau i ddeddfu, ond rhaid i ddeddfau lleol yr is-awdurdodau fod yn gyson â deddfau cyffredinol y prif awdurdod, onide ni cheir hawl i'w gweinyddu. Cyffelyb i hyn ydyw Gwleidyddiaeth y Saint. Mae iddi hithau ei *Metropolis*, sef y nefoedd. Yno y mae y prif awdurdod yn eistedd. Oddiyno y derbynia y Saint eu deddfau, y rhai a'u cyfarwyddant i gyflawni eu dyledswyddau yn mhob cylch yn llawn a chymeradwy. Ac y mae deddfau eu gwladwriaeth hwy mor berffaith, fel nad oes le i welliant yn un o honynt. Un Beibl roddodd y nefoedd i'r ddaear, ac ni bydd byth eisiau yr un arall. Erys hwn byth yn rheol ffydd ac ymarweddiad.

2. *Ymarweddiad.* "Canys ein *hymarweddiad* ni sydd yn y nefoedd." Cynwysa y gair *ymarweddiad* syniad gwahanol i'r hwn a gynwysa *gwleidyddiaeth.* Dyledswyddau mewn deddfau ddynoda gwleidyddiaeth, ond y wedd neillduol a argreffir ar fywyd fel canlyniad cydymffurfiad â'r deddfau ydyw yr ymarweddiad. Mae pob dyn wrth fyw o dan, a thrwy gydymffurfio â deddfau ei wlad yn cael ei nodi ganddynt, a gellir gweled ei wlad yn ei fywyd a'i ymarweddiad. Gall fod y Chinead sydd yn Lloegr heddyw wedi gadael ei wlad er ys amser, ond y mae yn gwisgo ei lliw ac yn byw iddi bob dydd. Ai onid yw nodau Cymru ar syniadau, tafod, ac arferion y Cymro mewn estronol wlad? Caria Gymru i'w gan-

lyn i ba le bynag yr elo. Gall Chinëaid, Tyrciaid, Cymry, &c., yn mha ranbarth bynag o'r byd y bydd-ant, ddywedyd, "Ein hymarweddiad ni sydd yn ein gwlad." Felly gyd â'r Saint; yn gymaint a'u bod yn byw deddfau y nefoedd, mae nodau'r nefoedd wedi eu gosod yn amlwg arnynt. Mae acenion y nefoedd yn eu siarad, ei seiniau yn eu cân, a'i chamrau yn eu cerddediad. Cariant y nefoedd i'w canlyn i bob man, yr hyn a brofa tu hwnt i bob amheuaeth mai yno y mae eu hymarweddiad.

3. *Dinasyddiaeth.* "Ein *dinasyddiaeth* ni sydd yn y nefoedd." Fel y nodwyd, y syniad amlycaf yn y gair *gwleidyddiaeth* ydyw *rhwymedigaeth*, ond y syniad amlycaf y gair *dinasyddiaeth* ydyw *rhagorfreintiau.* Pa uchaf mewn gwareiddiad a dylanwad fyddo teyrnas neu lywodraeth, uchaf oll fydd rhagorfreintiau eu dinasyddion. Ystyrid bod yn ddinesydd Rhufeinig yn amser yr Apostol Paul yn rhagorfraint fawr. Dywedai ef, gyda gradd o ymffrost, "A minau a anwyd *yn freiniol.*" Nid braint fechan yw bod yn ddinesydd Prydeinig. Mae anrhydedd y deyrnas, awdurdod ei gorsedd, a gallu ei byddinoedd yn sicrhau diogelwch i'w dinesydd. Ond beth oedd bod yn ddinesydd Rhufeinig, a beth yw bod yn ddinesydd Prydeinig, o'i gymharu â bod yn ddinesydd rhyddfreiniol y nefoedd? Tafla rhagorfreintiau y ddinasyddiaeth hon eiddo pob un arall i'r cysgodion. Ei hawdurdod sydd ddwyfol, ei deddfau yn berffaith, ei hadnoddau yn ddihysbydd, a'i gallu yn anherfynol. Yn ngoleu hyn, canfyddwn nas gall dyn byth gael braint uwch na bod yn ddinesydd o'r Jerusalem nefol. Dwy wlad fawr sydd, y ddaearol a'r nefol, ac y mae yn rhaid i bawb ddwyn delw y naill neu y llall. Mae bywyd y Cristiou o'r nefoedd, ac i'r nefoedd yn awr,—byw yn awr i'r wlad y cafodd deddfau ei fywyd ohoni, ac yn y man caiff ei symud i fyw ynddi.

II. RHAGORFREINTIAU DINASYDDIAETH Y SAINT. "O'r lle hefyd yr ydym yn disgwyl yr Iachawdwr," &c.

Yn mhlith rhagorfreintiau mawrion y ddinasydd-

iaeth nefol, disgwylia y credadyn yn neillduol am ddau beth, sef ymddangosiad yr Iachawdwr ac adnewyddiad y corph.

1. *Ymddangosiad yr Iachawdwr.* "O'r lle hefyd yr ydym yn disgwyl yr Iachawdwr, yr Arglwydd Iesu Grist."

(1.) *Ymddengys o'r nef.* "O'r *lle* hefyd yr ydym yn disgwyl." Mae y Cristion wedi ei danio gan obaith, gwrthrychau yr hwn sydd yn y nefoedd. Yn y nefoedd mae yr Iachawdwr yn awr—yn y Cyssegr Sancteiddiolaf, yn ymddangos ger bron Duw drosom ni—yn nhŷ ei Dad yn parotoi lle i ni.

(2.) *Ymddengys o'r nef yn ei gymeriad swyddogol.* "Disgwyl yr *Iachawdwr.*" Disgwyliad am ei ail-ymddangosiad fel Iachawdwr sydd yma. Ymddangosodd o'r blaen fel Iachawdwr, ond Iachawdwr enaid ydoedd benaf y pryd hwnw, ond Iachawdwr y corph fydd y tro nesaf, fel y dysgir yn ein testyn.

(3.) *Ymddengys o'r nef yr ail waith gyd âg awdurdod i gyflawni ei waith fel Iachawdwr.*" "Disgwyl yr Iachawdwr, yr Arglwydd Iesu Grist." Mae awdurdod "yr Arglwydd" tu cefn i'r Iachawdwr i wneyd ei waith. Ac *Iesu Grist* ydyw yr Arglwydd. Mae yr awdurdod yn meddiant yr hwn a deimla y dyddordeb dyfnaf ynom, ac felly gallwn fod yn sicr na chyfynga yr Arglwydd ar yr Iachawdwr yn nghflawniad ei waith, oblegid yr un Person mawr yw y naill a'r llall.

2. *Adnewyddiad y Corph.* "Yr hwn a gyfnewidia ein corph gwael ni," &c. Disgwylia yr holl gredinwyr am gael myned i'r nefoedd, ac ar yr un pryd teimlant fod yn rhaid cael cymhwyster i fyned iddi. Fel mae yn rhaid sancteiddio yr enaid er ei gymhwyso i'r nef, felly hefyd rhaid cyfnewid y corph, oblegid nid yw fel y mae, yn gymwys iddi. Nis gall y corph sydd wedi ei gyfaddasu i bwysau deddfau y ddaear, ymgynal dan bwysau deddfau byd y gogoniant. Felly os ydyw y corph i fyned i'r nefoedd rhaid ei gyfnewid trwy ei

ffurfio o'r newydd, fel y byddo, o ran ei gyfansoddiad, yn cyfateb i bwys y deddfau y bydd yn byw danynt. Y Person mawr a ymgymer a chyfnewid ein corph ni fel ag i'w gyfaddasu i ddeddfau pwys y nefoedd, ydyw yr Arglwydd Iesu Grist. Medda Ef ar y ddau gymhwyster mawr i gwblhau y gwaith, sef gwybodaeth trwy brofiad o'r deddfau ag y mae corph dynol i fyw danynt yn y nefoedd ar un llaw, a'r nerthol weithrediad dwyfol i effeithio y cyfnewidiad angenrheidiol yn ein cyrph ni er ein galluogi i fyw dan y cyfryw ddeddfau, ar y llaw arall.

(1.) *Y ffurf, i ddelw yr hwn y cyfnewidir ein corph ni.* "Fel ei gwneler yr un ffurf a'i gorph gogoneddus Ef," neu "Gorph ei *ogoneddiad* Ef." Y cyfieithiad cywir o'r rhan gyntaf o ail adnod ein testyn ydyw, "Yr hwn a ffurfia o newydd gorph ein darostyngiad ni." Awgryma yr ymadrodd "Corph ei ogoneddiad Ef," ddarfod i'w gorph ymddangos mewn ffurfiau a chyflyrau amrywiol. Ac y mae hyny yn ffaith. Sylwn yn

(*a.*) *Ar gorph ei ddarostyngiad.* Yr oedd hwn ar ffurf corph ein darostyngiad ni. Nid corph fel eiddo Adda oedd corph ymgnawdoliad y Gwaredwr. Corph wedi ei greu oedd gan yr Adda cyntaf, ond corph wedi ei genhedlu a'i eni oedd gan yr Adda diweddaf. Trwy genhedliad a genedigaeth y cymhwyswyd iddo ef gorph. Ni buasai corph wedi ei greu yn ateb y diben iddo ef, oblegid yr oedd yn ofynol iddo sefyll yn y berthynas o frawd â meibion dynion. Yn nghorph ei ddarostyngiad y bu fyw ar y ddaear. Yn hwn y dioddefodd ac y bu farw. Ië, yn hwn y cyflwynodd ei hunan yn aberth dros bechod, ac y rhoddodd iawn i gyfiawnder dwyfol, er agor llwybr o ymwared trwy faddeuant i fyd euog.

(*b.*) *Corph ei adgyfodiad.* Yn nghorph ei ddarostyngiad y bu farw, a hwn a gladdwyd yn medd newydd Joseph. Ond cyfnewidiwyd ef i gorph yr adgyfodiad ar fore y trydydd dydd. Yr oedd ôl y driniaeth a

gafodd yn nghorph ei ddarostyngiad yn amlwg yn nghorph ei adgyfodiad, ac y mae yn debyg fod hyn yn angenrheidiol mewn trefn i argyhoeddi y disgyblion o ddilysrwydd ei adgyfodiad.

(*c*) *Corph ei ogoneddiad.* Bu Crist fyw ar y ddaear am ddeugain niwrnod yn nghorph ei adgyfodiad, er cadarnhau y disgyblion ei fod yn fyw er iddo farw. Ond yn nghorph ei adgyfodiad yr oedd olion dioddefiadau corph ei ddarostyngiad yn diflanu, y naill ar ol y llall, nes o'r diwedd y diflanodd creithiau yr archollion yn llwyr. Nid oes dim o olion y dioddeffiadau yn nghorph ei ogoneddiad yn y nef. Camgymeriad mawr oedd i'r bardd ddywedyd—

> "Yn ei sanctaidd gorph y gwelir
> *Nodau* ei ddioddefaint Ef."

Nid yw corph dan ei greithiau yn gorph perffaith. Mae corph gogoneddiad yr Iesu yn berffaith, yn ddi-ôl dioddefiadau, ac ar ffurf hwn y cyfnewidir ein cyrph ni.

Yn awr yn nghyfnewidiad ein cyrph ni i fod yr un ffurf a chorph ei ogoneddiad Ef, dilynir yr un drefn ag a ddilynwyd yn nghwrs-gyfnewidiad corph Crist. Nis gallwn dderbyn delw corph ei ogoneddiad heb ein cyfnewid yn gyntaf i ffurf corph ei adgyfodiad. Yn nghorph ein darostyngiad yr ydym ni yn awr, yn hwn y dioddefwn, yn hwn y byddwn farw, a hwn a gleddir. Ond yn y bore mawr, pan gân udgorn Duw, cyfnewidir ef yn gorph yr adgyfodiad, a diameu y canfyddir olion y cystudd mawr arno, ond wedi'r adgyfodiad, cyfnewidir y corph i fod yr un ffurf a chorph gogoneddiad Crist. Felly nid adfer ein corph i ffurf corph Adda fel yr oedd pan ei crewyd a wneir, ond ei gyfnewid i ffurf corph Crist, a hyny yn y ffurf uchaf a berthyn iddo. Beth yn fwy na hyn a allwn ddymuno?

(2.) *Y gallu trwy yr hwn yr effeithir y cyfnewidiad.* "Yn ol y nerthol weithrediad trwy yr hwn y dichon

Efe, ïe, ddarostwng pob peth iddo ei hun." Yn ngrym y gallu dwyfol a fedd, darostynga bob peth i'w amcan ei hun, ac am hyny *Efe a ddichon* adgyfodi y meirw, a chyfnewid cyrph y Saint, i fod yr un ffurf a'i gorph ei hun.

Y fath amgylchiadau pwysig a mawrion sydd o'n blaen—marwolaeth, y bedd, yr adgyfodiad, a'r cyfnewidiad. Ai oni theimlwn weithiau arswyd yn ein meddianu wrth feddwl am danynt, ac ofn yn ein gorlethu wrth geisio dyfalu pa fodd yr awn trwyddynt. Ond os yw ein hymarweddiad yn y nefoedd, nid rhaid petruso. Clywsom am hen wreigan o Gymru, yr hon, ar gais ei merched, aeth i Lundain i edrych am danynt. Cyn gychwyn derbyniodd lythyr oddiwrth un ohonynt, i'w chyfarwyddo gyd â pha drên i ddyfod. Yr oedd i ddyfod yn ei blaen i Willesden Junction—yna newid a myned i Lundain gyd â'r *Under-ground Railway.* Ofnai yr hen wreigan y ffordd hono yn fawr, a phwysai yn ryfeddol ar ei meddwl. Yn y Junction yr oedd ei merch yn ei chyfarfod, ac wedi iddi ddyfod i lawr o'r cerbyd dywedai wrthi, "Mae gen' i ofn yr *under-ground*, nes mae iasau yn myn'd troswyf wrth feddwl am dani." "O," meddai y ferch, "bydd pob peth yn *all right*, mam bach," ac i mewn â hwy i gerbyd yr *Under-ground.* Cyrhaeddasant y *station* yr oeddynt i ddisgyn, ac allan â hwy, ac i fyny i'r *street*, ac yna i'r *tram* oedd yn pasio drws y tŷ. Ar ol myned yn mlaen ychydig, trodd yr hen wreigan yn sydyn at ei merch, a gofynodd, "Yn mh'le mae yr *Under-ground Railway*, dywed?" "O, mam bach," atebai hithau, "yr ydych wedi dyfod drwyddi yn ddiogel er's meityn." Ni wybu iddi fod ynddi nes dyfod drwyddi. Felly ninau, mae ofn angau a'r bedd—yr hen *Under-ground Railway* yn ein poeni yn fawr, a phryderwn lawer pa fodd yr awn drwyddynt i'r wlad sydd ddisgleiriach na'r haul. Ond megys ag y daethom drwy byrth genedigaeth yn ddiarwybod i ni ein hunain, felly hefyd yr awn trwy byrth angau a'r bedd. Ar ol myned trwyddynt, y cawn wybod i ni fod ynddynt. Fe ofala Crist am ein dwyn yn

ddiogel drwy'r cwbl, ond i ni ofalu bod â'n hymarweddiad yn y nefoedd.

Y Jerusalem Nefol.

DAT. XXI. 22—27.

CAERSALEM, mor swynol yw'th enw,
  Prif-ddinas yr oesoedd wyt ti;
Maen jaspis yn ddisglaer fel grisial
  Yw delw d' ogoniant i mi;
Holl seiliau dy furiau a harddwyd
  A meini gorwychaf eu bri;
Dy byrth ydynt berlau disgleirwych
  Rhyfeddod yr oesau di-ri'.

Dy heol oll drosti balmantwyd
  Yn brydferth a chywrain âg aur;
Dy deml fawreddog a sanctaidd
  Yw Duw Hollalluog a'r Gair;
Goleuni y Duwdod geir ynot,
  Heb angen haul, lleuad, na sêr;
Gogoniant a cheinion y gwledydd
  Addurnant drigfanau y Nêr.

Fy nghalon hiraetha am danat,
  Nes tywallt fy nagrau yn lli',
Fy mysedd chwenychant y tànau,
  Mewn telyn gyweiriwyd i mi;
O swynol Gaersalem, anwylaf,
  Holl gartref fy mrodyr a'm Duw,
'Rwy'n disgwyl bob dydd yn hyderus
  Gael d'od i'th balasau i fyw.

T. J. H.

TREFFYNNON:

W. WILLIAMS A'I FAB, ARGRAPHWYR, &C.

Deacidified using the Bookkeeper process.
Neutralizing agent: Magnesium Oxide
Treatment Date: April 2004

PreservationTechnologies
A WORLD LEADER IN PAPER PRESERVATION
111 Thomson Park Drive
Cranberry Township, PA 16066
(724) 779-2111